# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | **Rhagair** | 1-2 |
| **2.** | **Adolygiad y Flwyddyn** | |
| | 2.1 Gweinyddiaeth Pensiynau | 3-7 |
| | 2.2 Strategaeth Buddsoddi a'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi | 8 |
| | 2.3 Safon Cyfrifeg Ryngwladol 19 (SCR19) a Safon Adrodd Ariannol 17 (SAA17) | 8-9 |
| | 2.4 Cod Stiwardiaeth | 9 |
| | | 9 |
| **3.** | **Tueddiadau Diweddar** | 10 |
| **4.** | **Adroddiad Rheoli** | |
| | 4.1 Gweinyddiaeth y Cynllun | 11-13 |
| | 4.2 Sefyllfa Actiwaraidd | 13-14 |
| | 4.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw | 14-15 |
| | 4.4 Pwerau Buddsoddi | 16 |
| | 4.5 Rheoli Buddsoddiadau | 17 |
| | 4.6 Perfformiad Buddsoddi | 18-20 |
| | 4.7 Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi | 20 |
| | 4.8 Datganiad Strategaeth Cyllido | 21 |
| | 4.9 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth | 21-22 |
| **5.** | **Strwythur Rheoli** | 23 |
| **6.** | **Ystadegau Aelodaeth** | 24 |
| **7.** | **Y Cyfrifon – yn amodol ar archwiliad** | |
| | Datganiad o Gyfrifon 2012-2013 | 25-26 |
| | Nodiadau i'r Cyfrifon 2012-2013 | 27-59 |
| **8.** | **Atodiadau** | |
| | Datganiad Polisi Cyfathrebu | 60-71 |
| | Datganiad Polisi Llywodraethu | 72-73 |
| | Datganiad Cydymffurfiad â'r Drefn Lywodraethol | 74-78 |
| | Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi | 79-95 |
| | Datganiad o Gydymffurfiad gyda'r Cod Stiwardiaeth | 96-97 |
| | Datganiad Strategaeth Cyllido | 98-115 |

# 1. Rhagair

Mae hi wedi bod yn flwyddyn anodd ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, yn bennaf oherwydd tan berfformiad gan un o'r buddsoddwyr ecwiti a'r safiad a gymerwyd gan y Gronfa gyda'i fuddsoddiadau bondiau.

Yng nghyd-destun ein disgwyliadau buddsoddi, mae'r dychweliadau o 11.7% a gafwyd gan y Gronfa yn cymharu'n dda gyda'r tybiaethau a wnaed yn y prisiad diwethaf o 5.9%, ac yn wir dros y cyfnod tair blynedd ers y prisiad diwethaf fe welwyd cynnydd yn yr asedau cyfwerth a bron i 6.8% y flwyddyn yn erbyn y ffigwr yma a ragwelwyd yn y prisiad. Fodd bynnag mae'r ffigwr o 11.7% ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf 1% yn llai na'r meincnod o 12.7%. Daw hyn yn sgil perfformiad siomedig dros gyfnod hir gan un o Fuddsoddwyr Ecwiti'r Gronfa a bellach 'rydym wedi dileu cytundeb y rheolwr hwnnw.

Mae'r perfformiad cymharol yn fwy siomedig hyd yn oed gan fod Cronfa Gwynedd yn y safle 77 allan o 85 yn nhermau perfformiad wrth gymharu gyda chronfeydd llywodraeth leol eraill, safle tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn gyfuniad o berfformiad buddsoddi ecwiti gwael gan un rheolwr fel y nodir uchod a'r ffaith fod ein cytundeb buddsoddi bondiau absoliwt (sef tua 15% o asedau'r Gronfa) yn defnyddio meincnod "arian +2%" yn hytrach na meincnod bondiau traddodiadol. Bwriad hyn yw gwarchod y Gronfa ar adegau pan fydd dychweliadau bondiau yn negyddol neu pan fyddant yn is na dychweliadau arian. Fodd bynnag ar adeg pan fu dychweliadau bondiau yn hynod o gryf , cafodd effaith niweidiol ar berfformiad cymharol y gronfa wrth gymharu gyda chronfeydd eraill sy'n defnyddio dulliau mwy traddodiadol o fuddsoddi mewn bondiau.

Ffigyrau blwyddyn yw'r rhain wrth gwrs, ac mae buddsoddi mewn asedau o reidrwydd yn weithgaredd hir dymor sy'n cael ei effeithio gan nifer o ffactorau a phenderfyniadau buddsoddi. Byddem yn disgwyl i berfformiad y dyfodol adlewyrchu'r camau a gymrwyd eisoes i ymateb.

Roedd asedau'r Gronfa wedi cyrraedd £1,194m ar 31 Mawrth 2013, cynnydd o £143.9m yn ystod y flwyddyn, fel y dangosir yn y cyfrifon ar dudalen 25.

Penodwyd Veritas Asset Management (UK) ym mis Mawrth 2012 i gymryd lle'r rheolwr ecwiti blaenorol ac fe drosglwyddwyd yr asedau yng Ngorffennaf 2012.

Perfformiodd ecwiti yn well na'r flwyddyn flaenorol gyda'r Gronfa yn manteisio oherwydd bod ganddo bwysau uwch mewn ecwiti a ddyfynnir (70% yn hytrach na chyfartaledd 63%). Yng nghyd-destun eu cytundeb perfformiodd ein rheolwr bondiau yn dda hefyd gydag Insight Investment yn dychwelyd 4.8% (4.2% yn uwch na'r meincnod) (gweler tudalennau 18 i 20 am fanylion).

Yn dilyn y penderfyniad yn 2012-13 i fuddsoddi mewn is-adeiladwaith dechreuodd y taliadau i'r Gronfa a ddewiswyd yn ystod y flwyddyn. Gwneir y buddsoddiad drwy gyfraniadau cyson dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r rhaglen waith ar gyfer prisiad actiwaraidd 2013 ar y gweill er mwyn cynhyrchu canlyniadau cychwynnol yn yr Hydref gyda chanlyniadau terfynol yn dilyn yn gynnar yn 2014, er mwyn gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer 2014-15. Mae'n hynod debygol na fydd yr hinsawdd economaidd wael tu hwnt a'i effaith ar ddychweliadau bondiau a gwerth asedau yn newyddion da. Fodd bynnag byddwn yn gobeithio y bydd agwedd geidwadol Cronfa Gwynedd tuag at y tybiaethau

prisio a gosod cyfraddau cyfraniadau yn cynnig elfen o warchodaeth yn y cyswllt hwn. Fel rhan o'r broses hon adolygir y Datganiad Strategaeth Cyllido gan gynnwys ymgynghoriad ar y cynigion. Anogir pawb i gymryd rhan yn y broses hon.

Ers prisiad actiwaraidd 2010 rydym wedi derbyn diweddariad blynyddol ar dafluniad cyllido'r Gronfa. Amcangyfrifwyd bod y lefel gyllido ar 31 Mawrth 2013 o gwmpas 70% sef yr un lefel a rhagwelwyd y flwyddyn flaenorol. Y prif newidiadau yw'r lefel is o ddychweliadau ar fondiau sydd yn creu prisiad uwch ar gyfer ymrwymiadau cyflogwyr yn y dyfodol sydd yn cael ei gosod yn erbyn dychweliadau uwch na'r disgwyl ar asedau'r Gronfa yn 2012/13. Mae'r newid yn y tybiaethau cyffredinol wedi cynyddu cyfradd gwasanaeth y dyfodol cyfartalog ar gyfer y Gronfa o 24.9% i 26.0% ar 31 Mawrth 2013. Wrth gwrs, amcangyfrif bras ar sail nifer o dybiaethau yw hyn ac fe fydd y prisiad ffurfiol yn dod i gasgliad ar sail yr holl ffeithiau a phrofiadau dros y tair blynedd diwethaf allasai fod yn lled wahanol.

Fodd bynnag 'rydym yn llwyr ymwybodol o'r effaith y mae cynnydd sydyn yng nghyfraniad cyflogwyr yn medru ei gael ar gyllidebau ac 'rydym yn gweithio'n agos gyda'r actiwari i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau fod unrhyw gynnydd y bydd ei angen yn cael ei wneud mewn modd llyfn.

Parhaodd yr uned weinyddol gyda'i pherfformiad effeithiol fel y dangosir gan y mesurau yn erbyn ei thargedau (gweler tudalen 7). Mae'r gweithgareddau cyfathrebu yn parhau i ddatblygu'r berthynas gyda'r cyflogwyr er mwyn annog deialog a gwell dealltwriaeth ar faterion pensiynau.

Parhaodd y gwaith ar fanylion y cynllun pensiwn Llywodraeth Leol er mwyn bod yn barod am weithrediad yn 2014 ac mae systemau newydd mewn lle er mwyn hysbysu cyflogwyr am y newidiadau a'u heffaith. Ceir manylion pellach ar dudalennau 3 a 4.

Fel y nodwyd yn flaenorol, er mai amcan y cynllun newydd yw creu cynllun mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol a lleihau costau i gyflogwyr, mae hyn yn annhebyg o ddigwydd i'r raddfa a ddisgwylir yn y tymor byr oherwydd perfformiad gwael y marchnadoedd yn ddiweddar fydd yn debygol o lyncu unrhyw ostyngiadau a gyflawnir trwy reoliadau'r cynllun newydd. Fodd bynnag yn yr hir dymor fe ddylem weld y budd gan y bydd cyfraniadau cyflogwyr yn llai nag y byddent fel arall.

Yn ystod 2012-13 cymerodd Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru ran mewn prosiect i ystyried a oedd yna gyfleoedd yn codi o gael llai o gronfeydd pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru.. Cynhyrchwyd adroddiad yn Chwefror 2013 a oedd yn manylu'r gwaith a'r casgliadau a gyrhaeddwyd. Er mwyn ymgynghori ar ei chynnwys anfonwyd y ddogfen hon at yr holl randdeiliaid fyddai â diddordeb ynddi yn ystod Mawrth 2013 a derbyniwyd nifer o ymatebion. Wrth ysgrifennu'r adroddiad yma, mae Is-gr☐p Pensiynau Cymdeithas Trysoryddion Cymru yn ystyried yr ymatebion a disgwylir adroddiad ar yr ymatebion hynny ynghyd a chyfeiriad dilynol yn y dyfodol agos.



Dilwyn O. Williams
**Cyfarwyddwr Corfforaethol**

# 2. Adolygiad o'r Flwyddyn

## 2.1 Gweinyddu Pensiynau

**Cyffredinol a Chyflwyniad**

Gan fod dyluniad lefel uwch cynllun Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) 2014 wedi'i gytuno cyn dechrau'r flwyddyn, byddai'r symbyliad ar gyfer 2012/13 yn cynnwys mireinio agweddau manylach rheoliadau'r cynllun. Roedd hyn yn cynnwys proses o ymgynghori i sicrhau bod geiriad y rheoliadau yn addas ac yn unol â deddfwriaeth lles a phensiynau gor-redol.

Roedd 2012/13 hefyd yn flwyddyn oedd yn arwain at brisiad mis Mawrth 2013. Wrth baratoi at hyn, cynhaliwyd ymgynghoriadau a chyfarfodydd amlach gyda chyflogwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gofynion a'r ystyriaethau. Gwelir manylion pellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Adolygiad o gynlluniau pensiwn sector cyhoeddus a'r CPLlL**

Cytunwyd ar strwythur y CPLlL newydd yn y cyfnod oedd yn arwain at adroddiad y llynedd. Cynllun Cyfartaledd Enillion Gyrfa wedi'i Adbrisio (CARE) fyddai ac, yn wahanol i gynlluniau pensiwn eraill yn y sector cyhoeddus eraill a CPLlL yr Alban oedd i fod yn weithredol o 2015, byddai'n dod i rym o fis Ebrill 2014. Mae hon yn amserlen dynn iawn o ystyried bod angen drafftio'r rheoliadau ac ail-ddylunio meddalwedd y systemau.

Cadarnhawyd strwythur sylfaenol y cynllun gyda chyfradd cronni o 1/49, ailbrisiad blynyddol yn seiliedig ar Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ac oed ymddeol arferol yn gysylltiedig ag oed pensiwn gwladol yr unigolyn, i'w adolygu'n yn ddibynnol ar gostau parhaus.

Dyma enghraifft gymharol syml o sut mae'r cynllun CARE yn gweithio. Mae'n seiliedig ar 'Geraint', dyddiad geni 1/6/1989, dros gyfnod o bum mlynedd o gyflogaeth gyda'i dâl pensiynadwy yn codi £500 y flwyddyn ac ar y dybiaeth bod chwyddiant CPI yn 3% bob blwyddyn. Yn achos Geraint, ac yn seiliedig ar ei ddyddiad geni, ei oed pensiwn arferol h.y. pan fyddai budd-daliadau yn daladwy yn llawn yw 68.

| Blwyddyn | Tâl Pensiynadwy | Pensiwn 1/49 | Pensiwn wedi'i ailbrisi 3% y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| 1 | £10,000 | £204.08 | £229.70 |
| 2 | £10,500 | £214.29 | £234.16 |
| 3 | £11,000 | £224.49 | £238.16 |
| 4 | £11,500 | £234.69 | £241.73 |
| 5 | £12,000 | £244.90 | £244.90 |
| Cyfanswm | | | £1,188.65 y flwyddyn |

**Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus Drafft**

Ar 13 Medi 2013, cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi (HMT) y Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSP) drafft. Yn gryno, mae'r Bil yn bwriadu:

- Disodli deddfwriaeth galluogi gyfredol ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus
- Ailwampio trefniadau llywodraethu
- Cyflwyno rheolaeth eang i'r Trysorlys
- Diffinio'r cyswllt rhwng Oed Pensiwn Gwladol ac Oed Ymddeol Arferol
- Ymestyn arolygiaeth y Rheoleiddiwr Pensiynau i gynnwys cynlluniau gwasanaethau cyhoeddus
- Gosod amddiffyniadau i aelodau cyfredol y cynlluniau.

Mae'r Bil yn cynnwys cyfeiriad at nifer o ddiffiniadau newydd yn cynnwys:

- Cynllun Adran 1 – cynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus newydd e.e. CPLIL 2014
- Awdurdod Cyfrifol – y person sy'n gwneud y rheoliadau e.e. Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) i'r CPLIL
- Rheolwr y Cynllun – y person sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun e.e. yr awdurdodau gweinyddu ar gyfer CPLIL
- Awdurdod Perthnasol – Rheolwr y Cynllun CPLIL
- Bwrdd y Cynllun – yn gyfrifol am gynorthwyo Rheolwr y Cynllun mewn perthynas â chydymffurfiaeth.

Mae'r Bil hefyd yn rhoi llawer mwy o reolaeth i HMT dros gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys:

- Gofynion i HMT gymeradwyo newidiadau i reoliadau
- HMT i bennu mathau'r cynlluniau i'w caniatáu yn y rheoliadau
- HMT i bennu ailbrisiad yn seiliedig ar newidiadau i brisiau neu enillion
- HMT i bennu amseriad, data a dull prisiadau'r cynlluniau
- HMT i gyfarwyddo setlo cap cost y cyflogwr
- HMT i osod y paramedrau a'r gost targed i'r cap
- HMT i osod trefn drwy gytuno, neu beidio â chytuno ar gyflawni'r gost targed
- HMT i allu gorfodi cyhoeddi neu ddarparu gwybodaeth am y cynllun iddo ef

Mae nifer o amddiffyniadau wedi'u gosod yn y Bil, yn cynnwys:

- Cyswllt â Chyflog Terfynol – yn gosod amodau ar gyfer cadw cyswllt ar gyfer gwasanaeth dan yr hen gynllun
- Rhaid i'r gwasanaeth rhwng y cynlluniau hen a newydd fod yn ddi-dor a chyda chyflogwr y cynllun
- Gall y cyswllt gael ei warchod drwy drosglwyddo rhwng hen gynlluniau os yw'r aelod yn y cynllun newydd a bod y gwasanaeth yn ddi-dor
- Dylid cyfrif bylchau o lai na 5 mlynedd fel di-dor oni bai bod unrhyw un bwlch yn fwy na 5 mlynedd.

Wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd, a chyn symud draw i Dy'r Arglwyddi, gwahoddwyd y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) i roi tystiolaeth ac fe aeth y Cyng. Roger Phillips, cadeirydd Bwrdd Prosiect CPLIL 2014 a Jeff Houston, Pennaeth Pensiynau i'r Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2012. Roedd y sesiwn tystiolaeth ar lafar hon yn rhoi cyfle i'r LGA rannu pryderon yn ymwneud â nifer o gymalau yn y Bil. Yn ogystal, bydd yr LGA, ar y cyd â'r undebau llafur, yn parhau i weithio gyda'r llywodraeth i sicrhau nad yw'r Bil yn effeithio ar y cytundeb sydd wedi'i wneud eisoes ar gyfer y cynllun CPLIL 2014 newydd nac yn codi unrhyw faterion yn ymwneud â thrafodaethau cyfredol ar y drefn lywodraethol. Disgwylir i Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 dderbyn Cydsyniad Brenhinol tua diwedd mis Ebrill 2013.

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Amrywiol) 2012**

Daeth y Rheoliadau Amrywiol i rym ar 1 Hydref 2012 gyda nifer o'r newidiadau angenrheidiol i sicrhau bod y CPLIL yn cyd-fynd â gofynion cofrestru'n awtomatig fel yr amlinellwyd yn y Ddeddf Pensiynau 2008 (fel y'i diwygiwyd). Heb fynd i ormod o fanylion ynghylch y mân faterion technegol, mae'r SI yn cynnwys diwygiadau sydd, ymhlith pethau eraill yn darparu'r isod:

- Yn caniatáu i weithwyr sydd â chontract cyflogaeth sydd ar gyfer llai na thri mis gael yr opsiwn i ymuno â'r CPLIL ac yn newid yn sylfaenol y ffordd y mae gweithwyr cyrff a ganiatieir yn ymuno â'r CPLIL
- Yn darparu na all gweithwyr lenwi ffurflen i dynnu'n ôl o aelodaeth o'r CPLIL cyn i'w cyflogaeth ddechrau
- Yn caniatáu i aelodau sy'n bensiynwyr â budd-dal pensiwn haen 3 wedi'i atal sy'n medru profi eu bod yn dioddef o gyflwr meddygol sy'n golygu na fyddant yn medru gwneud gwaith cyflogedig yn barhaol wneud cais am daliad cynnar o'u budd-daliadau
- Yn ei gwneud hi'n ofynnol i gytundeb mynediad ar wahân fod yn ei le os yw corff a ganiateir wedi'i drosglwyddo yn ymgymryd â swyddogaeth cyflogwr y cynllun mewn mwy nag un contract (ar gyfer contractau sydd wedi'u gwneud o 1 Hydref 2012)
- Yn ymestyn darpariaeth indemniad neu fond i Gyrff a Ganiateir Cymunedol
- Yn darparu'r grym i awdurdodau gweinyddu gael prisiad actiwaraidd terfynol a thystysgrif cyfraddau ac addasiadau diwygiedig os yw awdurdod sy'n cyflogi yn peidio â bod yn gyflogwr y cynllun neu os oes rheswm i gredu y byddant yn peidio â bod yn gyflogwr y cynllun yn y dyfodol.
- Yn caniatáu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a phrif gwnstabliaid fod yn gyflogwyr y cynllun o 22 Tachwedd 2012.
- Os oes gofyn i awdurdod sy'n cyflogi gyfrannu at fwy nag un cronfa CPLIL neu'n cyfuno ag awdurdod arall sy'n cyflogi mewn cronfa wahanol neu'n symud ei brif fan gwaith i ardal ddaearyddol wahanol, gall yr Ysgrifennydd Gwladol, ar neu wedi 1 Hydref 2012, yn sgil cais gan yr awdurdod sy'n cyflogi, benderfynu p'un ai i gyhoeddi cyfarwyddyd i ddisodli un gronfa gan un arall
- Yn caniatáu i gronfeydd CPLIL dalu'r ffi treth lwfans blynyddol yn dilyn cais i wneud hynny gan aelodau, gyda gostyngiad o ganlyniad i hynny i fudd-daliadau'r aelod. Mae'r diwygiad hwn wedi'i ôl-ddyddio i 6 Ebrill 2011.
- Yn gorfodi awdurdodau gweinyddu i gyhoeddi datganiad buddion blynyddol i bob un o'u haelodau gweithredol, gohiriedig a chredyd pensiwn erbyn dim hwyrach na chwe mis wedi diwedd y flwyddyn dreth y mae'r datganiad yn berthnasol iddi.

Roedd nifer o'r diwygiadau ynghylch sut gwnaeth aelodau ymuno â'r cynllun yn gorfodi awdurdodau gweinyddu i newid y ffordd y caniatawyd i aelodau dynnu'n ôl o ymuno â'r cynllun. Fe wnaeth y Bartneriaeth Cymru Gyfan gydweithio ar ddatblygu ffurflen gyffredin ac arferion y cytunwyd arnynt i holl gyflogwyr y cynllun weithredu o'u mewn.

### Datganiadau Buddion Blynyddol (DBB) a Rhyddhad Treth Pensiwn ar gyfer enillwyr uchel

O ganlyniad i'r gostyngiad yn y lwfans blynyddol ar gyfer croniad pensiwn a amlinellwyd yn adroddiad y llynedd, mae'r Uned Pensiynau, ar y cyd â'r Phartneriaeth Cymru Gyfan, wedi datblygu system i gynnwys gwerthoedd croniad unigol yn natganiadau Buddion Blynyddol 2011/12. Fe wnaeth y Rheoliadau Amrywiol (gweler y pwynt bwled olaf uchod) hefyd gyflwyno diwygiad sy'n golygu, o 2012/13, rhaid i ddatganiadau buddion gael eu cyhoeddi ddim hwyrach na chwe mis wedi diwedd y flwyddyn dreth y mae'r datganiad yn berthnasol iddi, felly, gan fod datganiadau CPLIL yn cyfeirio at y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth rhaid i ddatganiadau gael eu cyhoeddi erbyn 30 Medi bob blwyddyn. O gofio hyn, gofynnir i gyflogwyr ddarparu'r adnoddau angenrheidiol fel bod adroddiadau cyfraniadau pensiwn blynyddol yn cael eu cyflwyno erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn.

**Diweddariad ar Gofrestru'n Awtomatig**

Daeth polisi 'cofrestru'n awtomatig' y Llywodraeth i rym ym mis Gorffennaf 2012. Fe wnaeth yr Uned Pensiynau drefnu dwy gyfres o seminarau i esbonio'r broses cofrestru'n awtomatig ym mis Medi 2012 a mis Ionawr 2013. Rhannwyd y ddwy gyfres yn dair sesiwn i gyd-fynd ag anghenion cyflogwyr mawrion, rhai canolig a rhai llai. Roedd y lefel presenoldeb yn gadarnhaol iawn yn nhermau ymrwymiad cyflogwyr i'r cynllun ac mae'r adborth sydd wedi'i dderbyn yn dangos eu bod wedi'u cyflwyno'n dda.

Aeth y cyntaf o gyflogwyr y gronfa, Cyngor Gwynedd, drwy ei ddyddiad cyflwyno ar 1 Mawrth, gyda dau gyflogwr pellach yn dilyn ym mis Mai. Wrth arwain at y dyddiadau cyflwyno hyn, fe wnaeth yr Uned Pensiynau gyflwyno proses newydd o gofrestru aelodau a gafodd ei gweithredu o 1 Hydref 2012. O'r dyddiad hwn nid oes gan gyflogwyr hawl i ddosbarthu ffurflenni tynnu'n ôl i'w haelodau, yn hytrach mae gofyn iddynt gael eu dosbarthu gan y gronfa Bensiwn ei hun. Mewn gwirionedd, golyga hyn na all aelodau cymwys dynnu'n ôl o'r cynllun yn awr cyn iddynt yn gyntaf ddod yn aelod; yn y gorffennol roedd posib i aelodau lofnodi dogfen yn nodi nad oeddent am ddechrau talu cyfraniadau. Yn gyffredinol, mae'r broses newydd hon wedi bod yn gymharol lwyddiannus.

Mae'r Uned hefyd wedi buddsoddi mewn meddalwedd newydd all helpu cyflogwyr a'r gronfa bensiwn fel ei gilydd i weinyddu gofynion cofrestru'n awtomatig. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym yn y broses o gofrestru â'r system 'I-connect' a gobeithiwn y bydd yn weithredol ym mis Mai neu fis Mehefin.

**Cyfathrebu**

Roedd pwyslais cyfathrebu yn canolbwyntio ar gynhyrchu mwy o daflenni a chefnogi cyflogwyr ar faterion megis y CPLIL 2014 newydd a chofrestru'n awtomatig yn 2012/13. Ymhlith y gefnogaeth a ddarparwyd oedd y ddwy gyfres o seminarau y soniwyd amdanynt uchod ar gyfer cofrestru'n awtomatig ynghyd â chynnal rhai ymgynghoriadau ar y safle, cymorthfeydd a seminarau ar ymddeol.

**Partneriaeth Cymru Gyfan**

Fe wnaeth yr uned weinyddol barhau i gyfrannu at yr astudiaeth gydweithredol Cymru Gyfan a wnaed gan Gymdeithas Trysoryddion Cymru, a chyfrannu ati. Gwelir manylion pellach ar yr astudiaeth ar dudalen 9.

**Newidiadau Arfaethedig i Bensiwn y Wladwriaeth**

Mae'r llywodraeth wedi datgan y cyflwynir pensiwn haen sengl newydd, gwerth £144 yr wythnos yn arian heddiw, yn y flwyddyn nesaf a'i weithredu ym mis Ebrill 2016, flwyddyn yn gynharach na'r bwriad gwreiddiol. Effaith hyn fydd diwedd 'contractio allan' flwyddyn yn gynharach na'r bwriad gwreiddiol ac, o ganlyniad, y tebygrwydd y bydd cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a gweithwyr fel ei gilydd yn cynyddu i'r hyn sydd bellach yn gyfradd 'contractio i mewn'. Bydd hyn yn golygu cynnydd sylweddol yng nghostau cyflogwyr a pherygl pellach y bydd aelodau'n ailystyried eto p'un a allant fforddio parhau yn y CPLIL.

**Monitro Perfformiad**

Mae nifer benodol o weithgareddau craidd yr adrannau'n cael eu mesur fel rhan o Fonitro Perfformiad y Cyngor.

Mae nifer yr ymddeoliadau sydd wedi'u prosesu yn ystod 2012/13 yn parhau i dyfu wrth gymharu ar sail blwyddyn ar flwyddyn. Dylid nodi hefyd bod nifer y taliadau a wnaed ar y gyflogres pensiynau yn parhau i gynyddu; ym mis Mawrth 2003 nifer y taliadau a wnaed oedd 5,966 ond erbyn mis Mawrth 2013 roedd hyn wedi tyfu i 8,001; twf o 34%.

| | | | 2011/2012 | | 2012/2013 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYF** | **GWEITHGAREDDAU CRAIDD** | **TARGED** | **NIFER YR ACHOSION** | **CYFARTALEDD DYDDIAU A GYMERWYD** | **NIFER YR ACHOSION** | **CYFARTALEDD DYDDIAU A GYMERWYD** |
| CD9.01 | Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr dyfynbris yn cynnig trosglwyddo i mewn | 40 diwrnod | 111 | 18.5 | 122 | 20.55 |
| CD9.02 | Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr dyfynbris yn rhoi manylion trosglwyddo allan | 40 diwrnod | 34 | 16.1 | 67 | 10.0 |
| CD9.03 | Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y budd-daliadau - amcangyfrif | 10 diwrnod | 1547 | 5.3 | 1255 | 5.9 |
| CD9.04 | Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y budd-daliadau - gwir | 10 diwrnod | 521 | 4.3 | 638 | 3.8 |
| CD9.05 | Cyfartaledd nifer y dyddiau a gymerwyd i gydnabod marwolaeth aelod gweithredol / gohiriedig / pensiynwr | 10 diwrnod | 15 | 7.2 | 9 | 6.8 |
| CD9.06 | Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i roi gwybod am fudd-daliadau dibynyddion | 10 diwrnod | 195 | 7.2 | 192 | 9.3 |
| CD9.07 | Taliadau pensiwn misol a broseswyd ac a dalwyd ar amser | 100% | *Cyfartaledd o tua 7700 y mis | Wedi cyrraedd y targed 100% | *Cyfartaledd o tua 7877 y mis | Wedi cyrraedd y targed 100% |
| CD9.08 | Nifer yr achosion ble roedd angen diwygio taliadau o ganlyniad i gamgymeriad yn yr adran | Dim mwy na 8 achos am y flwyddyn | 5 | Amh. | 3 | Amh. |

***Mae nifer y taliadau pensiwn misol a ddangosir yn cynnwys ychydig dan 1000 o gyn-athrawon a dderbyniodd pensiwn cydadferol***



Gareth Jones
**Rheolwr Pensiynau**

## 2.2 Strategaeth Buddsoddi a'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

Yn dilyn y prisiad actiwaraidd yn ystod 2010/11, mae'r Gronfa wedi bod yn ystyried ei strategaeth buddsoddi ac mae nifer o newidiadau ar y gweill.

Yn ystod 2011/12 penderfynodd y Pwyllgor Pensiynau wneud dyraniad i is-adeiladwaith trwy drefniant cronfa o gronfeydd er mwyn arallgyfeirio o ecwiti a darparu llifoedd incwm cyson sydd gan amlaf gwrth-chwyddiant. 2.5% o asedau'r gronfa yw'r ymrwymiad cychwynnol, i gynyddu i 5% dros dymor hirach. Gwneir y buddsoddiad hwn gyda Partners Group dros gyfnod amser a dechreuodd yn 2012/13.

Tuag at ddiwedd 2011/12 penodwyd Veritas Asset Management fel rheolwr buddsoddi i'r Gronfa Bensiwn. Terfynwyd mandad Capital International ar 5ed Gorffennaf 2012 a throsglwyddwyd yr asedau i Veritas. Ymgymerodd Veritas a'r gwaith o drosglwyddo'r asedau a dderbyniwyd gan Capital i'r portffolio newydd. Mae'r mandad yn parhau fel ecwiti gweithredol.

Yn dilyn y prisiad actiwaraidd a gwblhawyd yn 2010/11 a'r newidiadau dilynol, adolygwyd y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi yn ystod 2012/13. Roedd y broses yn cynnwys ymgynghoriad gyda holl gyflogwyr y Gronfa a budd-ddalwyr eraill. Mabwysiadwyd y Datganiad diwygiedig gan y Pwyllgor Pensiynau ar 28 Medi 2012 a chynhwysir copi yn yr Atodiadau ar Dudalen 79.

## 2.3 Safon Cyfrifeg Ryngwladol 19 (SCR19) a Safon Adrodd Ariannol 17 (SAA17)

**Diffiniad o SCR19**

Mae SCR19 yn diffinio sut dylid dangos asedau ac ymrwymiadau cynllun pensiwn i bwrpas adrodd mewn cyfrifon ariannol, gan nodi fod rhaid datgelu unrhyw ddiffyg neu ormodedd yn llawn ar y fantolen ariannol, gydag unrhyw symudiad yn cael ei ddangos yn y cyfrif elw a cholled blynyddol. Mae SCR19 yn berthnasol i gyrff sydd yn gorfod adrodd o dan SAAR. Mae hyn wedi effeithio'r cyrff ar yr atodlen yn y Gronfa Bensiwn sydd yn rhan o gyfrifon y Llywodraeth, sef Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy a'u hysgolion sylfaenol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae'r cyflogwyr eraill yn parhau i adrodd yn unol â gofynion SAA17.

**Cyfrifo am SCR19 a SAA17**

Mae mabwysiadu'r SCR19 neu SAA17 yn golygu bod rhaid i gyflogwyr adnabod yr ased neu ddiffyg net ynghyd â'r reserf pensiynau yn y fantolen, a chofnodi yn y cyfrif refeniw cyfunol y symudiadau yn yr ased neu ddiffyg sy'n perthyn i gynllun buddion diffiniedig.

**Adroddiadau SCR19 a SAA17 ar 31/03/2013**

Yn Ionawr 2013, aethpwyd ati i gasglu'r data angenrheidiol er mwyn i'r Actiwari gael cyfrifo'r wybodaeth SCR19 neu SAA17 unigol ar gyfer cyflogwyr y Gronfa. Gyrrwyd mwyafrif yr adroddiadau i'r cyflogwyr rhwng yr 8fed a'r 13eg o Fai 2013.

**Canlyniadau SCR19 a SAA17 fel ar 31/03/2013**

Y prif newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer cyflogwr cyffredin yn y Gronfa yw bod:

- cynnydd yn y diffyg oherwydd bod gwir ddychweliadau bondiau yn disgyn;
- cafodd hyn ei gosod yn erbyn yn rhannol trwy ddychweliadau cryf ar asedau;
- cost y pensiynau a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd wedi codi oherwydd bod gwir ddychweliadau bondiau yn disgyn;
- lleihawyd y dybiaeth dychweliadau a ddisgwylir ar asedau ar gyfer 2013/14 oherwydd y newidiadau i SCR19 sydd yn dod i rym blwyddyn nesaf.

## 2.4 Côd Stiwardiaeth

Cyhoeddwyd Côd Stiwardiaeth ar gyfer y DU gan y *Financial Reporting Council* gyda'r bwriad o wella ansawdd yr ymgysylltiad rhwng cyfranddalwyr sefydliadol a chwmnïau er mwyn cynorthwyo i wella enillion hirdymor i'r cyfranddalwyr a gweithredu cyfrifoldebau llywodraethu'n effeithiol. Mae'r Côd yn sefydlu'r arfer gorau ynghylch ymgysylltiad â'r cwmnïau y buddsoddir ynddynt.

Mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi cyhoeddi datganiad o gydymffurfiaeth gyda'r Côd Stiwardiaeth. Fel rhan o'r gydymffurfiaeth hon mae'r Gronfa Bensiwn wedi ymaelodi â Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) er mwyn gallu cael mwy o ddylanwad ar gwmnïau buddsoddir ynddynt.

Hefyd, mae'n briodol i gynnwys ystyriaeth o faterion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol wrth graffu ac adrodd am ymgysylltiad y rheolwyr ecwiti gyda'r cwmnïau maent yn buddsoddi ynddynt; bydd y Pwyllgor Pensiynau yn parhau gyda'r drefn o adrodd ar sail eithriad ar ymgysylltiad rheolwyr buddsoddi.


## 2.5 Cydweithio Pensiynau Cymru


Yn ystod y flwyddyn mae swyddogion o'r wyth cronfa bensiwn yng Nghymru wedi bod yn gweithio ar brosiect sydd yn ystyried y cyfleoedd ar gyfer gwella trwy gydweithio. Ym mis Mawrth 2013 cyhoeddwyd adroddiad interim gyda'r teitl 'Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru - Gweithio Gyda'n Gilydd' roedd yn argymell gwaith pellach er mwyn sefydlu os byddai trefniant buddsoddiad cyfunol yn cynhyrchu dychweliadau buddsoddi gwell a chostau is ar gyfer cronfeydd Cymru. Ymgymerwyd ag ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid a derbynnir y canlyniadau i oleuo'r penderfyniad ar y ffordd ymlaen.



Dafydd L. Edwards
**Pennaeth Cyllid**

## 3. Tueddiadau Diweddar



# 4. Adroddiad Rheoli

## 4.1 Gweinyddiaeth y Cynllun

### Cyffredinol

Ceir y sylfaen ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 â'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddiaeth) 2008 (fel ei newidiwyd).

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer ei weithwyr ei hun ynghyd â gweithwyr 22 o gyrff eraill sydd ar yr atodlen (gan gynnwys 2 Awdurdod Lleol) a 18 o gyrff a ganiateir. Nid yw athrawon yn dod o dan y Gronfa hon ac mae darpariaethau gwahanol ar eu cyfer hwy. Telir am y Gronfa trwy gyfraniadau gan weithwyr a chyflogwyr, ynghyd ag incwm buddsoddi. Hyd at Fawrth 2008 roedd gweithwyr yn cyfrannu at y Gronfa yn ôl y raddfa statudol o 6%, gyda gweithwyr llaw oedd yn talu 5% cyn Mawrth 31ain, 1998 yn cyfrannu ar y gyfradd warchodedig yma. Asesir cyfraniad y cyflogwr o bryd i'w gilydd gan Actiwari'r Gronfa.

O Ebrill 2008 pennir cyfradd cyfrannu gweithwyr mewn bandiau yn ôl eu cyflog cyfwerth llawn amser wedi ei gynyddu gyda'r lefel chwyddiant blynyddol. Dangosir y bandiau o 1 Ebrill 2012 yn y tabl isod:

| Band | Amrediad Cyflog | Graddfa Cyfraniad |
|---|---|---|
| 1 | £0 - £13,500 | 5.5% |
| 2 | £13,501 - £15,800 | 5.8% |
| 3 | £15,801 - £20,400 | 5.9% |
| 4 | £20,401 - £34,000 | 6.5% |
| 5 | £34,001 - £45,500 | 6.8% |
| 6 | £45,501 - £85,300 | 7.2% |
| 7 | More than £85,300 | 7.5% |

Cymhathir gweithwyr llaw a warchodwyd ar raddfa 5% fel y roedd yn cyfrannu ar y graddfeydd yn y tabl erbyn Ebrill 2011.

### Buddion

Mae'r CPLIL yn darparu buddion sylweddol i aelodau. Isod fe restrir crynodeb byr o rai o'r prif fuddion sydd ar gael i aelodau.

Fel rheol bydd buddion yn seiliedig ar ddau ffactor sef: hyd y gwasanaeth y talwyd cyfraniadau i'r cynllun, a geir ei adnabod fel "Cyfanswm Aelodaeth", a'r cyflog yr oedd y cyfraniadau yn seiliedig arno (fel arfer y 12 mis olaf o wasanaeth), a geir ei adnabod fel "Cyflog Olaf".

- **Pensiwn Blynyddol**
  Mae'r cyfrifiad ar gyfer pensiwn safonol blynyddol yn seiliedig ar y fformiwla isod:

***Cyflog Olaf x 1/80 x Cyfanswm Aelodaeth i 31 Mawrth 2008, plws***
***Cyflog Olaf x 1/60 x Cyfanswm Aelodaeth o 1 Ebrill 2008***

Unwaith bydd y pensiwn yn cael ei dalu bydd yn cynyddu bob mis Ebrill yn unol â'r Mynegai Prisiau Prynwyr.

- **Lwmp Swm**
  Hefyd mae hawl derbyn lwmp swm yn ddi-dreth ar aelodaeth i 31 Mawrth 2008, wedi ei gyfrifo ar sail y fformiwla isod:

  ***Cyflog Olaf x 3/80 x Cyfanswm Aelodaeth i 31 Mawrth 2008 yn unig***

- **Newid Buddion**
  Mae dewis cyfnewid rhan o'r pensiwn er mwyn cynyddu'r lwmp swm dros ben y fformiwla a ddangosir uchod, ond o fewn cyfyngiadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

**Pensiynau Cynghorwyr**
Mae'r cynllun hefyd yn caniatáu mynediad i Aelodau. Seilir y pecyn buddion ar fformiwla'r cynllun am bensiwn a lwmp swm cyn Ebrill 2008 fel y gwelir uchod, ond defnyddir Cyflog Cyfartalog Gyrfa yn lle Tal Terfynol.

**Ymddeoliad Salwch**
Os oes gan aelod o leiaf 3 mis o gyfanswm aelodaeth, a bod meddyg cofrestredig annibynnol a gymeradwywyd gan yr awdurdod gweinyddu yn tystio ei fod yn barhaol anabl i wneud ei swydd, neu unrhyw swydd debyg gyda'r cyflogwr, bydd yn derbyn pensiwn a lwmp swm yn syth.

Mae'r buddion yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd a phensiwn arferol, ond os yw'r cyfanswm aelodaeth yn 5 mlynedd neu fwy, mae'n cael ei gynyddu drwy roi blynyddoedd ychwanegol er mwyn digolledu am ymddeol cyn amser.

**Ymddeoliad Cynnar**
Os yw cyfanswm aelodaeth yn 3 mis neu fwy, gall aelod ddewis ymddeol a derbyn ei fudd CPLIL unrhyw adeg ar ôl 60 oed.

Rhwng ac yn cynnwys 55 i 59 oed, gall aelod ddewis ymddeol a derbyn ei fudd CPLIL, ond dim ond gyda chaniatâd ei gyflogwr.

Os ydi aelod yn ymddeol cyn 65 oed a heb gyrraedd ei oed ymddeol arferol, gall ei bensiwn a'i lwmp swm, gael eu gostwng. Os yn ymddeol ar ôl 65 byddai buddion yn cael eu cynyddu.

**Buddion Gohiriedig**
Mae aelodau sy'n gadael gyda 3 mis neu fwy o gyfanswm aelodaeth yn cael buddion gohiriedig, fel a'i cyfrifwyd ym mharagraff 'Buddion', ond i'r buddion gael eu gohirio a'u cynyddu gyda'r Mynegai Prisiau Adwerthol, hyd nes y Dyddiad Ymddeol Arferol. Neu mae'n bosib trosglwyddo swm sy'n cyfateb i'r buddion i gynllun pensiwn arall.

Bydd aelodau sy'n gadael gyda chyfanswm aelodaeth o lai na 3 mis a dim trosglwyddiad o fuddion i mewn i'r cynllun, yn cael eu trin fel petaent erioed wedi bod yn y cynllun a bydd eu cyfraniadau yn cael eu had-dalu yn uniongyrchol drwy eu cyflogau.

**Marw Mewn Gwasanaeth**
Mae lwmp swm o dair gwaith Cyflog Terfynol yn daladwy, waeth pa mor hir oedd yr aelodaeth. Ar gyfer gweithwyr rhan-amser, tydi'r Cyflog Terfynol ddim yn cael ei gynyddu i'w raddfa gyfatebol llawn amser.

Yn ychwanegol, bydd pensiwn yn cael ei dalu i'r priod am oes, ac i unrhyw blant sy'n ddibynnol tra byddent mewn addysg llawn amser, yn seiliedig ar Aelodaeth a Chyflog Terfynol y gweithiwr.

**Marw ar ôl Ymddeol**

Mae pensiynau priod a phartneriaid yn daladwy am oes, tra bod pensiynau plant cymwys sy'n ddibynnol, yn daladwy hyd at uchafswm o 23 oed, gyda'r pensiynau yn seiliedig ar aelodaeth y cyn-weithiwr yn y cynllun. Os ydi marwolaeth yn digwydd cyn i'r pensiwn gael ei dalu am 10 mlynedd (5 mlynedd i rai wnaeth ymddeol cyn 1 Ebrill 2008), caiff y balans ei dalu fel lwmp swm.

## 4.2 Sefyllfa Actiwaraidd

**Cyffredinol**

Ar 31ain Mawrth 2010 cafodd y Gronfa ei phrisio ddiwethaf (ar Fawrth 31ain, 2007 cyn hynny), ac mae angen i'r Gronfa fod yn ddigonol i gwrdd â'i hymrwymiadau.

**Dull a Rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd**

Y dulliau actiwaraidd a ddefnyddiwyd yn y Prisiant oedd y "Dull Uned Amcanol" ar gyfer y gronfa gyfan ac ar gyfer cyflogwyr sy'n parhau i dderbyn aelodau newydd i'r gronfa â'r "Dull Cyrraedd Oed" ar gyfer cyflogwyr sydd ddim yn derbyn aelodau newydd i'r gronfa. Y prif ragdybiaethau ariannol a fabwysiadwyd adeg prisio oedd:

| | **% y flwyddyn** |
|---|---|
| Elw ar Fuddsoddiadau | |
| Cyfranddaliadau | 6.25% |
| Bondiau | 4.75% |
| 75% Cyfranddaliadau/25% Bondiau | 5.9% |
| Codiadau Cyflog (heb gynnwys incrementau)* | 5.3% |
| Chwyddiant / Codiadau Pensiwn | 3.3% |

* 1% ar gyfer 2010/11 a 2011/12, dychwelyd i 5.3% wedyn.

**Y Canlyniadau**

Prif amcan cyllido'r Gronfa ydi gofalu bod asedau'r Gronfa yn ddigonol ar gyfer talu buddion aelodau fel y maent yn cronni. Pan fydd asedau'r Gronfa yn hafal i'w hymrwymiadau, yna dywedir bod lefel gyllido'r Gronfa yn 100%. Yn yr adroddiad Prisiant ar gyfer 31 Mawrth 2010 a gafodd ei gyhoeddi ar 31 Mawrth 2011 gan Hymans Robertson, dywedwyd, "Roedd y lefel Cyllido yn 84% (o'i gymharu â 84% ar 31 Mawrth 2007) ac roedd diffyg cyllido o £183m. Gwerth marchnad yr asedau ar y dyddiad prisio oedd £931m." Aseswyd bod yr ymrwymiadau yn £1,114m.

Mae'r tabl canlynol yn gosod allan canlyniadau prisio'r Gronfa gyfan:

| | **£m** |
|---|---|
| **Ymrwymiadau Net:-** | |
| Aelodau Gweithredol | 608 |
| Pensiynwyr Gohiriedig | 123 |
| Pensiynwyr | 383 |
| **Cyfanswm Net Ymrwymiadau** | **1,114** |
| **Cyfanswm Gwerth yr Asedau** | **931** |
| **Gweddill (Diffyg)** | **(183)** |
| **Lefel Gyllido** | **84%** |

**Cyfradd Gyffredin y Cyfraniadau (CGC)**

Y CGC taladwy ydi cost buddion y dyfodol ar ôl eu cronni, wedi'u cynyddu â swm, i ddod â'r lefel gyllido yn ôl i 100% dros gyfnod o hyd at 20 mlynedd fel y gosodwyd allan yn y Datganiad Strategaeth Cyllido. Yn seiliedig ar lefel gyllido'r Gronfa ar 31 Mawrth 2010, y gyfradd a osodwyd ar gyfer cyfraniad gwasanaeth i'r dyfodol oedd 17.1% gyda 5.0% arall ei angen i gyllido diffyg gwasanaeth y gorffennol. Y cyfraniad gan bob cyflogwr ydi'r CGC ynghyd ag addasiad unigol os yw hynny'n briodol i adlewyrchu amgylchiadau unigol pob cyflogwr.

## 4.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw

**Llywodraethu**

Gweinyddir y Gronfa o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan statud, sy'n datgan mai Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod gweinyddol.

**Polisïau Llywodraethu**

Mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Lywodraethol yn nodi trefniadau llywodraethol y Gronfa Bensiwn.

Gweler copïau yn Rhan 8, tudalennau 72 - 78.

**Cyngor Arbenigol**

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gorfodi'r Cyngor i sicrhau cyngor arbenigol ar fuddsoddi. Darperir y cyngor hwn gan ymgynghorydd annibynnol o gwmni Hymans Robertson (ymgynghorwyr y Gronfa) sy'n ymuno â'r Pwyllgor Pensiynau er mwyn monitro'r Rheolwyr Buddsoddi. Bydd ymgynghorydd o Hymans yn bresennol ym mhob cyfarfod chwarterol gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

**Rheolwyr Buddsoddi**

Dros gyfnod yr adroddiad hwn roedd 7 Rheolwr Buddsoddi fel a ganlyn: BlackRock, Capital International (terfynwyd cytundeb Capital yng Ngorffennaf 2012), Fidelity International (Fidelity), Legal and General (daeth eu cytundeb i ben ym Mai 2010), Insight Investment (Insight), UBS Global Asset Management (UBS), Veritas (dechreuodd ei mandad yng Ngorffennaf 2012) a Partners Group. Rydym hefyd wedi gwneud buddsoddiad uniongyrchol gyda Lothbury Investment Management yng Nghronfa Eiddo Lothbury a Chronfa Eiddo Threadneedle.

Yn ystod y flwyddyn newidiwyd dyraniad targed asedau'r Gronfa er mwyn caniatáu buddsoddiad mewn is-adeiladwaith. Roedd hyn yn golygu lleihau'r targed ar gyfer ecwiti goddefol efo BlackRock a chyflwyno targed ar gyfer is-adeiladwaith efo Partners. Buddsoddir mewn is-adeiladwaith dros gyfnod o amser ac felly nid yw'r gwir ddyraniad wedi cyrraedd y targed yn ystod y flwyddyn.

Mae meincnod amcan newydd y Gronfa fel a ganlyn:

| **Rheolwr** | **%** |
|---|---|
| BlackRock | 29.5 |
| Capital / Veritas | 19.0 |
| Fidelity | 19.0 |
| Insight | 15.0 |
| UBS / Lothbury / Threadneedle / BlackRock (Eiddo yn unig) | 10.0 |
| Partners – Ecwiti Preifat | 5.0 |
| Partners – Is-adeiladwaith | 2.5 |
| **Cyfanswm** | **100.0** |

**Ceidwaid**

Mae gan rai o'n rheolwyr buddsoddi geidwaid cysylltiedig sy'n dal asedion eu rhan nhw o'r portffolio. Mae'r rheolwyr a'u ceidwaid cysylltiedig fel a ganlyn:

- Ceidwad BlackRock yw Banc JP Morgan Chase;
- Ceidwad Fidelity hefyd yw Banc JP Morgan Chase;
- Ceidwad Insight yw Cwmni'r Northern Trust;

Gan nad oes gan y ddau reolwr buddsoddi arall geidwaid cysylltiedig, mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi penodi:

- Cwmni Northern Trust fel ceidwad ar gyfer yr asedau a reolir gan Capital a UBS.

Yn ystod y flwyddyn apwyntiwyd Veritas fel rheolwr buddsoddi a Cwmni'r Northern Trust fel eu ceidwad.

Mae Lothbury a Threadneedle, y ddau gwmni yr ydym wedi gwneud buddsoddiad uniongyrchol a hwy, yn defnyddio Cwmni'r Northern Trust fel eu ceidwad hwy.

Nid yw Partners Group yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau cadw'r Gronfa.

**Trefniadau Gweinyddol**

Mae trefniadau gweinyddol yn sicrhau bod y trosglwyddiadau hynny sydd yn digwydd, rhwng y Rheolwyr Buddsoddi a'r Cyngor, yn gorfod cael eu hawdurdodi gan lofnodion dau o'r swyddogion a enwir ar restr llofnodion awdurdodedig y Gronfa Bensiwn.

**Dyraniad Asedau**

Prif benderfynydd perfformiad hirdymor y Gronfa ydi dyraniad strategol yr asedau. Yn dilyn y dyraniad i is-adeiladwaith dyraniad strategol asedau'r Gronfa ydi 72.5% cyfranddaliadau, 15% bondiau'r DU, 10% eiddo a 2.5% is-adeiladwaith. Cafodd y dyraniad asedau yma ei sefydlu yn dilyn adolygiad strategol yn 2006.

Mae'r tabl canlynol yn dangos dyraniad meincnod y Gronfa ar gyfer 2012/13 yn dilyn y penderfyniad i fuddsoddi mewn is-adeiladwaith.

| | BlackRock % | Capital / Veritas % | Fidelity % | Insight % | Threadneedle/ UBS/Lothbury/ BlackRock Property % | Partners Group % | Cyfanswm % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran o'r Gronfa** | **29.5** | **19.0** | **19.0** | **15.0** | **10.0** | **7.5** | **100.0** |
| **Cyfranddaliadau'r DU** | **56.0** | **8.3** | **8.3** | **-** | **-** | **-** | **19.5** |
| **Cyfranddaliadau Tramor** | **44.0** | **91.7** | **91.7** | **-** | **-** | **-** | **48.0** |
| Gogledd America | 7.4 | 51.8 | 51.8 | - | - | - | 21.4 |
| Ewrop ac eithrio'r DU | 14.1 | 14.5 | 14.5 | - | - | - | 10.1 |
| Siapan | 6.0 | 7.8 | 7.8 | - | - | - | 4.8 |
| Basn y Pasiffig | 9.0 | 4.9 | 4.9 | - | - | - | 4.5 |
| Marchnadoedd sy'n Datblygu | 7.5 | 12.7 | 12.7 | - | - | - | 7.2 |
| **Ecwiti Preifat** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **66.7** | **5.0** |
| **Cyfanswm Cyfranddaliadau** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **-** | **-** | **66.7** | **72.5** |
| Bondiau'r DU | - | - | - | 100.0 | - | - | 15.0 |
| **Cyfanswm Bondiau** | **-** | **-** | **-** | **100.0** | **-** | **-** | **15.0** |
| **Eiddo** | **-** | **-** | **-** | **-** | **100.0** | **-** | **10.0** |
| **Is-adeiladwaith** | | | | | | **33.3** | **2.5** |
| **Cyfanswm** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** |

## 4.4 Pwerau Buddsoddi

**Pwerau Buddsoddi**

Mae'r prif bwerau i fuddsoddi yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 fel ei newidiwyd. Mae'r rhain yn caniatáu amrywiaeth o fuddsoddi arian y Gronfa nad oes mo'i angen ar unwaith i dalu pensiynau a buddiannau eraill.

**Cyfyngiadau Buddsoddi**

Nodir cyfyngiadau cyfredol Gwynedd yng ngholofn (A), isod. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau yn caniatáu awdurdodau gweinyddol i gynyddu'r cyfyngiadau i'r rhai a nodir yng ngholofn (B), isod:

| | **Cyfyngiadau Cyfredol y Gronfa (A)** | **Rheoliadau'n Cynyddu'r Cyfyngiadau i (B)** |
|---|---|---|
| 1. Mewn unrhyw gontract is-danysgrifio unigol. | 1% | 5% |
| 2. Holl gyfraniadau i unrhyw bartneriaeth unigol. | 5% | 5% |
| 3. Holl gyfraniadau i bartneriaethau. | 15% | 15% |
| 4. Mae cyfanswm yr holl fenthyciadau ac unrhyw adneuon gydag awdurdod lleol, neu unrhyw gorff gyda'r hawl i godi praesept neu gais ar awdurdod lleol, neu gorff ble mae awdurdod lleol yn gorfod cyfrannu tuag at eu costau (o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnad 2000 [4]) parthed derbyn adneuon o ganlyniad i orchymyn gwnaed o dan adran 38(1) o'r Ddeddf yna, a phob benthyciad. | 10% | 10% |
| 5. Holl fuddsoddiadau yng ngwarantau cwmnïau nas rhestrir | 10% | 15% |
| 6. Unrhyw un daliad (holding). | 10% | 10% |
| 7. Holl adneuon gydag unrhyw un banc, sefydliad neu unigolyn (ac eithrio'r Banc Cynilo Cenedlaethol). | 10% | 10% |
| 8. Holl gontractau is-danysgrifio unigol | 15% | 15% |
| 9. Holl fuddsoddiadau mewn unedau neu gyfranddaliadau eraill o'r buddsoddiad sy'n destun ymddiriedolaeth cynlluniau unedau ymddiriedolaethol, a reolir gan unrhyw gorff unigol. | 25% | 35% |
| 9a. Holl fuddsoddiadau mewn cwmnïau buddsoddi benagored ble mae'r cynlluniau buddsoddi cyfunol a sefydlir gan y cwmnïau yn cael eu rheoli gan unrhyw gorff unigol. | 25% | 35% |
| 9b. Holl fuddsoddiadau mewn unedau neu gyfranddaliadau eraill o'r buddsoddiad sy'n destun ymddiriedolaeth cynlluniau unedau ymddiriedolaethol a'r holl fuddsoddiadau mewn cwmnïau buddsoddi benagored ble mae'r cynlluniau buddsoddi cyfunol a sefydlir gan y cwmnïau yn cael eu rheoli gan unrhyw gorff unigol. | 25% | 35% |
| 10. Cyfanswm mewn unrhyw gontract yswiriant unigol. | 35% | 35% |
| 11. Holl warantau a drosglwyddir (neu a gytunir i'w trosglwyddo) gan yr awdurdod o dan drefniant benthyca stoc. | 25% | 35% |

## 4.5 Rheoli Buddsoddiadau

**Cyffredinol**
Prif nod polisi buddsoddi yw uchafu'r enillion ar yr arian dan ofal y Cyngor, yn gyson â lefel dderbyniol o risg, ac i'r enillion yn y tymor hir fod yn fwy na chwyddiant cyflogau. Rhaid cadw mewn cof mai yn y tymor hir iawn y mae ymrwymiadau'r Gronfa (sef Pensiynau), gan ymestyn hyd at ganol y ganrif. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn codi gyda chwyddiant, oherwydd cyswllt pensiynau i'r mynegai chwyddiant a hefyd oherwydd codiadau yng nghyflogau gweithwyr hyd at eu hoedran ymddeol. Mae perthynas rhwng lefelau'r enillion a dderbynnir â'r gyfradd cyfraniadau y disgwylir i gyflogwyr ei dalu. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried bod yr enillion tymor hir o gyfranddaliadau yn mynd i fod yn fwy na'r enillion ar fondiau, felly oherwydd hyn buddsoddir y rhan fwyaf o'r Gronfa mewn cyfranddaliadau.

Yn y prisiad diwethaf, nodwyd petai'r Pwyllgor Pensiynau yn penderfynu buddsoddi'n gyfan gwbl mewn bondiau, byddai'r lefel gyllido yn disgyn i 64% gyda chynnydd cyfatebol yng nghyfradd cyfraniad y dyfodol i'r cyflogwyr yn 10.3% o dâl.

**Cyfarwyddyd Rheolwyr Buddsoddi**
Oherwydd polisi pendant i sicrhau amrywiaeth yn yr asedion ac yn y dull o fuddsoddi, mae gan y Gronfa 6 Rheolwr Buddsoddi yn derbyn gwahanol gyfarwyddiadau:

| Rheolwr Buddsoddi | Cyfarwyddyd |
|---|---|
| BlackRock | Goddefol |
| Capital / Veritas | Gweithredol |
| Fidelity | Gweithredol |
| Insight | Gweithredol |
| UBS | Gweithredol |
| Partners | Gweithredol |

Cyfarwyddyd BlackRock yw bod yn rheolwyr "goddefol". Byddant yn dyrannu asedion yn unol â'u meincnod ac ym mhob marchnad byddant yn olrhain mynegai'r farchnad stoc. O ganlyniad dylai eu perfformiad olrhain eu meincnod unigol. Mae apwyntio rheolwr goddefol yn lleihau'r risg o danberfformiad, ond hefyd yn lleihau'r siawns o orberfformiad cymharol i'r meincnod.

Briff "gweithredol" sydd gan yr holl reolwyr eraill. Mae ganddynt ddisgresiwn i fuddsoddi yn eu syniadau buddsoddi gorau. Tra bod ganddynt hyblygrwydd o ran, pa stociau, rhanbarthau a sectorau i fuddsoddi ynddynt, mae nifer o gyfyngiadau mewn lle i rwystro'r rheolwyr rhag gwyro yn rhy bell oddi wrth eu meincnod a chymryd gormod o risg. Mae apwyntio rheolwr gweithredol yn cynyddu'r siawns o orberfformiad, ond hefyd yn cynyddu'r risg o danberfformiad cymharol i'r meincnod.

Mae gan Capital / Veritas a Fidelity briff cyfranddaliadau "gweithredol", tra bod gan Insight briff bondiau "gweithredol". Briff eiddo "gweithredol" sydd gan UBS a briff ecwiti preifat "gweithredol" sydd wedi ei roi i Partners.

## 4.6 Perfformiad Buddsoddi

### Cyfarfodydd Chwarterol

Caiff perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ei fonitro'n chwarterol. Bob chwarter bydd y Rheolwyr Buddsoddi yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Pensiynau, y swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd ac i ymgynghorydd y Gronfa. Yn chwarterol bydd cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng Rheolwyr Buddsoddi, y Pwyllgor, swyddogion a'r ymgynghorydd i fonitro perfformiad y rheolwyr yn ystod y chwarter.

### Monitro Perfformiad

Tanysgrifia Gwynedd i wasanaeth mesur Cwmni'r WM, sy'n cyfrifo'r gyfradd enillion i Wynedd ac ar gyfer cronfeydd pensiwn eraill, ac yn darparu cymariaethau.

### Targedau

Dangosir meincnodau perfformiad unigol ar gyfer y Rheolwyr Buddsoddi unigol yn y tabl isod:

| Rheolwr | Meincnod | Targed |
|---|---|---|
| BlackRock | FTSE All-Share a'r FTSE All-World Indices | Elw'r Meincnod |
| Capital / Veritas | MSCI All Countries World Index | Meincnod + 2% y flwyddyn (gros o ffioedd) |
| Fidelity | MSCI All Countries World Index | Meincnod +2%-3% y flwyddyn (gros o ffioedd) |
| Insight | Arian (Libor) | Meincnod +2% y flwyddyn |
| UBS | IPD UK Pooled Property Fund Index | Meincnod + 0.5% y flwyddyn |
| Partners | MSCI World | Meincnod + 5% y flwyddyn.* |


**Nid oes gan Partners darged perfformiad swyddogol. Targed ar gyfer pwrpas mynegol yn unig a welir uchod.*
*MSCI=Morgan Stanley Capital International.*


Gan mai buddsoddiadau uniongyrchol yr ydym wedi ei wneud gyda Lothbury a Threadneedle, nid ydym wedi rhoi meincnod iddynt. Fodd bynnag, ar gyfer pwrpas mynegol byddwn yn eu monitro yn erbyn yr "IPD Balanced Property Unit Trust Index".

### Perfformiad y Gronfa

Yn erbyn y meincnod, tanberfformiodd y Gronfa 1.0% yn ystod y flwyddyn ariannol 2012/13. Llwyddodd y Gronfa i gael enillion o +11.7% yn erbyn y meincnod o +12.7%. Hefyd, dros gyfnod o dair blynedd mae'r Gronfa wedi tanberfformio yn erbyn y meincnod gydag enillion o +6.8% o'i gymharu ag enillion y meincnod o +7.0%.

Mae'r graffiau a'r tabl isod yn dangos perfformiad y Rheolwyr dros 1 a 3 blynedd.




*Mae'r ffigyrau yma yn cynnwys elfen o berfformiad Capital hyd nes i'w contract gael ei derfynu yng Ngorffennaf 2012 ac elfen o berfformiad Veritas ers iddynt gychwyn eu mandad yng Ngorffennaf 2012.

Fel arfer cydnabyddir bod perfformiad dros gyfnod hir (3 neu fwy o flynyddoedd, dyweder) yn fynegai mwy dilys na blwyddyn unigol; gall strategaethau a gynllunnir ar gyfer perfformiad da yn y tymor hir ddioddef o golledion tymor byr o bryd i'w gilydd.

| | **Enillion Blwyddyn** | **Meincnod Blwyddyn** | **Enillion 3 Blynedd** | **Meincnod 3 Blynedd** |
|---|---|---|---|---|
| BlackRock | 16.6% | 16.6% | 8.0% | 7.8% |
| BlackRock Property | 3.1% | 1.0% | n/a | n/a |
| Capital/Veritas* | 8.3% | 14.0% | 4.0% | 7.0% |
| Fidelity | 16.7% | 16.3% | 7.9% | 7.7% |
| Insight | 4.8% | 0.6% | 4.2% | 0.7% |
| Lothbury | 3.0% | 1.1% | 4.4% | 5.2% |
| Partners | 9.4% | 16.3% | 14.6% | 7.7% |
| Threadneedle | 1.3% | 1.0% | n/a | n/a |
| UBS | -3.1% | 1.0% | 4.0% | 5.2% |
| **Y GRONFA GYFAN** | **11.7%*** | **12.7%*** | **6.8%*** | **7.0%*** |

*Mae'r ffigyrau yma yn cynnwys elfen o berfformiad Capital hyd nes i'w contract gael ei derfynu yng Ngorffennaf 2012 ac elfen o berfformiad Veritas ers iddynt gychwyn eu mandad yng Ngorffennaf 2012.

**Tabl Cynghrair Awdurdod Lleol.**
Bob blwyddyn mae Cwmni'r WM yn paratoi Tabl Cynghrair sydd yn rhestru Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol yn ôl eu perfformiad buddsoddi yn ystod y flwyddyn ariannol. Allan o'r 85 cronfa bensiwn sy'n tanysgrifio i'r gwasanaeth, roedd perfformiad Gwynedd yn safle 77, sef 90ain canraddol gyda pherfformiad y Gronfa yn +11.7% o'i gymharu â'r cyfartaledd o +13.8%.

Mae'r tabl canlynol yn dangos perfformiad blynyddol y Gronfa yn Nhabl Cynghrair Awdurdod Lleol dros y 9 mlynedd diwethaf.

| Y Flwyddyn i | Meincnod y Gronfa | Targed y Gronfa | Enillion y Gronfa | Enillion Cyfartaledd | Canraddol |
|---|---|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2013 | 12.7% | 14.2% | 11.7% | 13.8% | 90ain |
| 31 Mawrth 2012 | 0.70% | 0.99% | 0.50% | 3.0% | 92fed |
| 31 Mawrth 2011 | 7.80% | 9.26% | 8.50% | 8.10% | 40fed |
| 31 Mawrth 2010 | 40.80% | 41.59% | 39.70% | 35.60% | 20fed |
| 31 Mawrth 2009 | -20.60% | -20.25% | -20.60% | -20.30% | 57 fed |
| 31 Mawrth 2008 | -3.70% | -2.80% | -5.70% | -3.10% | 85fed |
| 31 Mawrth 2007 | 7.70% | 8.56% | 6.70% | 7.00% | 56fed |
| 31 Mawrth 2006 | 25.70% | 26.89% | 24.4% | 25.0% | 54fed |
| 31 Mawrth 2005 | 12.30% | 13.15% | 11.5% | 11.3% | 43fed |

## 4.7 Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

**Cyffredinol**
Mae'n rhaid i awdurdodau gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, baratoi a chyhoeddi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DoEB).

**Adolygu'r DoEB**
Ymgymerwyd adolygiad llawn o'r DoEB yn ystod 2012/13. Yn dilyn ymgynghoriad gyda chyflogwyr a chynrychiolwyr undebau gwnaethpwyd y newidiadau canlynol:

- Cynnwys is-adeiladwaith fel categori ased ar gyfer buddsoddiadau gan y gronfa.
- Newid cyfyngiadau buddsoddi mewn partneriaethau cyfyngedig a'r meincnodau er mwyn cynnwys buddsoddiadau is-adeiladwaith.
- Cynnwys ymrwymiad y Gronfa at y Cod Stiwardiaeth ac aelodaeth o'r Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) er mwyn gwella ystyriaeth o faterion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol mewn cwmnïau y buddsoddir ynddynt.

**Copïau o'r DoEB**
Mae copïau o'r DoEB wedi cael eu gyrru allan i holl gyflogwyr y Gronfa, y rheolwyr buddsoddi, yr actiwari, yr ymgynghorydd a chynrychiolwyr yr undebau.

Gweler copi yn Rhan 8, tudalennau 79 – 95 ac ar safle we'r Gronfa Bensiwn.

## 4.8 Datganiad Strategaeth Cyllido

**Cyffredinol**
Mae'n rhaid i awdurdodau gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) baratoi a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC).

Mae buddion CPLlL wedi eu gwarantu gan statud ac felly mae'r addewid o bensiwn yn sicr. Mae'r DSC yn cyfeirio at y ffaith bod eisiau rheoli'r angen i gyllido'r buddion yma tros y tymor hir, a hefyd yr un pryd hwyluso gwaith archwilio ac atebolrwydd trwy wella tryloywder a'r broses o ddatguddio. Hefyd, mae'n rhoi fframwaith statudol i awdurdodau gweinyddol CPLlL ar gyfer rheoli diffygion pensiwn tymor hir y Gronfa wrth symud ymlaen.

**Adolygu'r DSC**
Mabwysiadwyd y DSC cyfredol ar 22 Mawrth 2011 gan y Pwyllgor Pensiynau yn dilyn y broses Prisiad Actiwaraidd 31 Mawrth 2010. Adolygir y DSC yn ystod 2013/14 fel rhan o broses Prisiad Actiwaraidd 31 Mawrth 2013. Bydd y broses adolygu yn cynnwys ymgynghoriad gyda holl gyflogwyr y Gronfa ac Actiwari'r Gronfa.

**Copïau o'r DSC**
Mae copïau o'r DSC wedi cael eu hanfon allan i holl gyflogwyr y Gronfa ac actiwari'r Gronfa, ymgynghorwyr a chynrychiolwyr undebau ar 31 Mawrth 2011.

Gweler copi yn Rhan 8, tudalennau 98 – 115 ac ar safle we'r Gronfa Bensiwn.

## 4.9 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth

Yn unol â'r trefniadau hyfforddi presennol, mae'n ofynnol i holl aelodau'r Pwyllgor Pensiynau fynychu cwrs tri diwrnod am Hanfodion Hyfforddiant Ymddiriedolwyr, ac wedyn byddant yn derbyn tystysgrif hyfforddiant '*LGPS Fundamentals*'. O bryd i'w gilydd, anfonir aelodau ar gyrsiau gloywi a byddant yn mynychu cynadleddau priodol yn seiliedig ar system rota. Yn ogystal, mae llawer o'r adroddiadau i'r Panel Buddsoddi yn cyflwyno gwybodaeth newydd i swyddogion ac aelodau etholedig, gan gyfrannu tuag at eu gwybodaeth am faterion buddsoddi.

Yn ystod 2011/12 cyhoeddwyd Côd Ymarfer gan CIPFA ynglyn â Sgiliau a Gwybodaeth am Bensiynau'r Sector Cyhoeddus. Mae lansiad y Côd yn amserol gan fod yr Arglwydd Hutton wedi argymell "y dylai pob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus (a chronfa CPLlL unigol), fod â Bwrdd Pensiwn sy'n gymwys, yn gyfansoddiadol briodol ac wedi'i hyfforddi'n briodol".

Ym mis Tachwedd 2011 ystyriwyd argymhellion y Côd gan Bwyllgor Pensiynau Gwynedd a mabwysiadwyd y datganiad canlynol:

(i) Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn mabwysiadu argymhellion allweddol y Côd Ymarfer Sgiliau a Gwybodaeth am Gyllid Pensiynau'r Sector Cyhoeddus.
(ii) Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adnabod na ellir cael gweinyddiaeth gyllidol effeithiol ac na ellir gwneud penderfyniadau effeithiol oni bai bod gan yr unigolion cysylltiedig y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.
(iii) Felly, bydd y sefydliad hwn yn sicrhau bod ganddo amcanion, polisïau ac ymarferion, strategaethau a threfniadau adrodd yn ôl ffurfiol a chynhwysfawr er mwyn derbyn a chynnal

sgiliau a gwybodaeth berthnasol yn effeithiol am Gyllid Pensiynau'r Sector Cyhoeddus ar gyfer y rhai hynny o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau.

(iv) Bydd y polisïau a'r ymarferion hyn yn cael eu harwain drwy gyfeirio at fframwaith cynhwysfawr o sgiliau a gwybodaeth megis y rhai a sefydlwyd gan Fframweithiau Sgiliau a Gwybodaeth am Gyllid Pensiynau CIPFA.

(v) Bydd y sefydliad hwn yn adrodd yn flynyddol ynghylch y modd y mae'r polisïau hyn wedi'u gweithredu drwy gydol y flwyddyn ariannol.

(vi) Mae'r sefydliad hwn wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am weithredu gofynion Côd Ymarfer CIPFA i'r Pennaeth Cyllid a bydd ef yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r sefydliad ac yn unol â Safonau Ymarfer Proffesiynol CIPFA.

Mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi mabwysiadu'r datganiad polisi sgiliau a gwybodaeth (fel y cyfeirir ato ym mhwynt (iii) uchod) yn ffurfiol fel a ganlyn:-

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff a'r aelodau sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau ar ran y cynllun pensiwn yr holl wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt.

Felly, bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ceisio defnyddio unigolion gyda'r gallu a'r profiad a bydd y gronfa yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau'r cyrff pensiynau sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn eu galluogi hwy i dderbyn a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.

Cytunodd y Pwyllgor Pensiynau y dylid cylchredeg holiadur hunanasesu i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau er mwyn sefydlu'r gofynion hyfforddi cyn symud ymlaen i ddatblygu rhaglen hyfforddi briodol. Defnyddir canlyniadau'r holiadur er mwyn adnabod yr hyfforddiant angenrheidiol.

## 5. Strwythur Rheoli

**Awdurdod Gweinyddu**
Cyngor Gwynedd

**Aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau 2010/11**
Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Cadeirydd ac aelod i Ebrill 2012)
Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd ac aelod o Fai 2012)
Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Is-Gadeirydd i Ebrill 2012)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-Gadeirydd ac aelod o Fai 2012)
Y Cynghorydd Stephen Churchman
Y Cynghorydd Trevor Edwards
Y Cynghorydd Simon Glyn (i Ebrill 2012)
Y Cynghorydd John Gwilym Jones (i Ebrill 2012)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (o Fai 2012)
Y Cynghorydd John W. Jones (i Ebrill 2012)
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (o Fai 2012)
Y Cynghorydd Tom Jones (Aelod Cyfetholedig)
Y Cynghorydd Margaret Lyon (Aelod Cyfetholedig)

**Cyfarwyddwr Corfforaethol**
Mr Dilwyn O. Williams

**Pennaeth Cyllid ("Swyddog Adran 151")**
Mr Dafydd L. Edwards

**Ymgynghorydd**
Mr Paul Potter (Hymans Robertson)

**Rheolwyr Buddsoddi**
BlackRock
Capital International Cyf.
*(terfynnwyd eu cytundeb ar 5 Gorffennaf 2012)*
Fidelity International
Insight Investment
Lothbury
Partners Group
Threadneedle
UBS Global Asset Management Cyf.
Veritas *(apwyntiwyd o 5 Gorffennaf 2012)*

**Actiwari**
Hymans Robertson

**Ceidwad**
Northern Trust

**Banc**
Barclays Bank plc

**Archwilwyr**
Swyddfa Archwilio Cymru

**Manylion Cyswllt**
Gellir holi ymhellach a derbyn gwybodaeth fanylach ynglyn â:

- gweithrediad Cynllun Pensiwn Gwynedd trwy gysylltu â:

  Mr Gareth Jones,
  Rheolwr Pensiynau,
  Cygor Gwynedd,
  Swyddfa'r Cyngor,
  Caernarfon,
  Gwynedd. LL55 1SH

  ☎ 01286 679612
  🖹 01286 679589
  ✉ garethjones@gwynedd.gov.uk

- gweithgareddau buddsoddi a chyfrifeg y Gronfa trwy gysylltu â:


  Mrs Caroline Roberts,
  Rheolwr Buddsoddi,
  Adran Cyllid,
  Cyngor Gwynedd,
  Swyddfa'r Cyngor,
  Caernarfon,
  Gwynedd. LL55 1SH

  ☎ 01286 679128
  🖹 01286 678962
  ✉ carolineroberts@gwynedd.gov.uk

**Safle We'r Gronfa**
www.cronfabensiwngwynedd.org.uk

## 6. Ystadegau Aelodaeth

Mae'r graff isod yn dangos y newid yn aelodaeth y Gronfa dros y 18 mlynedd diwethaf. Mae'n dangos bod nifer y pensiynwyr wedi cynyddu yn raddol o 4,092 yn 1996 i 7,231 yn 2013, tra bod nifer y cyfranwyr bron wedi dyblu o 7,511 yn 1996 i 14,798 yn 2013.




Mae'r tabl isod yn rhoi'r ystadegau aelodaeth:

| **31 Mawrth 2012** | **Disgrifiad** | **31 Mawrth 2013** |
|---:|---|---:|
| 14,301 | Cyfranwyr | 14,798 |
| 7,749 | Pensiynwyr Gohiriedig | 8,369 |
| 6,927 | Pensiynau a Delir | 7,231 |
| 1,416 | Budd-dal heb eu hawlio | 1,385 |
| **30,393** | **Cyfanswm Aelodaeth** | **31,783** |

# 7. Datganiad o Gyfrifon 2012 – 2013 yn amodol ar archwiliad

### Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2012-13

| 31 Mawrth 2012 £'000 | | Nodiadau | 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|---|
| | **Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r gronfa** | | |
| 61,525 | Cyfraniadau derbyniadwy | 7 | 63,451 |
| 48 | Llog ar gyfraniadau gohiriedig | | 18 |
| 1 | Incwm ar gyfrifo ysgariad | | 1 |
| 0 | Llog ar gyfraniadau a delir yn hwyr | | 0 |
| 3,099 | Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill | 8 | 3,126 |
| **64,673** | **Cyfanswm y cyfraniadau a dderbyniwyd** | | **66,596** |
| (40,541) | Buddion sy'n daladwy | 9 | (41,004) |
| (1,035) | Taliadau i rai sy'n ymadael | 10 | (2,592) |
| (1,011) | Costau gweinyddol | 11 | (1,068) |
| **(42,587)** | **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | | **(44,664)** |
| **22,086** | **Net ychwanegiadau o ddelio gydag aelodau** | | **21,932** |
| | **Enillion ar Fuddsoddiadau** | | |
| 10,228 | Incwm buddsoddi | 12 | 11,919 |
| (291) | Treth ar incwm | 13 | (335) |
| (1,474) | Elw a (cholled) wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | | 116,112 |
| (4,656) | Costau rheoli buddsoddiadau | 14 | (5,720) |
| **3,807** | **Enillion net ar fuddsoddiadau** | | **121,976** |
| | **Asedau Net y Gronfa** | | |
| 1,023,778 | Ar 1af o Ebrill | | 1,049,671 |
| 22,086 | Net ychwanegiadau o ddelio gydag aelodau | | 21,932 |
| 3,807 | Enillion net ar fuddsoddiadau | | 121,976 |
| **1,049,671** | **Ar 31 Mawrth** | | **1,193,579** |

## DATGANIAD ASEDAU NET AR 31 MAWRTH

| 31 Mawrth 2012 £'000 | | Nodiadau | 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|---|
| 1,036,066 | Asedau buddsoddi | 15 | 1,170,051 |
| 17,624 | Adneuon arian parod | 15 | 17,316 |
| **1,053,690** | | | **1,187,367** |
| (10,274) | Ymrwymiadau buddsoddi | 15 | (4,297) |
| 9,496 | Asedau cyfredol | 20 | 13,682 |
| (3,241) | Ymrwymiadau cyfredol | 21 | (3,173) |
| **1,049,671** | | | **1,193,579** |

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymiadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymiadau'r Gronfa ym mhrisiadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2010) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa eto yn gallu cwrdd â 100% o ymrwymiadau'r dyfodol. Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud ar brisiad 31 Mawrth 2013, a disgwylir y canlyniadau ganol mis Tachwedd. Dangosir gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawir yn Nodyn 19.

# NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd. Y Cyngor yw'r endid adrodd ar gyfer y gronfa bensiwn hon. Crynodeb o'r gronfa yw'r disgrifiad a ganlyn. Am fwy o fanylion, dylid cyfeirio at y pwerau statudol sy'n tanategu'r cynllun, sef Deddf Blwydd-dal 1972 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

a) **Cyffredinol**

Deddf Blwydd-dal 1972 sy'n llywodraethu'r gronfa. Gweinyddir y gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau CPLIL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau CPLIL (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009.

Mae'n gynllun pensiwn sy'n seiliedig ar gyfraniadau a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrff ar yr atodlen, cyrff a benderfynir a chyrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r gronfa'n cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

**b) Aelodaeth**

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu blwyf. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y gronfa dan gytundeb mynediad rhwng y gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrff a ganiateir yn cynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

Mae 59 o sefydliadau cyflogwyr wedi'u cynnwys yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd, yn cynnwys y Cyngor ei hun. Gweler isod:

| **Cronfa Bensiwn Gwynedd** | **31 Mawrth 2012** | **31 Mawrth 2013** |
|---|---|---|
| Nifer y cyflogwyr gydag aelodau gweithredol | 40 | 40 |
| **Nifer y gweithwyr sy'n rhan o'r cynllun** | | |
| Cyngor Gwynedd | 5,020 | 5,391 |
| Cyflogwyr eraill | 9,281 | 9,407 |
| **Cyfanswm** | **14,301** | **14,798** |
| **Nifer y pensiynwyr** | | |
| Cyngor Gwynedd | 1,534 | 2,153 |
| Cyflogwyr eraill | 5,393 | 5,078 |
| **Cyfanswm** | **6,927** | **7,231** |
| **Pensiynwyr gohiriedig** | | |
| Cyngor Gwynedd | 3,089 | 3,601 |
| Cyflogwyr eraill | 4,660 | 4,768 |
| **Cyfanswm** | **7,749** | **8,369** |

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

| **Cyrff ar yr atodlen** | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Ysgol Bryn Eilian |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Ysgol Emrys ap Iwan |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (cyn Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru) | Ysgol Pen y Bryn |
| Grwp Llandrillo - Menai | Ysgol Uwchradd Eirias |
| **Cyrff a Benderfynir** | |
| Cyngor Cymuned Llanllyfni | Cyngor Tref Ffestiniog |
| Cyngor Dinas Bangor | Cyngor Tref Llandudno |
| Cyngor Tref Abergele | Cyngor Tref Llangefni |
| Cyngor Tref Bae Colwyn | Cyngor Tref Porthaethwy |
| Cyngor Tref Biwmares | Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel |
| Cyngor Tref Caergybi | Cyngor Tref Tywyn |
| Cyngor Tref Caernarfon | |
| **Cyrff a Ganiateir** | |
| CAG Coleg Harlech | Cymdeithas Gogledd Cymru'r Deillion |
| CAIS | Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy |
| Canolfan Cynghori Conwy | Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin |
| Canolfan Cynghori Ynys Môn | Mantell Gwynedd |
| Cwmni Cynnal | Medrwn Môn |
| Cwmni'r Frân Wen | Menter Môn |
| Cydbwyllgor Claddu Caergybi | |
| **Cyrff Cymunedol a Ganiateir** | |
| Cartrefi Conwy | Cartrefi Cymunedol Gwynedd |
| **Corff Trosglwyddai a Ganiateir** | |
| Eden Foods | Jewsons |

c) **Cyllid**

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 ac maent yn amrywio o 5.5% i 7.5% o dâl pensiynadwy'r aelod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013. Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn cael eu cyfatebu â chyfraniadau gan y cyflogwyr sy'n cael eu gosod yn seiliedig ar y prisiad actiwaraidd a gynhelir bob tair blynedd. Gwnaed y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2010. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr yn amrywio o 5.1% i 29.1% o'r tâl pensiynadwy.

d) **Buddion**

Mae buddion pensiwn dan y CPLlL yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

| | Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008 | Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|
| **Pensiwn** | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol |
| **Lwmp Swm** | Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. | Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. |

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

Mae'r buddion yn gysylltiedig â mynegai er mwyn glynu at y raddfa chwyddiant cyfredol. Ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r dull mynegi yn newid o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Daeth y newid hwn i rym ar 1 Ebrill 2011.

## NODYN 2 – SAIL DARPARIAETH

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2013. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012/13 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Gweler gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifyddu Genedlaethol (IAS) 19, yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

## NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

### Cyfrif y gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

**a) Incwm o Gyfraniadau**

Cyfrifir cyfraniadau arferol, gan weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd, yn seiliedig ar groniad ar y raddfa ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod cyflogres y maent yn perthyn iddo.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymiadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus hyd flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

**b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill**

Mae'r gwerthoedd trosglwyddo'n cynrychioli'r symiau a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd naill ai wedi ymuno neu sydd wedi gadael y gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol ac maent yn cael eu cyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler nodiadau 8 a 10).

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn i'r gronfa ac allan ohoni'n cael eu gwneud yn seiliedig ar dderbynion a thaliadau, ac fel arfer mae hyn yn digwydd pan dderbynnir neu pan ryddheir ymrwymiadau aelod.

Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn i'r gronfa gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion y cynllun ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler nodyn 8).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grwp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

**c) Incwm buddsoddi**

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n berthnasol i'r offeryn ariannol ar y dyddiad pan geir y llog neu ar darddiad y llog. Mae incwm yn cynnwys amorteiddiad unrhyw ddisgownt neu bremiwm, costau trafodi neu wahaniaethau eraill rhwng swm cario cychwynnol yr offeryn a'i swm pan fo wedi aeddfedu sydd wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar y raddfa llog perthnasol.

ii) Incwm difidend

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn-ddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad (yn cynnwys eiddo buddsoddi) fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

**Cyfrif y gronfa – eitemau sy'n creu costau**

**d) Buddion sy'n daladwy**

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymiadau cyfredol.

**e) Trethiant**

Mae'r gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r gronfa fel mae'n codi.

**f) Costau gweinyddol**

Cyfrifir am yr holl gostau gweinyddol yn seiliedig ar groniad. Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiynau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y gronfa. Telir am gostau rheoli, llety a gorbenion eraill o'r gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

**g) Costau rheoli buddsoddiadau**

Cyfrifir am yr holl gostau rheoli buddsoddiadau yn seiliedig ar groniad.

Cytunir ar ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r ceidwad allanol yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau dan eu rheolaeth ac felly maent yn cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Yn ogystal, mae'r gronfa wedi negodi gyda'r rheolwyr a ganlyn y dylai elfen o'u ffi fod yn gysylltiedig â'u perfformiad:

Capital International - Ecwiti Byd-eang (gorffennwyd yn Gorffennaf 2012)
Fidelity - Ecwiti Byd-eang

Ni thalwyd unrhyw ffioedd oedd yn gysylltiedig â pherfformiad i'r rheolwyr yn ystod 2012/13 nag yn 2011/12.

Mae cost cael cyngor ar fuddsoddiadau gan ymgynghorwyr allanol wedi'i gynnwys dan ffioedd rheoli buddsoddiadau.

Yn ogystal, mae cyfran o gostau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan swyddogion yn rheoli buddsoddiadau yn cael ei godi ar y gronfa.

**Datganiad asedau net**

**h) Asedau ariannol**

Mae asedau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. O'r dyddiad hwn, bydd y gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ased.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel y'u dengys yn y datganiad asedau net wedi'u pennu fel a ganlyn:

i) Buddsoddiadau a ddyfynnir ar y farchnad

Penderfynir gwerth buddsoddiad lle bo pris marchnad ar gael yn rhwydd ar sail dyfarniad y pris marchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifo.

ii) Gwarantau llog sefydlog

Cofnodir gwarantau llog sefydlog ar werth marchnad net yn seiliedig ar eu cynhyrchion cyfredol.

iii) Buddsoddiadau heb eu dyfynnu

Mae gwerth teg buddsoddiadau ble nad yw'r dyfyniadau marchnad ar gael yn hawdd, yn cael eu pennu fel a ganlyn:

- Mae prisiadau ar gyfer stociau wedi eu dadrestru yn seiliedig ar y pris gwerthu olaf cyn y dadrestriad, neu ble yn amodol ar ddatodiad, y swm y disgwylir ei dderbyn gan y Gronfa wrth ei ddirwyn i ben, llai'r costau gwerthu a amcangyfrifir.
- Stociau yn amodol ar gynnig trosfeddiannu - gwerth yr ystyriaeth a gynigir o dan y cynnig, llai amcangyfrif o'r costau gwerthu.
- Mae buddsoddiadau a ddelir yn uniongyrchol yn cynnwys buddsoddiadau mewn partneriaethau cyfyngedig, cyfranddaliadau mewn cwmnïau heb eu rhestru, ymddiriedolaethau a bondiau. Mae stociau eraill heb eu dyfynnu yn cynnwys buddsoddiadau cydgyfrannog mewn eiddo, is-adeiladwaith, stociau dyled ac ecwiti preifat. Mae'r prisiad o'r cydgyfraniadau yma neu stociau a ddelir yn uniongyrchol yn cael eu gwneud gan y rheolwr buddsoddi neu endid cyfrifol a gynghorir fel pris uned neu stoc. Mae'r safonau prisio a ddilynir yn y prisiadau yma yn cadw at ganllawiau'r diwydiant neu at safonau a osodwyd yn nogfennau cyfansoddol y pwl neu'r cytundeb rheoli.
- Caiff buddsoddiadau mewn eiddo heb eu dyfynnu a chronfeydd is-adeiladwaith cydgyfrannog eu prisio ar werth yr ased net neu ar bris unigol a gynghorir gan y rheolwr buddsoddi.
- Caiff buddsoddiadau mewn cronfeydd ecwiti preifat a phartneriaethau cofrestredig heb eu dyfynnu eu prisio ar sail rhaniad y gronfa o'r asedau net yn y gronfa ecwiti preifat neu'r bartneriaeth gyfyngedig gan ddefnyddio'r datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddir gan y rheolwyr buddsoddi priodol mewn cydymffurfiad ag arweiniad IFRS. Mae'n bwysig adnabod natur oddrychol uchel o bennu gwerth teg ar fuddsoddiadau ecwiti preifat. Maent yn reddfol seiliedig ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych ymlaen ac sy'n cynnwys nifer fawr o ffactorau.

iv) Partneriaethau cyfyngedig

Caiff gwerth teg ei selio ar werth net yr ased a geir o'r prisiadau cyfnodol a ddarperir gan y rhai sydd yn rheoli'r bartneriaeth.

v) Offerynnau buddsoddi cydgyfrannog

Mae offerynnau buddsoddi cydgyfrannog yn cael eu prisio ar bris bid cau'r farchnad os yw prisiau bid a chynnig yn cael eu cyhoeddi; neu os mai dim ond un pris sydd ar gael, yna'r pris unigol adeg cau'r farchnad. Yn achos offerynnau buddsoddi cydgyfrannog sydd yn gronfeydd croniad, mae'r newid yng ngwerth y farchnad yn cynnwys incwm sydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn y gronfa, net o unrhyw dreth atal berthnasol.

**i) Trafodion arian tramor**

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cynrychioli'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balasau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian parod, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**j) Deilliadau**

Mae'r gronfa'n defnyddio offerynnau ariannol deilliadol i reoli pa mor agored ydyw i risgiau penodol sy'n codi o'i weithgareddau buddsoddi. Nid yw'r gronfa yn dal deilliadau at ddibenion hapfasnachol.

Caiff cytundebau asedau deilliadau eu prisio yn deg ar bris bid a chaiff ymrwymiadau deilliadau eu prisio yn deg ar brisiau cynnig. Cynhwysir newidiadau mewn gwerth teg cytundebau deilliadau yn y newid mewn gwerth marchnad.

Mae gwerth dyfodol ar gyfer cytundebau arian tramor yn y dyfodol yn seiliedig ar gyfraddau cyfnewid yn y dyfodol y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a'u phennu fel yr elw neu golled a byddai'n codi petai'r cytundeb cyfredol yn cael ei gydweddu gyda chytundeb cyfateb a chyferbyn.

**k) Arian a chywerthoedd arian**

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuon ar alw. Mae'r hyn a ddisgrifir fel 'Cyfwerth ag Arian Parod' yn cael eu diffinio fel buddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

**l) Ymrwymiadau ariannol**

Mae'r gronfa'n cydnabod ymrwymiadau ariannol fel gwerth teg ohonynt ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ymrwymiadau ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y gronfa gytundeb ei fod yn agored i'r ymrwymiad. O'r dyddiad hwn, bydd y gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad.

**m) Gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo**

Asesir gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo bob tair blynedd gan actiwari'r cynllun yn unol â gofynion IAS19 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir dan IAS26, mae'r gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net. (Nodyn 19).

**n) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r gronfa bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, The Equitable Life Assurance Society a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVC yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag adran 4(2)(b) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (OS 2009/3093); yn hytrach fe'u datgelir fel nodyn (Nodyn 22).

## NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISÏAU CYFRIFO

**Buddsoddiadau ecwiti preifat ac is-adeiladwaith heb eu dyfynnu**

Mae'n bwysig cydnabod natur hynod oddrychol pennu gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is-adeiladwaith. Maent yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu ac is-adeiladwaith gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo IFRS. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2013 yn £62 miliwn (£59 miliwn ar 31 Mawrth 2012).

**Ymrwymiadau'r gronfa bensiwn**

Cyfrifir ymrwymiadau'r gronfa bensiwn bob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag IAS19. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 18. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

## NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY'N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Mae Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau sydd wedi'u hamcangyfrif sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynghylch y dyfodol neu ragdybiaethau ansicr. Amcangyfrifir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y datganiad asedau net ar 31 Mawrth 2013, ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw'r gwir ganlyniadau'n wahanol i'r rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| Gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo | Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r raddfa ddisgownt a ddefnyddiwyd, y raddfa godiad cyflog a ragwelir, newidiadau mewn oed ymddeol, cyfraddau marwolaeth a'r enillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwarïaid ymgynghorol yn cael eu cyflogi i roi cyngor arbenigol i'r gronfa am y rhagdybiaethau i'w defnyddio. | Byddai'r ymrwymiadau pensiwn net yn newid os byddai newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y dybiaeth graddfa ddisgownt yn arwain at ostyngiad yn yr ymrwymiad pensiwn, cynnydd yn y dybiaeth chwyddiant ar gyflogau yn cynyddu gwerth yr ymrwymiadau a byddai cynnydd yn y dybiaeth disgwyliad oes yn cynyddu'r ymrwymiad. |
| Dyledwyr | Ar 31 Mawrth 2013, roedd gan y gronfa falans amrywiol ddyledwyr o £6.2m. Awgrymodd adolygiad o falansau arwyddocaol nad oedd hi'n briodol i wneud unrhyw amhariad o'r dyledion. | Pe byddai'r graddfeydd casglu'n dirywio, byddai angen ail-ystyried y penderfyniad hwn. |
| Ecwiti preifat ac is-adeiladwaith | Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is-adeiladwaith yn cael ei bennu'n unol â safon cyfrifo IFRS. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru'n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â'r prisiad. | Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat yn y datganiadau ariannol yn £62 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi'i nodi'n rhy isel neu'n rhy uchel yn y cyfrifon. |

## NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Ni fu unrhyw ddigwyddiad ers 31 Mawrth 2013, na hyd at y dyddiad pan awdurdodwyd y cyfrifon hyn, sy'n gofyn am wneud unrhyw addasiad i'r cyfrifon hyn.

## NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

**Yn ôl categori**

| **2011/12**<br>£'000 | | **2012/13**<br>£'000 |
|---|---|---|
| 47,301 | Cyflogwyr | 49,126 |
| 14,224 | Gweithwyr/Aelodau | 14,325 |
| **61,525** | | **63,451** |

**Yn ôl awdurdod**

| **2011/12**<br>£'000 | | **2012/13**<br>£'000 |
|---|---|---|
| 20,700 | Cyngor Gwynedd | 21,333 |
| 36,573 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 36,999 |
| 2,209 | Cyrff a ganiateir | 2,827 |
| 1,778 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 2,033 |
| 64 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 63 |
| 147 | Cyrff a Benderfynir | 142 |
| 54 | Cronfa gaeedig* | 54 |
| **61,525** | | **63,451** |

*Cronfa gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Theatr Harlech, Theatr Gwynedd a Phwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn. Roeddent yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond maent bellach yn gronfeydd caeedig.

## NODYN 8 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

| **2011/12**<br>£'000 | | **2012/13**<br>£'000 |
|---|---|---|
| 3,099 | Trosglwyddiadau unigol | 3,126 |
| **3,099** | | **3,126** |

## NODYN 9 – BUDDION SY'N DALADWY

### Yn ôl categori

| 2011/12 £'000 | | 2012/13 £'000 |
|---|---|---|
| 29,785 | Pensiynau | 32,237 |
| 10,013 | Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm | 7,873 |
| 743 | Buddion marwolaeth – lwmp swm | 894 |
| **40,541** | | **41,004** |

### Yn ôl awdurdod

| 2011/12 £'000 | | 2012/13 £'000 |
|---|---|---|
| 10,137 | Cyngor Gwynedd | 10,027 |
| 16,925 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 17,613 |
| 1,103 | Cyrff a ganiateir | 1,223 |
| 660 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 543 |
| 34 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 15 |
| 11,628 | Cronfa Gaeedig | 11,496 |
| 54 | Cyrff a Benderfynir | 87 |
| **40,541** | | **41,004** |

## NODYN 10 – TALIADAU I RAI SY'N YMADAEL

| 2011/12 £'000 | | 2012/13 £'000 |
|---|---|---|
| 3 | Ad-daliadau i aelodau sy'n ymadael â'r gwasanaeth | 37 |
| 6 | Taliadau i aelodau sy'n ymuno â chynllun y wladwriaeth | 1 |
| 1,026 | Trosglwyddiadau unigol | 2,554 |
| **1,035** | | **2,592** |

## NODYN 11 – COSTAU GWEINYDDOL

| 2011/12<br>£'000 | | 2012/13<br>£'000 |
|---|---|---|
| 393 | Costau staff uniongyrchol | 393 |
| 162 | Costau uniongyrchol eraill | 87 |
| 332 | Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG | 434 |
| 50 | Pwyllgor y gronfa bensiwn | 66 |
| 25 | Ffioedd archwilio allanol | 25 |
| 49 | Ffioedd actiwaraidd | 63 |
| **1,011** | | **1,068** |

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety. Gweler manylion pellach yn Nodyn 23 isod.

## NODYN 12 – INCWM BUDDSODDI

| 2011/12<br>£'000 | | 2012/13<br>£'000 |
|---|---|---|
| 0 | Stociau llog sefydlog | 6 |
| 768 | Ecwiti'r DU | 1,176 |
| 4,119 | Ecwiti tramor | 3,830 |
| 1,244 | Ecwiti preifat | 923 |
| 0 | Is-adeiladwaith | (10) |
| 3,899 | Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno | 4,593 |
| 198 | Llog ar adneuon arian parod | 179 |
| 0 | Ad-daliad ffioedd | 1,222 |
| **10,228** | | **11,919** |

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri cyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grwp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grwp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor adneuon o £4m gyda Banc Heritable, a roddwyd yn nwylo'r gweinyddwyr ym mis Hydref 2008. Yr amhariad ar y buddsoddiad hwn i'r Gronfa Bensiwn oedd £178,094 yn 2008/09 a gwelwyd gostyngiad yn yr amhariad hwn o £54,814 yn 2009/10, £13,248 yn 2010/11 a £14,897 yn 2011/12. Gwnaed amhariad pellach o £2,723 yn 2012/13. Mae swm yr amhariad wedi'i gynnwys yn y ffigwr llog ar adneuon arian parod ar gyfer y flwyddyn berthnasol yn y tabl uchod. Gweler manylion pellach yn Nodyn 26 isod.

## NODYN 13 – TRETH AR INCWM

| 2011/12 | | 2012/13 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 291 | Treth atal – ecwiti | 335 |
| **291** | | **335** |

## NODYN 14 – COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

| 2011/12 | | 2012/13 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 4,477 | Ffioedd rheoli | 5,614 |
| 47 | Ffioedd cadw | 46 |
| 14 | Gwasanaeth monitro perfformiad | 16 |
| 118 | Ffioedd ymgynghoriaeth buddsoddi | 44 |
| **4,656** | | **5,720** |

## NODYN 15 – BUDDSODDIADAU

| 2011/12 | | 2012/13 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| | **Asedau buddsoddi** | |
| 150,723 | Enillion absoliwt | 157,644 |
| 153,058 | Ecwiti | 206,697 |
| 577,137 | Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 634,387 |
| 92,685 | Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno | 105,974 |
| 58,645 | Ecwiti Preifat | 58,723 |
| 0 | Is-adeiladwaith | 3,064 |
| | Contractau Deilliadau: | |
| 3,534 | Contractau arian y dyfodol | 3,562 |
| 284 | Symiau a dderbynnir am werthiannau | 0 |
| **1,036,066** | | **1,170,051** |
| 17,624 | Adneuon arian parod | 17,316 |
| **1,053,690** | **Cyfanswm asedau buddsoddi** | **1,187,367** |
| | **Ymrwymiadau buddsoddi** | |
| | Contractau Deilliadau: | |
| (3,518) | Contractau arian y dyfodol | (3,620) |
| (6,756) | Symiau taladwy am bryniannau | (677) |
| **(10,274)** | **Cyfanswm ymrwymiadau buddsoddi** | **(4,297)** |
| **1,043,416** | **Asedau buddsoddi net** | **1,183,070** |

## Nodyn 15a – Cysoni symudiadau mewn buddsoddiadau deilliadau

| | Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2012 | Pryniannau yn ystod y flwyddyn | Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn | Newid mewn gwerth farchnad yn ystod y flwyddyn | Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Stociau llog sefydlog dychweliad absoliwt | 150,723 | 0 | (210) | 7,131 | 157,644 |
| Ecwiti | 153,058 | 206,019 | (171,726) | 19,346 | 206,697 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 577,137 | 1,716 | (30,999) | 86,533 | 634,387 |
| Buddsoddiadau Eiddo wedi'u cyfuno | 92,685 | 17,851 | 0 | (4,562) | 105,974 |
| Ecwiti Preifat / Is-adeiladwaith | 58,645 | 9,359 | (10,970) | 4,753 | 61,787 |
| | **1,032,248** | 234,945 | (213,905) | 113,201 | 1,166,489 |
| Cytundebau arian tramor yn y dyfodol | 16 | | | (82) | (58) |
| Adneuon arian | 17,624 | | | (209) | 17,316 |
| Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiannau buddsoddiadau | 284 | | | | 0 |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniannau buddsoddiadau | (6,756) | | | | (677) |
| Ffioedd o fewn cerbyau wedi'u cyfuno | | | | 3,202 | |
| **Asedau buddsoddi net** | **1,043,416** | **234,945** | **(213,905)** | **116,112** | **1,183,070** |

| | Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2011 | Pryniannau yn ystod y flwyddyn | Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn | Newid mewn gwerth farchnad yn ystod y flwyddyn | Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Stociau llog sefydlog dychweliad absoliwt | 141,937 | 4,212 | 0 | 4,574 | 150,723 |
| Ecwiti | 156,987 | 92,437 | (92,350) | (4,016) | 153,058 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 562,695 | 113,360 | (90,159) | (8,759) | 577,137 |
| Buddsoddiadau Eiddo wedi'u cyfuno | 89,208 | 7,316 | (5,611) | 1,772 | 92,685 |
| Ecwiti Preifat / Is-adeiladwaith | 50,967 | 13,175 | (7,572) | 2,075 | 58,645 |
| | **1,001,794** | **230,500** | **(195,692)** | **(4,354)** | **1,032,248** |
| Cytundebau arian tramor yn y dyfodol | (172) | | | 39 | 16 |
| Adneuon arian | 10,029 | | | 132 | 17,624 |
| Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiannau buddsoddiadau | 640 | | | | 284 |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniannau buddsoddiadau | (404) | | | | (6,756) |
| Ffioedd o fewn cerbyau wedi'u cyfuno | | | | 2,709 | |
| **Asedau buddsoddi net** | **1,011,887** | **230,500** | **(195,692)** | **(1,474)** | **1,043,416** |

Cynhwysir costau trafodion, fel comisiwn, treth stamp a ffioedd trafodion eraill yng nghost y pryniannau a derbyniadau gwerthiannau. Cyfanswm costau trafodion yn ystod y flwyddyn oedd £426,308 (2011/12 £189,583.34). Mae'r costau ar gyfer 2012/13 yn uwch nag arfer oherwydd trawsnewid i reolwr newydd a oedd yn golygu nifer sylweddol o bryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau. Yn ogystal â'r costau yna telir costau anuniongyrchol trwy'r gwasgariad bid-cynnig ar fuddsoddiadau mewn cronfeydd wedi'u cyfuno.

**Nodyn 15b – Dadansoddiad o fuddsoddiadau (ac eithrio contractau deilliadol)**

| **31 Mawrth 2012** | | **31 Mawrth 2013** |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| | **Ecwiti** | |
| | **Y Deyrnas Unedig** | |
| 14,999 | Wedi'u dyfynnu | 45,299 |
| | **Tramor** | |
| 136,758 | Wedi'u dyfynnu | 161,398 |
| 1,302 | Heb eu dyfynnu | 0 |
| | **Cronfeydd wedi'u cyfuno** | |
| | **Y Deyrnas Unedig** | |
| 187,377 | Ymddiriedolaethau Uned | 218,891 |
| 1 | Mentrau – heb eu dyfynnu | 0 |
| | **Byd-eang (yn cynnwys y DU)** | |
| 150,723 | Incwm sefydlog | 157,644 |
| 179,653 | Ymddiriedolaethau Uned | 211,337 |
| | **Tramor** | |
| 210,104 | Ymddiriedolaethau Uned | 204,159 |
| 92,686 | **Ymddiriedolaethau uned eiddo** | 105,974 |
| 58,645 | **Ecwiti preifat** | 58,723 |
| 0 | **Is-adeiladwaith** | 3,064 |
| **1,032,248** | | **1,166,489** |

## Dadansoddiad o'r deilliadau

### Amcanion a pholisïau ar gyfer dal deilliadau

Delir y rhan fwyaf o ddeilliadau i ragfantoli ymrwymiadau neu leihau risg yn y gronfa. Gellir defnyddio deilliadau i gael bod yn agored i ased yn fwy effeithlon na'r hyn a fyddai'n bosib drwy ddal yr ased gwaelodol. Rheolir y defnydd a wneir o ddeilliadau'n unol â'r cytundeb rheoli buddsoddiadau sydd wedi'i gytuno rhwng y gronfa a'r rheolwyr buddsoddi amrywiol.

### Arian tramor yn y dyfodol

Er mwyn cael digon o amrywiaeth a chymryd mantais o enillion ar fuddsoddiadau tramor, mae cyfran sylweddol o'r portffolio ecwiti sydd wedi'i ddyfynnu sydd yn y gronfa yn cael ei fuddsoddi mewn marchnadoedd stoc tramor. I leihau'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â chyfraddau arian sy'n codi a gostwng, mae gan y gronfa raglen arian oddefol yn ei lle sy'n cael ei rheoli gan y ceidwad byd-eang. Mae'r gronfa'n rhagfantoli cyfradd o'r Ewro o fewn y portffolio a reolir gan UBS.

| **Ardrefniant** | **Arian a brynwyd** | **Gwerth Lleol 000** | **Arian a Werthwyd** | **Gwerth Lleol 000** | **Gwerth yr Ased £'000** | **Gwerth yr Ymrwymiad £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyd at dri mis | GBP | 3,562 | GBP | 3,562 | 3,562 | |
| Hyd at dri mis | EUR | 4,280 | | | | (3,620) |
| | | | | | **3,562** | **(3,620)** |
| **Cytundebau arian dramor yn y dyfodol net ar 31 Mawrth 2013** | | | | | | **(58)** |
| | | | | | | |
| **Cymhariaeth blwyddyn cynt** | | | | | | |
| **Cytundebau arian dramor yn y dyfodol yn agored ar 31 Mawrth 2012** | | | | | **3,534** | **(3,518)** |
| **Cytundebau arian dramor yn y dyfodol net ar 31 Mawrth 2012** | | | | | | **16** |

### Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

| **Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2012 £'000** | **%** | **%** | **Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2013 £'000** | **%** |
|---|---|---|---|---|
| 346,858 | 33.3 | BlackRock | 412,513 | 34.9 |
| 190,046 | 18.2 | Capital International | 0 | 0.0 |
| 206,287 | 19.8 | Fidelity | 240,729 | 20.3 |
| 150,519 | 14.4 | Insight | 157,648 | 13.3 |
| 20,099 | 1.9 | Lothbury | 20,887 | 1.8 |
| 58,645 | 5.6 | Partners Group | 61,787 | 5.2 |
| 10,601 | 1.0 | Threadneedle | 10,736 | 0.9 |
| 60,361 | 5.8 | UBS | 56,223 | 4.8 |
| 0 | 0.0 | Veritas | 222,547 | 18.8 |
| **1,043,416** | **100.0** | | **1,183,070** | **100.0** |

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y cynllun

| Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2012 £'000 | % cyfanswm y gronfa | Gwarantau | Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2013 £'000 | % cyfanswm y gronfa |
|---|---|---|---|---|
| 187,377 | 17.85 | BlackRock Asset Management Aquila Life UK Equity Index Fund | 218,889 | 18.34 |
| 179,653 | 17.12 | Fidelity Institutional Select Global Equity | 211,337 | 17.71 |
| 150,516 | 14.34 | Insight LDI Solution Bonds Plus | 157,644 | 13.21 |

**Nodyn 15c – Benthyca Stoc**

Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DoEB) yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r gronfa'n benthyca unrhyw stoc.

## NODYN 16 – OFFERYNNAU ARIANNOL

**Nodyn 16a – Dosbarthiad offerynnau ariannol**

Mae polisïau cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddosbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymiadau ariannol (ac eithrio arian parod) fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

| Fel ar 31 Mawrth 2012 | | | | Fel ar 31 Mawrth 2013 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | Benthyciadau ac arian a dderbynnir | Costau ymrwymiadau ariannol wedi'u hamorteiddio | | Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | Benthyciadau ac arian a dderbynnir | Costau ymrwymiadau ariannol wedi'u hamorteiddio |
| £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **Asedau Ariannol** | | | |
| 150,723 | | | Gwarantau llog sefydlog | 157,644 | | |
| 153,058 | | | Ecwiti | 206,697 | | |
| 577,137 | | | Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 634,387 | | |
| 92,685 | | | Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfun | 105,974 | | |
| 58,645 | | | Ecwiti preifat | 58,723 | | |
| 0 | | | Is-adeiladwaith | 3,064 | | |
| 3,534 | | | Contractau Deilliadau | 3,562 | | |
| | 20,710 | | Arian parod | 121 | 24,662 | |
| | 6,693 | | Dyledwyr | | 6,216 | |
| **1,035,782** | **27,403** | **0** | | **1,170,172** | **30,878** | **0** |
| | | | **Ymrwymiadau Ariannol** | | | |
| (3,518) | | | Contractau Deilliadau | (4,270) | | |
| | | (9,996) | Credydwyr | | | (3,201) |
| **(3,518)** | **0** | **(9,996)** | | **(4,270)** | **0** | **(3,201)** |
| **1,032,264** | **27,403** | **(9,996)** | | **(1,165,902)** | **30,878** | **(3,201)** |

**Nodyn 16b – Gwerth teg offerynnau ag ymrwymiadau ariannol**

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymiadau ariannol fesul dosbarth o offeryn o'i gymharu â'u gwerth teg.

| 31 Mawrth 2012 | | | 31 Mawrth 2013 | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwerth cario** | **Gwerth teg** | | **Gwerth cario** | **Gwerth teg** |
| **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| | | **Asedau Ariannol** | | |
| 876,237 | 1,035,782 | Gwerth teg drwy elw a cholled | 916,860 | 1,170,172 |
| 27,405 | 27,403 | Benthyciadau a derbyniadau | 30,878 | 30,878 |
| **903,642** | **1,063,185** | **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **947,738** | **1,201,050** |
| | | **Ymrwymiadau Ariannol** | | |
| (3,534) | (3,518) | Gwerth teg drwy elw a cholled | (4,216) | (4,270) |
| (10,006) | (9,996) | Cost ymrwymiadau ariannol wedi'u hamorteiddio | (3,201) | (3,201) |
| **(13,540)** | **(13,514)** | **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **(7,417)** | **(7,471)** |
| **890,102** | **1,049,671** | **Asedau ariannol net** | **940,321** | **1,193,579** |

Nid yw'r gronfa wedi ymrwymo i unrhyw warantau ariannol sydd angen cyfrifo amdanynt fel offerynnau ariannol.

**Nodyn 16c – Prisiad gwerth teg yr offerynnau ariannol sy'n cael eu cario**

Mae prisiad yr offerynnau ariannol wedi'i ddosbarthu'n dri lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

**Lefel 1**

Offerynnau ariannol Lefel 1 yw rhai ble mae eu gwerth teg wedi'i bennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rwymedigaethau cyfwerth. Mae cynhyrchion sydd wedi'u dosbarthu fel rhai lefel 1 yn cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, gwarantau sefydlog wedi'u dyfynnu, gwarantau cysylltiedig â mynegai wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned. Mae'r buddsoddiadau a restrir yn cael eu harddangos am y pris a gynigwyd amdanynt. Mae gwerth y pris a gynigir am y buddsoddiad yn seiliedig ar ddyfyniad marchnad cynigion y farchnad stoc dan sylw.

**Lefel 2**

Mae offerynnau ariannol Lefel 2 yn rhai ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael; er enghraifft, pan fo offeryn yn cael ei fasnachu mewn marchnad nad yw'n cael ei hystyried yn un weithredol, neu pan ddefnyddir technegau prisio i bennu gwerth teg a ble mae'r technegau hyn yn defnyddio mewnbwn sy'n seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiadau data'r farchnad.

**Lefel 3**

Mae offerynnau ariannol Lefel 3 yn rhai ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ganfyddiadau data'r farchnad. Gallai offerynnau o'r fath gynnwys buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu a chronfa o gronfeydd rhagfantoli, sy'n cael eu prisio gan ddefnyddio technegau prisio amrywiol sy'n gofyn am ddyfarniadau sylweddol wrth bennu rhagdybiaethau priodol.

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratoir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisio'r IFRS ac US GAAP. Fel arfer, gwneir prisiad yn flynyddol ar ddiwedd

mis Rhagfyr. Defnyddir addasiadau llif arian i symud y prisiadau ymlaen i 31 Mawrth fel sy'n briodol. Mae gwerthoedd y buddsoddiad mewn cronfeydd rhagfantoli'n seiliedig ar y gwerth asedau net a ddarparwyd gan reolwr y gronfa. Ceir sicrwydd o'r prisiad yn sgil yr archwiliad annibynnol a gynhelir ar y gwerth.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi dadansoddiad o asedau ag ymrwymiadau ariannol y gronfa bensiwn wedi'i grwpio i Lefelau 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel sy'n cael ei rhagweld fel gwerth teg.

| Gwerth ar 31 Mawrth 2013 | Pris y farchnad a ddyfynnwyd Lefel 1 £'000 | Gan ddefnyddio canfyddiadau am y mewnbwn Lefel 2 £'000 | Gan ddefnyddio mewnbwn sylweddol ble na cheir canfyddiad ohono Lefel 3 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Ariannol** | | | | |
| Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 503,034 | 605,351 | 61,787 | 1,170,172 |
| Benthyciadau a derbyniadau | 30,878 | 0 | 0 | 30,878 |
| **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **533,912** | **605,351** | **61,787** | **1,201,050** |
| **Ymrwymiadau Ariannol** | | | | |
| Ymrwymiadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 0 | (4,270) | 0 | (4,270) |
| Costau ymrwymiadau ariannol wedi'u hamorteiddio | (3,201) | 0 | 0 | (3,201) |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **(3,201)** | **(4,720)** | **0** | **(7,471)** |
| **Asedau ariannol net** | **530,711** | **601,081** | **61,787** | **1,193,579** |

| Gwerth ar 31 Mawrth 2012 | Pris y farchnad a ddyfynnwyd Lefel 1 £'000 | Gan ddefnyddio canfyddiadau am y mewnbwn Lefel 2 £'000 | Gan ddefnyddio mewnbwn sylweddol ble na cheir canfyddiad ohono Lefel 3 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Ariannol** | | | | |
| Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 442,353 | 534,784 | 58,645 | 1,035,782 |
| Benthyciadau a derbyniadau | 27,403 | 0 | 0 | 27,403 |
| **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **469,756** | **534,784** | **58,645** | **1,063,185** |
| **Ymrwymiadau Ariannol** | | | | |
| Ymrwymiadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 0 | (3,518) | 0 | (3,518) |
| Costau ymrwymiadau ariannol wedi'u hamorteiddio | (9,996) | 0 | 0 | (9,996) |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **(9,996)** | **(3,518)** | **0** | **(13,514)** |
| **Asedau ariannol net** | **459,760** | **531,266** | **58,645** | **1,049,671** |

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

**Risg a rheoli risg**

Prif risg hirdymor y gronfa yw y bydd asedau'r gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymiadau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau fel ei fod yn cadw lefel risg y farchnad y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y gronfa bensiwn.

Y pwyllgor pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y gronfa. Mae rhaglen reoli risg gyffredinol y Gronfa Bensiwn yn canolbwyntio ar ba mor anwadal yw'r marchnadoedd ariannol ac yn ceisio isafu'r effeithiau andwyol posib ar yr adnoddau sydd ar gael i dalu pensiynau. Mae'r Datganiad Strategaeth Gyllido a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ar y cyd ag Actiwari'r Gronfa, yn nodi sut bydd hydaledd a risg yn cael eu rheoli mewn perthynas ag ymrwymiadau. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cynhyrchu'r Datganiad Strategaeth Gyllido hwn gan roi ystyriaeth gyffredinol i lefel y risg yn y polisi buddsoddi sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi a gyhoeddwyd dan Reoliad 12 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (y Rheoliadau Buddsoddi) a'r polisi cyllido sydd wedi'i nodi yn y Datganiad hwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n parhau i adolygu'r ddwy ddogfen i sicrhau bod y proffil risg cyffredinol yn parhau'n briodol.

**a) Risg y farchnad**

Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r gronfa o fewn paramedrau derbyniol, tra gwneud y mwyaf o'r enillion a geir wrth gymryd risg.

Yn gyffredinol, rheolir anweddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Cyngor a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol
- mae pa mor agored yw'r gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

**Risg prisiau eraill**

Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'r sawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

Mae'r gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau a deilliadau. Mae hyn yn codi o fuddsoddiadau a ddelir gan y gronfa ble bo ansicrwydd ynghylch eu pris yn y dyfodol. Mae pob buddsoddiad gwarantau yn cyflwyno risg o golli cyfalaf. Ac eithrio cyfranddaliadau a werthir am bris is, pennir y risg fwyaf sy'n deillio o offerynnau ariannol gan werth teg yr offerynnau ariannol. Mae'r colledion posib yn sgil cyfranddaliadau a werthir am bris is yn anghyfyngedig.

**Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd**

Gan ddilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol ar enillion ar fuddsoddiadau, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi analytig y gronfa, mae newidiadau pris posib wedi cael eu pennu ar gyfer y gwahanol gategorïau o asedau sy'n cael ei ddal gan y Gronfa. Mae'r cyfraddau i'w defnyddio ar gyfer categorïau asedau'r Gronfa fel a ganlyn:

| **Math o ased** | **Newid posib yn y farchnad (+/-)** | |
|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2012** |
| | % | % |
| Ecwiti | 12.5 | 14.97 |
| Incwm sefydlog | 1.5 | 1.80 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat) | 9.6 | 11.61 |
| Eiddo | 1.9 | 4.29 |
| Arian | 0.0 | 0.50 |

Mae'r anweddolrwydd a nodir uchod yn gyson ag un gwyriad safonol yn newid gwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid arian tramor a chyfraddau llog, yn parhau'r un fath.

Pe byddai pris buddsoddiadau'r gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid ym mhris y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

| **Math o ased** | **Gwerth fel ar 31 Mawrth 2013 £'000** | **Canran newid %** | **Gwerth ar ôl cynnydd £'000** | **Gwerth ar ôl gostyngiad £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti | 841,084 | 12.5 | 945,556 | 735,612 |
| Ymddiriedolaethau incwm sefydlog | 157,644 | 1.5 | 160,056 | 155,232 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat) | 61,787 | 9.6 | 67,694 | 55,880 |
| Eiddo | 105,974 | 1.9 | 108,009 | 103,939 |
| Arian | 24,047 | 0.0 | 24,049 | 24,044 |
| **Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion** | **1,190,536** | | **1,305,364** | **1,074,707** |

| **Math o ased** | **Gwerth fel ar 31 Mawrth 2012 £'000** | **Canran newid %** | **Gwerth ar ôl cynnydd £'000** | **Gwerth ar ôl gostyngiad £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti | 730,195 | 14.97 | 839,504 | 620,884 |
| Ymddiriedolaethau incwm sefydlog | 150,723 | 1.80 | 153,436 | 148,010 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat) | 58,645 | 11.61 | 65,454 | 51,836 |
| Eiddo | 92,685 | 4.29 | 96,661 | 88,708 |
| Arian | 17,624 | 0.50 | 17,712 | 17,536 |
| **Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion** | **1,049,872** | | **1,172,767** | **926,974** |

**Risg cyfraddau llog**

Mae'r gronfa'n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy'n cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2013 a 31 Mawrth 2012 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

| **Math o ased** | **Fel ar 31 Mawrth 2013 £'000** | **Fel ar 31 Mawrth 2012 £'000** |
|---|---|---|
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth | 7,466 | 3,086 |
| Balansau arian parod | 17,316 | 17,624 |
| Gwarantau llog sefydlog | 157,644 | 150,723 |
| **Cyfanswm** | **182,426** | **171,433** |

**Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog**

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifrwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

| **Math o ased** | **Swm cario fel ar 31 Mawrth 2013** | **Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion** | |
|---|---|---|---|
| | | **+1%** | **-1%** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth | 7,466 | 75 | (75) |
| Balansau arian parod | 17,316 | 173 | (173) |
| Gwarantau llog sefydlog | 157,644 | 851 | (851) |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **182,426** | **1,099** | **(1,099)** |

| **Math o ased** | **Swm cario fel ar 31 Mawrth 2012** | **Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion** | |
|---|---|---|---|
| | | **+1%** | **-1%** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb | 3,086 | 31 | (31) |
| Balansau arian parod | 17,624 | 176 | (176) |
| Gwarantau llog sefydlog | 150,723 | 528 | (528) |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **171,433** | **735** | **(735)** |

Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

**Risg arian tramor**
Mae risg arian yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r gronfa'n agored i risg arian ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y gronfa (£UK). Mae'r gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £UK.

Mae gan y gronfa ymrwymiadau ecwiti preifat ac is-adeiladwaith mewn arian tramor (€140miliwn a $7miliwn). Mae'r ymrwymiadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymiadau cyfredol sy'n aros yn nodyn 24. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymiadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r gronfa wedi'i chyllido'n llawn. Mae'r gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymiadau ers 2005 felly mae'r ymrwymiadau wedi'i gydbwyso dros gyfnod maith o amser.

Mae cyfradd cyfnewid arian y gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi pa mor agored yw'r gronfa i newidiadau mewn arian fel ar 31 Mawrth 2013 ac fel ar ddiwedd y cyfnod blaenorol:

| **Agored i newidiadau mewn arian – math o ased** | **Fel ar 31 Mawrth 2013 £'000** | **Fel ar 31 Mawrth 2012 £'000** |
|---|---|---|
| Ecwiti tramor a Byd-eang | 576,897 | 526,356 |
| Incwm Sefydlog Byd-eang | 157,644 | 150,723 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac is-adeiladwaith) | 61,787 | 58,645 |
| Eiddo tramor | 3,673 | 3,626 |
| Arian dramor | 121 | 14 |
| **Cyfanswm yr asedau tramor** | **800,122** | **739,364** |

**Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd**
Yn dilyn dadansoddi data hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi analytig y gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael eu cyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r gronfa.

Ystyrir bod newid o 5.2% yn yr arian tramor yn rhesymol yn seiliedig ar ddadansoddiad ymgynghorwyr buddsoddi analytig y gronfa o newidiadau hanesyddol hirdymor yn y cyfraddau cyfnewid ar ddiwedd y mis dros gyfnod treigl o 36 mis hyd at 31 Mawrth 2013. Y canran cyfatebol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2012 oedd 7.8%. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau llog, yn parhau'n gyson.

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2013 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

| **Datguddiad i Arian Tramor - fesul arian tramor** | **Gwerth ar 31 Mawrth 2013** | **Newid** | **Gwerth ar gynnydd** | **Gwerth ar leihad** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | % | **£'000** | **£'000** |
| Doler Awstralia | 11,926 | 10.0 | 13,113 | 10,739 |
| Real Brasil | 6,175 | 11.6 | 6,892 | 5,457 |
| EWRO | 88,385 | 7.8 | 95,279 | 81,491 |
| Doler Hong Kong | 5,876 | 8.5 | 6,378 | 5,375 |
| Yen Siapan | 5,850 | 11.8 | 6,538 | 5,161 |
| Krone Norwy | 5,720 | 9.0 | 6,237 | 5,202 |
| Rand De Afrika | 6,692 | 12.0 | 7,492 | 5,892 |
| Krona Sweden | 5,794 | 8.1 | 6,265 | 5,323 |
| Ffranc Swistir | 6,993 | 9.4 | 7,648 | 6,339 |
| Doler UD | 83,570 | 8.7 | 90,873 | 78,266 |
| **Buddsoddiadau wedi'u cyfuno** | | | | |
| Basged Fyd-eang | 368,981 | 5.3 | 388,611 | 349,351 |
| Basged Fyd-eang heb DU | 174,768 | 5.8 | 184,904 | 164,631 |
| Basged Marchnadoedd Allddod | 29,392 | 6.4 | 31,281 | 27,502 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **800,122** | **5.2** | **841,405** | **758,835** |

**Mae'r % newid ar gyfer arian dramor yn ei chyfanrwydd yn y tabl uchod yn cynnwys effaith cydberthyniad dros yr arian tramor gwaelodol*

| **Datguddiad i Arian Tramor - fesul arian tramor** | **Gwerth ar 31 Mawrth 2012** | **Newid** | **Gwerth ar gynnydd** | **Gwerth ar leihad** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | % | **£'000** | **£'000** |
| Doler Awstralia | 2,210 | 10.49 | 2,442 | 1,978 |
| Real Brasil | 167 | 12.83 | 189 | 146 |
| Doler Canada | 6,198 | 9.63 | 6,794 | 5,601 |
| Krone Denmarc | 729 | 8.31 | 790 | 669 |
| EWRO | 81,675 | 8.36 | 88,504 | 74,847 |
| Doler Hong Kong | 4,517 | 9.60 | 4,951 | 4,084 |
| Yen Siapan | 29,015 | 13.29 | 32,873 | 25,158 |
| Krone Norwy | 1,973 | 10.52 | 2,180 | 1,765 |
| Krone Sweden | 1,328 | 10.22 | 1,463 | 1,192 |
| Ffranc Swistir | 7,293 | 10.25 | 8,041 | 6,546 |
| Doler UD | 143,996 | 9.75 | 158,039 | 129,952 |
| **Buddsoddiadau wedi'u cyfuno** | | | | |
| Basged Fyd-eang | 330,377 | 6.55 | 352,007 | 308,746 |
| Basged Ewropeaidd | 48,156 | 5.42 | 50,765 | 45,548 |
| Basged Asia Pacific heb Siapan | 30,319 | 7.19 | 32,498 | 28,140 |
| Basged Marchnadoedd Allddod | 51,411 | 7.89 | 55,467 | 47,354 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **739,364** | **7.79** | **797,003** | **681,726** |

| Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased | Swm cario fel ar 31 Mawrth 2013 | Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | | **Gwerth ar gynnydd** | **Gwerth ar leihad** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ecwiti tramor a Byd-eang | 576,897 | 606,662 | 547,128 |
| Incwm Sefydlog Byd-eang | 157,644 | 64,975 | 58,599 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac is-adeiladwaith) | 61,787 | 165,778 | 149,510 |
| Eiddo tramor | 3,673 | 3,862 | 3,483 |
| Arian dramor | 121 | 128 | 115 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **800,122** | **841,405** | **758,835** |

| Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased | Swm cario fel ar 31 Mawrth 2012 | Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | | **Gwerth ar gynnydd** | **Gwerth ar leihad** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ecwiti tramor a Byd-eang | 526,356 | 567,388 | 485,323 |
| Incwm Sefydlog Byd-eang | 150,723 | 162,473 | 138,974 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat) | 58,645 | 63,217 | 54,073 |
| Eiddo tramor | 3,626 | 3,909 | 3,344 |
| Arian tramor | 14 | 15 | 13 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **739,364** | **797,002** | **681,727** |

**b) Risg credyd**

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrthbarti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymiadau'r gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y gronfa'n agored i beth risg credyd, ac eithrio o ran y deilliadau, pan fo'r risg yn gyfwerth â gwerth marchnad net deilliad positif. Fodd bynnag, mae dewis gwrthbartïon, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.
Gweler isod meincnod ar gyfer y ganran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

| Rheolwr Buddsoddi | Canran o'r Portffolio |
|---|---|
| BlackRock | 29.5% |
| Fidelity | 19% |
| Insight | 15% |
| Partners Group | 7.5% |
| Eiddo (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock) | 10% |
| Veritas | 19% |

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros, ynghyd â chost adennill y sefyllfa ddeilliadol pan fo gwrthbarti'n diffygdalu. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil yr amrywiol bolisïau yswiriant a ddelir i ymdrin â gwrthbartïon sy'n diffygdalu.

Mae'r risg credyd ar gontractau deilliadol dros y cownter yn cael ei isafu gan fod gwrthbartïon yn gyfryngwyr ariannol cydnabyddedig sydd â statws credyd derbyniol sydd wedi'i bennu gan asiantaeth statws credyd cydnabyddedig.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o Fuddsoddiadau tymor byr ac adnau arian, mae'r cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwarged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwarged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw unrhyw arian gwarged yng nghyfrifon banc y gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor. Am fod y buddsoddiadau tymor byr yn cael eu gwneud mewn enw Cyngor Gwynedd maent yn dangos yn llawn ar fantolen y Cyngor. Elfen y Gronfa Bensiwn o'r Buddsoddiadau tymor byr a'r adnau arian ar 31 Mawrth 2013 oedd £7.4m (£3.4m ar 31 Mawrth 2012).

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuon y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddosbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o gronfeydd yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd arweiniol. Cred y Cyngor ei fod wedi rheoli pa mor agored ydyw i risg credyd a dim ond un profiad o ddiffygdalu neu adneuon nad oes modd eu hadennill sydd ganddo, sef pan roddwyd Banc Heritable yn nwylo'r gweinyddwyr yn 2008. Gweler manylion llawn yn Nodyn 26.

Nid yw cyflogwyr y gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i arbed y risg o golledion ariannol i'r gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiadau pensiwn pe byddai'n ymadael â'r gronfa. Fel y dangosir yn nodyn 25 isod mae tri chyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiadau ar y gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraidd yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 Rheoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008, rhwng y prisiad a gynhelir bob tair blynedd.

**c) Risg Hylifedd**

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y gronfa bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymiadau. Bydd hyn yn hynod wir am arian parod o'r mandadau cydweddu arian parod o'r brif strategaeth fuddsoddi i fodloni'r costau talu pensiynwyr; ac arian parod i fodloni ymrwymiadau buddsoddi.

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddol system rheoli llif arian gynhwysfawr sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dros dro yn cael ei fuddsoddi gan yr Awdurdod Gweinyddol yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grwp yr Awdurdod Gweinyddol. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleuster hwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur yw'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

Mae'r gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod hwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Fel ar 31 Mawrth 2013, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £117m, sy'n cynrychioli 10.1% o gyfanswm asedau'r gronfa (31 Mawrth 2012: £116m, a oedd yn cynrychioli 11.2% o gyfanswm asedau'r gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r gronfa.

Mae'r holl rwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2013 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2012.

**Risg ail ariannu**

Y risg allweddol yw y bydd y Cyngor wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o offerynnau ariannol ei gronfa bensiwn pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Cyngor unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

## NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008, mae actiwari'r gronfa yn ymgymryd â phrisiad bob tair blynedd er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2010. Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud ar brisiad 31 Mawrth 2013, a disgwylir y canlyniadau ganol mis Tachwedd.

Mae elfennau allweddol y polisi cyllido fel a ganlyn:

- sicrhau hydaledd hirdymor y gronfa (a chyfradd y gronfa sydd i'w phriodoli i gyflogwyr unigol)
- sicrhau bod digon o arian ar gael i fodloni'r holl rwymedigaethau pensiwn wrth iddynt ddod yn daladwy
- peidio â gosod rhwystrau diangen ar strategaeth fuddsoddi'r gronfa fel y gall yr Awdurdod Gweinyddu geisio cael yr enillion mwyaf ar fuddsoddiadau (ac felly leihau cost y buddion) am lefel briodol o risg
- cynorthwyo cyflogwyr i adnabod a rheoli ymrwymiadau pensiwn wrth iddynt gronni
- isafu'r raddfa o newid byrdymor yn lefel cyfraniadau pob cyflogwr pan fo'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn benodol i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn sgil cyflogwr yn diffygdalu ei rwymedigaethau pensiwn
- ymdrin â gwahanol nodweddion y cyflogwyr neu'r grwpiau o gyflogwyr gwahanol cyhyd ag y bo hyn yn ymarferol a chost effeithiol.

Y nod yw cyflawni 100% o hydaledd dros gyfnod o 20 mlynedd a chael sefydlogrwydd yng ngraddfeydd cyfraniadau cyflogwyr drwy ledaenu unrhyw gynnydd mewn graddfeydd dros gyfnod o amser. Fel arfer, gwneir hyn dros dair blynedd ond gellir caniatáu cyfnod hwy mewn rhai achosion. Ceir hydaledd pan fo'r cronfeydd a ddelir, ynghyd â'r enillion a ddisgwylir ar fuddsoddiadau a chyfraniadau yn y dyfodol, yn ddigonol i fodloni'r buddion pensiwn sy'n daladwy a ragwelir ar gyfer y dyfodol.

Ym mhrisiad actiwaraidd 2010, aseswyd bod y gronfa wedi'i chyllido 84% (84% ym mhrisiad Mawrth 2007). Roedd hyn gyfwerth â diffyg o £183m (prisiad 2007: £160m) ar y pryd.

Cyflwynwyd y cynnydd mewn cyfraniadau yn raddol, fel a ganlyn:

- Mae cyrff sydd â phwerau codi trethi yn agored i gynnydd o ddim mwy na 0.5% y flwyddyn. Pe byddai'r raddfa gyfraniadau'n lleihau yn y dyfodol, byddai'r cyrff hyn yn agored i leihad o ddim mwy na 0.5% hefyd.
- Symudodd cyflogwyr gyda chynnydd o 0.5% neu lai yn eu cyfraniadau ym mhrisiad 2010 i dalu ar y raddfa newydd ar unwaith. Gan fod y cynnydd dros 3% mewn rhai achosion, roedd dewis ar gael i gyflwyno'r cynnydd yn raddol dros 6 mlynedd gyda chynnydd o 0.5% o leiaf bob blwyddyn hyd nes y cyflawnwyd y cynnydd llawn, yn amodol ar foddhad cyffredinol yr Awdurdod Gweinyddu o ran diogelwch y gronfa.
- Nid yw Cyrff Gwerth Gorau a Ganiateir yn gymwys i gyflwyno cynnydd mewn cyfraniadau yn raddol.

Y gyfradd gyfraniadau cyffredin ar gyfer y gronfa gyfan, yn seiliedig ar y lefel gyllido ar 31 Mawrth 2010 yw 17.1% ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol a 5.0% pellach i ariannu diffyg mewn gwasanaeth yn y gorffennol, sy'n rhoi cyfanswm cyfradd o 22.1%. Mae'r gyfradd gyfraniadau cyffredin yn ffigwr damcaniaethol - fel cyfartaledd ar draws y gronfa gyfan. Bydd cyfraddau cyflogwyr unigol yn amrywio o'r gyfradd gyfraniadau cyffredin, yn dibynnu ar y ffactorau demograffig ac actiwaraidd sy'n berthnasol i bob cyflogwr. Gweler manylion llawn ynghylch y cyfraddau cyfraniadau sy'n daladwy yn adroddiad prisiad actiwaraidd 2010 a'r datganiad strategaeth gyllido ar wefan y gronfa.

Cynhaliwyd prisiad y gronfa gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau ar gyfer y gronfa yn ei chyfanrwydd a chyflogwyr sy'n parhau i ganiatáu i aelodau newydd ddod yn rhan o'r gronfa a'r dull cyrraedd oed ar gyfer cyflogwyr nad ydynt yn parhau i ganiatáu i aelodau newydd ddod yn rhan o'r gronfa. Rhagdybir bod cyflog pob aelod yn codi hyd nes iddynt adael gwasanaeth gweithredol yn dilyn eu marwolaeth, eu hymddeoliad neu wrth iddynt dynnu'n ôl o'r gwasanaeth. Y prif ragdybiaethau oedd:

**Rhagdybiaethau ariannol**

| | **% y flwyddyn** |
|---|---|
| Enillion ar fuddsoddiadau | |
| Ecwiti | 6.25 |
| Bondiau | 4.75 |
| 75% Ecwiti / 25% Bondiau | 5.9 |
| Cynnydd mewn cyflog (ac eithrio hicyn cyflog)* | 5.3 |
| Chwyddiant prisiau / Cynnydd mewn pensiwn | 3.3 |

* 1% y flwyddyn ar gyfer 2010/11 a 2011/12 ac yn newid i 5.3% wedi hynny.

**Rhagdybiaethau marwolaeth**

Roedd disgwyliad oes yn y dyfodol, yn seiliedig ar adolygiad marwolaeth yr actiwari ar gyfer y gronfa, fel a ganlyn:

| **Rhagdybiaethau marwolaeth yn 65 mlwydd oed** | **Gwryw** | **Benyw** |
|---|---|---|
| Pensiynwyr cyfredol | 20.5 | 23.0 |
| Pensiynwyr y dyfodol (tybir eu bod yn 45 mlwydd oed ar hyn o bryd) | 23.3 | 25.6 |

**Rhagdybiaethau marwolaeth hanesyddol**

Mae'r rhagdybiaethau disgwyliad oes a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 31 Mawrth 2010 yn gyfres bwrpasol o VitaCurves sydd wedi'u teilwra'n benodol i gyd-fynd â phroffil aelodau'r gronfa. Mae'r VitaCurves hyn yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r lwfansau ar gyfer disgwyliad oes yn y dyfodol fel a ganlyn:

| **Rhagdybiaethau hirhoedledd** | **31 Mawrth 2010** |
|---|---|
| Hirhoedledd – gwaelodlin | VitaCurves |
| Hirhoedledd – gwelliannau | Carfan ganolig gyda gwelliant o 1% fan leiaf o 2007. |

**Rhagdybiaethau cymudiad**

Rhagdybir y bydd pensiynwyr y dyfodol yn dewis cyfnewid pensiwn am arian parod di-dreth ychwanegol o hyd at 50% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth hyd at 31 Mawrth 2008 a 75% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth o 1 Ebrill 2008.

## NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido bob tair blynedd, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r gronfa bensiwn, yn seiliedig ar IAS19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddaru rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddaru'r rhagdybiaethau actiwaraidd (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 18) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau IAS19 a FRS17 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi prisio buddion salwch a marwolaeth yn unol ag IAS19.

Roedd gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo ar 31 Mawrth 2013 yn £1,667m (£1,342m ar 31 Mawrth 2012). Mae'r holl fuddion ymddeol yn arhosol. Nid yw cyfrifon y gronfa'n ystyried yr ymrwymiadau i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol.

Mae'r ymrwymiadau uchod wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar IAS19 ac felly maent yn wahanol i ganlyniadau'r prisiad cyllido bob tair blynedd a gynhaliwyd yn 2010 (gweler Nodyn 18) gan fod IAS 19 yn nodi cyfradd ddisgownt yn hytrach na chyfradd sy'n adlewyrchu cyfraddau'r farchnad.

### Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

| | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2012** |
|---|---|---|
| **Rhagdybiaeth** | % | % |
| Chwyddiant / cyfradd cynnydd mewn pensiwn | 2.8 | 2.5 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflog* | 5.1 | 4.8 |
| Cyfradd ddisgownt | 4.5 | 4.8 |

*Cynnydd cyflog 1% y.f. enwol ar gyfer y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2015 yn dychwelyd i'r gyfradd tymor hir wedyn.

## NODYN 20 – ASEDAU CYFREDOL

| **2011/12** | | **2012/13** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 1,096 | Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr | 753 |
| 3,575 | Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr | 2,584 |
| 0 | Gwerthoedd trosglwyddo a dderbynnir (rhai sy'n ymuno) | 0 |
| 1,739 | Amrywiol Ddyledwyr | 2,879 |
| **6,410** | **Cyfanswm Dyledwyr** | **6,216** |
| 3,086 | Arian | 7,466 |
| **9,496** | **Cyfanswm** | **13,682** |

**Dadansoddiad o ddyledwyr**

| 2011/12 £'000 | | 2012/13 £'000 |
|---|---|---|
| 1,902 | Awdurdod Gweinyddol | 1,918 |
| 709 | Cyrff llywodraeth ganolog | 1,394 |
| 2,566 | Awdurdodau lleol eraill | 1,347 |
| 3 | Cyrff GIG | 3 |
| 1,230 | Endidau ac unigolion eraill | 1,554 |
| **6,410** | **Cyfanswm** | **6,216** |

## NODYN 21 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

| 2011/12 £'000 | | 2012/13 £'000 |
|---|---|---|
| 1,431 | Amrywiol gredydwyr | 1,616 |
| 0 | Gwerthoedd trosglwyddo sy'n daladwy (rhai sy'n ymadael) | 0 |
| 1,810 | Buddion sy'n daladwy | 1,557 |
| **3,241** | **Cyfanswm** | **3,173** |

**Dadansoddiad o gredydwyr**

| 2011/12 £'000 | | 2012/13 £'000 |
|---|---|---|
| 887 | Awdurdod Gweinyddol | 866 |
| 14 | Cyrff llywodraeth ganolog | 15 |
| 0 | Awdurdodau lleol eraill | 5 |
| 2,340 | Endidau ac unigolion eraill | 2,287 |
| **3,241** | **Cyfanswm** | **3,173** |

## NODYN 22 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

| | Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2013 £'000 | Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Clerical Medical | 2,734 | 2,380 |
| Equitable Life | 413 | 454 |
| Standard Life | 189 | 215 |
| **Cyfanswm** | **3,336** | **3,049** |

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r tri rheolwr fel a ganlyn:

| | 2012 / 2013 £'000 | 2011 / 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Clerical Medical | 372 | 343 |
| Equitable Life | 1 | 0 |
| Standard Life | 12 | 13 |
| **Cyfanswm** | **385** | **356** |

## NODYN 23 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

### Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gref rhwng y Cyngor a'r gronfa bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £835,101 (£891,420 yn 2011/12) mewn perthynas â gweinyddu'r gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r gronfa bensiwn a chyfrannodd £16.65m tuag at y gronfa yn 2012/13 (£16.02m yn 2011/12). Ar ddiwedd y flwyddyn £1,918,000 oedd dyled y Cyngor i'r gronfa (gweler nodyn 20) yn bennaf mewn perthynas â chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2013 a £866,000 oedd dyled y gronfa i'r Cyngor (gweler nodyn 21) yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau gan y Cyngor.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc a ddelir fel rhan o Grwp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grwp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2012/13, roedd y gronfa yn derbyn llog o £86,481 (£156,562 yn 2011/12) gan Gyngor Gwynedd.

### Llywodraethu

Roedd 2 aelod o'r pwyllgor pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2012/13 (yr aelodau pwyllgor T. Edwards ac P. Jenkins). Yn ogystal, mae aelodau pwyllgor T. Edwards, P. Jenkins, D. Meurig a W.T. Owen yn aelodau gweithredol o'r gronfa bensiwn.

Mae dau uwch reolwr Cyngor Gwynedd sydd mewn swyddi allweddol yng nghyswllt rheolaeth ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn (D O Williams ac D L Edwards).

Mae un aelod o'r pwyllgor pensiynau a dau brif swyddog Cyngor Gwynedd wedi datgan diddordeb mewn cyrff sy'n ymdrin â'r Gronfa. Ym mhob achos, roedd y cyrff yn gyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa.

## NODYN 24 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymiadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

| | Cyfanswm ymrwymiadau €'000 | Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2013 €'000 | Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2012 €'000 |
|---|---|---|---|
| P.G. Direct 2006 | 20,000 | 1,384 | 1,384 |
| P.G. Global Value 2006 | 50,000 | 4,592 | 5,832 |
| P.G. Secondary 2008 | 15,000 | 1,960 | 2,680 |
| P.G. Global Value 2011 | 15,000 | 10,657 | 11,345 |
| P.G. Global Infrastructure 2012 | 40,000 | 36,213 | 0 |
| **Cyfanswm Ewro** | **140,000** | **54,806** | **21,241** |
| | **$'000** | **$'000** | **$'000** |
| **P.G. Emerging Markets 2011** | **7,000** | **5,268** | **5,971** |

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at Partners Group, y rheolwr buddsoddi sy'n buddsoddi mewn asedau 'amgen' (ecwiti preifat ac is-adeiladwaith) ar ran y Gronfa.

Mae'r ymrwymiadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

## NODYN 25 - ASEDAU WRTH GEFN

Mae tri o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y gronfa bensiwn ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn diffygdalu.

## NODYN 26 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

### a) Amhariadau am ddyledion drwg ac amheus

Fel y esbonnir yn Nodyn 5 nid oes unrhyw amhariad wedi ei gwneud ar gyfer dyledion drwg ac amheus.

### b) Amhariad yr adneuon ym Manc Gwlad yr Iâ

Roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban yn ystod 2008/09. Roedd £565,200 o'r buddsoddiad hwnnw'n perthyn i'r gronfa bensiwn.

Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Amlinellwyd yn yr adroddiad cynnydd credydwyr a gyhoeddwyd gan y gweinyddwyr Ernst and Young, dyddiedig 17 Ebrill 2009, y byddai credydwyr yn adennill 80c yn y £ erbyn diwedd 2013, gyda'r taliad difidend cyntaf o 15c yn y £ yn cael ei dalu yn ystod haf 2009. Dyma oedd y sail ar gyfer cau cyfrifon 2008/09. Hyd 31 Mawrth 2013, mae'r Cyngor wedi adennill £3,105,729 gan y gweinyddwyr a bellach mae'r gweinyddwyr yn disgwyl adennill

88c yn y £ erbyn dechrau 2014. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, mae'r gostyngiad yng ngwerth y cyfrifon yn seiliedig ar adennill 88c yn y £.

Mae'r canrannau a dderbyniwyd hyd yn hyn fel a ganlyn:

| **Dyddiad** | % |
|---|---|
| Gorffennaf 2009 | 16.13 |
| Rhagfyr 2009 | 12.66 |
| Mawrth 2010 | 6.19 |
| Gorffennaf 2010 | 6.27 |
| Hydref 2010 | 4.14 |
| Ionawr 2011 | 4.71 |
| Ebrill 2011 | 6.25 |
| Gorffennaf 2011 | 4.05 |
| Hydref 2011 | 4.18 |
| Ionawr 2012 | 3.32 |
| Ebrill 2012 | 3.79 |
| Awst 2012 | 2.85 |
| Ionawr 2013 | 2.71 |
| **Cyfanswm 31 Mawrth 2013** | **77.25** |

Rhagwelir y bydd mwy o ad-daliadau ac y bydd gwerthiant terfynol o'r asedau yn digwydd ar ôl i'r llyfrau cael eu rhedeg i lawr at ganol 2013. Felly, wrth gyfrifo'r amhariad, mae'r Cyngor wedi gwneud y tybiaethau canlynol ynghylch amseriad yr adenillion dilynol:

| **Dyddiad** | % |
|---|---|
| Gorffennaf 2013 | 2.00 |
| Ionawr 2014 | 8.80 |
| **Cyfanswm** | **10.80** |

Mae cyfran berthnasol o gynnydd yr amhariad (£2,723) a'r cynnydd y llog tybiannol (£4,597) wedi'i ddynodi i'r Gronfa Bensiwn.

Wrth gwrs, gallai'r gwir golled erbyn dechrau 2014 fod yn fwy neu'n llai na'r golled bosib a amcangyfrifir uchod, ac efallai yn sylweddol llai gan gofio fod amcangyfrifon swyddogol y gweinyddwyr o gwmnïau sydd mewn trafferthion yn hynod geidwadol. Fodd bynnag, amcangyfrifir yr amhariad yn unol â'r dehongliad cytunedig o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2013.

## NODYN 27 - ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL

Gwnaethpwyd addasiadau talgrynnu i rai ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn Nodiadau 15, 16 a 17 er mwyn sicrhau cysondeb dros yr holl dablau.

# 8. ATODIADAU

## CRONFA BENSIWN GWYNEDD
## DATGANIAD POLISI CYFATHREBU

**Fersiwn Mawrth 2010**

### 1. Cyflwyniad

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi'i hymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel i'w chwsmeriaid, a hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost effeithiol, yn unol â gofynion rheolaethol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am weinyddu'r Gronfa ar gyfer dros 40 o Gyrff Cyflogi, yn cynnwys ei weithwyr ei hun a staff dau Gorff Unedol arall.

Ar Fawrth 1af 2010, roedd aelodaeth y Gronfa fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Aelodau gweithredol | 14,885 |
| Aelodau sy'n bensiynwyr | 6,185 |
| Aelodau gohiriedig | 6,223 |

Mae Datganiad Polisi Cyfathrebu Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi'i lunio er mwyn sicrhau llwybr cyfathrebu clir gyda holl fudd-ddeiliaid y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd yn cael ei adolygu'n barhaus ac yn cael ei addasu pan fo newid perthnasol yn y polisi.

Mae'r budd-ddeiliaid yn cynnwys:

- Aelodau sy'n cyfrannu at y Cynllun
- Aelodau gohiriedig
- Aelodau sy'n bensiynwyr
- Darpar aelodau'r Cynllun
- Cyrff Cyflogi
- Trethdalwyr

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r polisi ar gyfer darparu gwybodaeth a sut y mae'r Gronfa'n bwriadu cyhoeddi a hyrwyddo'r Cynllun i bob grŵp.

Mae pob un o gyhoeddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ddwyieithog, yn unol â Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Y bwriad yw bod ymatebion prydlon yn cael eu rhoi i geisiadau, a bod yr ymatebion hynny'n ffeithiol, mewn iaith syml, ac wedi'u cyflwyno mewn dull sy'n briodol ar gyfer y derbynnydd.

Pan fo gan unigolion anghenion penodol o ran fformat y wybodaeth, cymerir camau i sicrhau bod y fformat priodol ar gael, megis *Braille*, sain, a phrint bras. Efallai y bydd gwybodaeth mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

Pan wyddys am newidiadau deddfwriaethol i'r Cynllun ymlaen llaw, bydd gweithdrefnau'n cael eu rhoi yn eu lle er mwyn gweithredu'r newidiadau hynny yn y dull mwyaf effeithiol.

Mae holl gyfathrebiadau'r Gronfa'n cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau ynghylch:

- Cyfrinachedd
- Dadleniad
- Rhyddid Gwybodaeth

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cymryd rhan weithredol gyda'r chwe Chronfa Bensiwn arall yng Nghymru, er mwyn cynhyrchu dogfennau a gwybodaeth ysgrifenedig gyffredin a chyson ar gyfer y Cynllun.

## Cyfathrebu gydag aelodau sy'n cyfrannu

Aelodau sy'n cyfrannu at y cynllun yw'r aelodau hynny sy'n cyfrannu at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol trwy un o'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd. Disgrifir y dulliau o gyfathrebu gyda'r aelodau hyn isod.

**Datganiadau Buddion Blynyddol**

Mae Datganiad Buddion Blynyddol yn cael ei anfon i gyfeiriad cartref pob un o aelodau'r cynllun, sy'n rhoi manylion ynghylch y buddion y maent wedi'u cronni hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol ac mae'n nodi rhagamcan o'r buddion a fydd yn daladwy pan fydd yr aelod yn 65 mlwydd oed. Yn ogystal, mae'r datganiad yn cynnwys hanes gwasanaeth yr aelod, manylion ynghylch eu cyflog a nodiadau egluro ynghylch sut y mae'r buddion yn cael eu cyfrifo. Bydd datganiadau yn y dyfodol yn cynnwys rhagamcan Pensiwn y Wladwriaeth a bydd datganiadau a gyflwynir o 2010/2011 yn cynnwys rhagamcan o'r buddion pensiwn y byddai'r aelod yn ei dderbyn o Gronfa Bensiwn Gwynedd pe bai'n ymddeol yn 60 mlwydd oed (bydd y ffigyrau'n cynnwys unrhyw ostyngiad perthnasol am dalu'r buddion yn gynnar). Bydd gan bob datganiad lythyr eglurhad hefyd a bydd yn cynnwys ffurflen adborth i aelodau ei chwblhau er mwyn nodi unrhyw ymholiadau neu sylwadau y mae ganddynt o ran eu datganiad.

**Gwefan**

Lansiwyd gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd ym mis Mawrth 2009 ac mae'n cynnwys adran benodol ar gyfer aelodau presennol y cynllun. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae rhan benodol ar y wefan sy'n cyfeirio at gwestiynau a ofynnir yn aml. Mae'r wefan yn parhau i gael ei datblygu ac erbyn mis Mawrth 2010, bydd yn cynnwys adran Bensiynau Rhyngweithiol a bydd hyn yn gadael i aelodau'r cynllun weld eu manylion pensiwn, diweddaru eu manylion personol a gwneud amrediad o gyfrifiadau ar-lein. Mae rhan benodol ar Gynllun Pensiwn Cynghorwyr wedi cael ei hychwanegu ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd ers mis Rhagfyr 2009.

**Gwybodaeth Ysgrifenedig y Cynllun**

Cynhyrchwyd canllaw byr i'r cynllun yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn 2008. Mae'r canllaw byr i'r cynllun yn rhoi gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac fe'i rhoddir i bob cyflogai newydd (trwy eu cyflogwr) ac fe'i rhoddir i aelodau presennol y cynllun, ar gais. Yn ogystal, mae copïau o ganllaw'r cynllun ar gael mewn *Braille,* print bras a sain.

Yn ogystal, mae amrywiaeth o daflenni gwybodaeth ar gyfer aelodau'r cynllun wedi'u cynhyrchu, ac mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth ynghylch materion sy'n ymwneud â Phensiwn Llywodraeth Leol. Mae rhestr gyflawn o'r holl daflenni gwybodaeth sydd ar gael wedi'i nodi dan y rhan cyhoeddiadau ar dudalen 11 y llyfryn hwn, ac fe ddylai taflen wybodaeth ychwanegol sy'n rhoi gwybodaeth ar drosglwyddo pensiynau blaenorol fod ar gael erbyn diwedd 2010. Yn ogystal, mae DVD sy'n rhoi gwybodaeth am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn rhoi amlinelliad o'r newidiadau a wnaed i'r rheoliadau yn 2008, ar gael i aelodau'r cynllun.

**Newyddlenni**

Mae newyddlenni papur yn cael eu hanfon i gyfeiriad cartref pob aelod sy'n cyfrannu at y cynllun yn ôl yr angen pan fo angen rhoi gwybod i aelodau am newidiadau yn rheoliadau'r cynllun.

**Sioeau Teithiol Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gael i fod yn bresennol mewn digwyddiadau cyflogwyr ac i ddarparu stondin pensiynau er mwyn i aelodau'r cynllun fedru trafod unrhyw faterion pensiwn gyda staff yr adain bensiynau. Yn ogystal, bydd amrediad eang o wybodaeth ysgrifenedig a ffurflenni cyffredinol y cynllun ar gael yn ystod y digwyddiadau hyn.

## Cyfathrebu gydag aelodau sy'n cyfrannu - parhad...

**Cyflwyniadau**
Mae'r Uned Gweinyddu Pensiynau bob amser ar gael i roi sgyrsiau neu gyflwyniadau ynghylch y cynllun.

Mae cyfres o seminarau cyn ymddeol yn bodoli'n barod – wedi'u trefnu gan bartneriaeth o gynghorau gogledd Cymru a'u llwyfannu gan Chadwick Mclean, cwmni o ymgynghorwyr ariannol o Gaer. Bob yn ail, mae unedau Gweinyddu Pensiynau Gwynedd a Sir y Fflint yn darparu cyflwyniadau ar y cynllun pensiwn llywodraeth leol yn y digwyddiadau hyn.

Yn ogystal, cynhelir cyflwyniadau yn ôl yr angen er mwyn rhoi gwybodaeth i gyfranwyr presennol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac fe'u defnyddir fel modd o gyflwyno aelodau'r cynllun i newidiadau mawr yn rheoliadau'r cynllun. Ar gais cyflogwyr, gellir cynnal sesiynau gwybodaeth arbenigol i aelodau sy'n cael eu heffeithio gan drosglwyddiad swmpus o bensiynau o'r CPLIL i ddarparwyr pensiynau eraill. Mae cyflwyniadau arbenigol a roddwyd gan Swyddogion Cyfathrebu'r uned bensiynau a chynrychiolydd o ddarparwyr AVC Cronfa Bensiwn Gwynedd, hefyd wedi'u cynnal er mwyn rhoi gwybodaeth i aelodau'r cynllun ar y dulliau o wella buddion pensiwn.

**Sesiynau Ymgynghori (apwyntiadau unigol)**
Mae Swyddogion Cyfathrebu'r Uned Bensiynau yn cynnal sesiynau ymgynghori unigol ar gyfer aelodau'r cynllun, ar gais cyflogwyr y cynllun. Fel arfer, cynhelir sesiynau ymgynghori ar safleoedd y gweithwyr ac maent yn rhoi'r cyfle i aelodau'r cynllun dderbyn gwybodaeth gyffredinol a phenodol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am eu Pensiwn Llywodraeth Leol.

Yn ogystal, gall aelodau Cronfa Bensiwn Gwynedd drefnu apwyntiad er mwyn cael cyfarfod unigol gydag aelod o staff o'r adain bensiynau yn y swyddfa bensiynau yng Nghaernarfon.

Mewn rhai achosion (e.e. salwch terfynol), bydd cynrychiolydd o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ymweld ag aelod yn eu cartref, ar gais eu cyflogwr.

**Llinell Gymorth Pensiynau**
Mae un rhif wedi'i sefydlu ar gyfer yr holl ymholiadau pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer derbyn ymholiadau ar e-bost.

**Pecyn Ymddeol**
Pan fyddant yn ymddeol, bydd aelodau'n derbyn llythyr sy'n nodi'r buddion sy'n daladwy o'r cynllun. Yn ogystal, anfonir ffurflenni atynt y mae disgwyl iddynt eu llenwi fel y gellir dechrau talu'r buddion. Mae'r Adain Bensiynau'n bwriadu datblygu'r pecyn ymddeol fel ei fod yn cynnwys taflen sy'n nodi arni wybodaeth berthnasol i'r rhai sy'n ymddeol o'r cynllun. Bydd y daflen ar gael o fis Ebrill 2010.

**Ymgyrch Posteri**
Mae'r adain bensiynau yn bwriadu cynhyrchu poster sy'n nodi'r dewisiadau sydd ar gael i gynyddu buddion pensiwn trwy'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Dylai'r posteri fod ar gael o fis Mehefin 2010, a byddant yn cael eu dosbarthu i gyflogwyr fel y gellir eu harddangos yn safleoedd gwaith y gweithwyr.

**Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (*GDAM)***
Mae dogfen wedi ei chynhyrchu eisoes sy'n ymdrin â cham 1 o'r GDAM a cheir copi o'r ddogfen pan wneir cais.

## Cyfathrebu gydag aelodau gohiriedig

Aelodau gohiriedig yw'r rhai sydd wedi gadael eu cyflogaeth â chyflogwr y cynllun ac sydd â buddion wedi'u cadw yn y cynllun. Nodir y dulliau o gyfathrebu gydag aelodau gohiriedig isod.

**Datganiad Buddion Gohiriedig**

Anfonir Datganiad Buddion Gohiriedig blynyddol at aelodau sydd â buddion wedi'u cadw yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r datganiad yn rhoi amlinelliad cyfredol o werth buddion yr aelod ac yn cynnwys ffurflen adborth ble y gall aelodau nodi unrhyw ymholiadau neu sylwadau sydd ganddynt ynghylch eu datganiad.

**Gwefan**

Mae rhan benodol ar gyfer aelodau gohiriedig wedi'i chynnwys ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r rhan ar gyfer aelodau gohiriedig yn darparu gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n berthnasol i aelodau gohiriedig ac mae rhan benodol ar y wefan sy'n cyfeirio at gwestiynau a ofynnir yn aml. Mae'r wefan yn parhau i gael ei datblygu ac erbyn mis Mawrth 2010, bydd yn cynnwys adran Rhyngweithiol a bydd hyn yn gadael i aelodau gohiriedig weld eu manylion pensiwn, diweddaru eu manylion personol a chyfrifo'r gostyngiadau perthnasol ar gyfer dyddiadau ymddeol gwahanol o pan fyddant yn 60 mlwydd oed ymlaen.

Gall aelodau cynghorwyr gohiriedig gael at y rhan sy'n berthnasol i Gynghorwyr ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

**Newyddlenni**

Mae newyddlenni papur yn cael eu hanfon i gyfeiriad cartref pob aelod gohiriedig yn ôl yr angen pan fo angen rhoi gwybod i aelodau am newidiadau yn rheoliadau'r cynllun.

**Apwyntiadau Unigol**

Gall aelodau gohiriedig Cronfa Bensiwn Gwynedd drefnu apwyntiad er mwyn cael cyfarfod unigol gydag aelod o staff o'r adain bensiynau yn y swyddfa bensiynau yng Nghaernarfon.

Mewn rhai achosion (e.e. salwch terfynol), bydd cynrychiolydd o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ymweld ag aelod yn eu cartref, ar gais eu cyflogwr, yr unigolyn neu gynrychiolydd yr unigolyn.

**Llinell Gymorth Pensiynau**

Mae un rhif wedi'i sefydlu ar gyfer yr holl ymholiadau pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer derbyn ymholiadau ar e-bost.

**Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (*GDAM)***

Mae dogfen wedi ei chynhyrchu eisoes sy'n ymdrin â cham 1 o'r GDAM a cheir copi o'r ddogfen pan wneir cais.

## Cyfathrebu gyda Phensiynwyr

Mae pensiynwyr yn cynnwys aelodau sydd wedi ymddeol a dibynyddion yr aelodau sydd wedi marw. Nodir y dulliau o gyfathrebu gyda phensiynwyr isod.

**Gwefan**

Mae rhan benodol i aelodau sy'n bensiynwyr wedi ei chyflwyno ar wefan Gronfa Bensiwn Gwynedd ers mis Rhagfyr 2009. Mae'r rhan i bensiynwyr yn darparu gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n berthnasol i aelodau sy'n bensiynwyr ac mae yno ran gyda chwestiynau a ofynnir yn aml. Erbyn mis Mawrth 2010, bydd y rhan i bensiynwyr ar y wefan yn cynnwys rhan Pensiynau ar-lein a bydd hyn yn gadael i bensiynwyr weld manylion eu pensiwn a diweddaru eu manylion personol.

**Slipiau talu a P60**

Anfonir slip talu i bensiynwyr pan fo newid o 50c neu fwy yn eu taliad net o'i gymharu â'r mis blaenorol. Mae pob pensiynwr yn derbyn cyfuniad o P60 a slip talu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

**Hysbysiad o'r Cynnydd Pensiwn**

Pob mis Ebrill, bydd pensiynwyr yn derbyn hysbysiad yn rhoi gwybod iddynt am y Cynnydd Pensiwn a fydd yn cael ei weithredu ar eu pensiwn (os yw'n berthnasol) a byddant yn derbyn cadarnhad o'r dyddiadau talu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Apwyntiadau Unigol**

Gall yr aelodau o Gronfa Bensiwn Gwynedd sy'n bensiynwyr drefnu apwyntiad er mwyn cael cyfarfod unigol gydag aelod o staff o'r adain bensiynau yn y swyddfa bensiynau yng Nghaernarfon.

**Llinell Gymorth Pensiynau**

Mae un rhif wedi'i sefydlu ar gyfer yr holl ymholiadau pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer derbyn ymholiadau ar e-bost.

**Llongyfarchiadau ar Ben-blwydd**

O 1 Ionawr 2010, bydd pensiynwyr sy'n dathlu eu pen-blwydd yn 100 oed yn derbyn cerdyn pen-blwydd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.  Mae hyn yn cynnwys pensiynwyr a fu'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a phensiynwyr sy'n derbyn Pensiwn Llywodraeth Leol gŵr/gwraig weddw.

**Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (*GDAM)***

Mae dogfen wedi ei chynhyrchu eisoes sy'n ymdrin â cham 1 o'r GDAM a cheir copi o'r ddogfen pan wneir cais.

## Cyfathrebu gyda darpar aelodau

Darpar aelodau yw gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ond sydd wedi penderfynu peidio ag ymuno. Nodir y dulliau o gyfathrebu gyda darpar aelodau isod.

### Canllaw'r Cynllun

Mae cyflogwyr y cynllun yn rhoi canllaw byr i'r cynllun, sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, i bob gweithiwr newydd (sy'n gymwys i ymuno â'r cynllun). Mae copïau o ganllaw'r cynllun ar gael (ar gais) mewn *Braille,* print bras a sain.

### Gwefan

Gall darpar aelodau'r cynllun dderbyn gwybodaeth gyffredinol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol oddi ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd. Yn ogystal, mae rhan sy'n ateb cwestiynau a ofynnir yn aml i'w chael ar y wefan sy'n berthnasol i rai sy'n ystyried ymuno â'r cynllun ai peidio.

### Sesiynau Ymgynghori (apwyntiadau unigol)

Mae Swyddogion Cyfathrebu'r Uned Bensiynau yn cynnal sesiynau ymgynghori unigol ar gyfer aelodau'r cynllun, a darpar aelodau'r cynllun, ar gais cyflogwyr y cynllun. Fel arfer, cynhelir sesiynau ymgynghori ar safleoedd y gweithwyr ac maent yn rhoi'r cyfle i aelodau'r cynllun dderbyn gwybodaeth gyffredinol a phenodol ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt ynghylch ymuno â'r cynllun.

Yn ogystal, gall darpar aelodau drefnu apwyntiad er mwyn cael cyfarfod unigol gydag aelod o staff o'r adain bensiynau yn y swyddfa bensiynau yng Nghaernarfon.

### Sioeau Teithiol Cronfa Bensiwn Gwynedd

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn annog cyflogwyr i gynnwys pensiynau fel rhan o ddigwyddiadau anwytho staff a byddwn yn darparu stondin pensiynau er mwyn i aelodau'r cynllun, a darpar aelodau, ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd amrediad eang o wybodaeth ysgrifenedig a ffurflenni cyffredinol y cynllun ar gael yn ystod y sioeau teithiol.

### Ymgyrch Posteri

Mae'r adain bensiynau yn bwriadu cynhyrchu poster sy'n nodi'r buddion y gellir eu cael trwy ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Dylai'r posteri fod ar gael o fis Mehefin 2010, a byddant yn cael eu dosbarthu i gyflogwyr fel y gellir eu harddangos yn safleoedd gwaith y gweithwyr.

## Cyfathrebu gyda Chyflogwyr

Cyflogwyr y Cynllun yw'r pwynt cyswllt cyntaf i aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Er mwyn i Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod Gweinyddol, redeg y Cynllun yn effeithiol, mae'n hanfodol bod y Cyrff Cyflogi yn ymwybodol o'r wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael, fel bod modd iddynt weithredu eu cyfrifoldebau.

**Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol**

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn benodol ar gyfer Cyflogwyr a Chynrychiolwyr Undeb er mwyn iddynt drafod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol. Mae cynrychiolwyr o gyrff cynghori proffesiynol amrywiol eraill, megis Actwari'r Gronfa a Rheolwyr y Gronfa, yn bresennol hefyd er mwyn ateb cwestiynau ynghylch Cyllid, perfformiad buddsoddiad a Phrisiannau.

**Cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn**

Gwahoddir cynrychiolwyr perthnasol o bob Corff Cyflogi i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd anffurfiol yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd ddwywaith y flwyddyn, er mwyn trafod unrhyw faterion ymarferol ynghylch y Gronfa Bensiwn neu ei gweinyddiaeth. Mae hefyd yn gyfle i drafod unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a fydd yn effeithio arnynt hwy. Mae'r cyntaf o'r cyfarfodydd fforwm pensiynau wedi'u cynnal ym mis Hydref 2009.

Y bwriad yw gwella ansawdd y data a dderbyniwyd gan y ddau barti – y Cyflogwyr a'r Awdurdod Gweinyddu, a chynyddu ansawdd y gwasanaeth er mwyn bodloni anghenion holl aelodau a budd-ddeiliaid y cynllun.

**Cyfarfodydd Hyfforddi Cyflogwyr Unigol**

Gellir trefnu'r cyfarfodydd hyn ar gais y Corff Cyflogi, ar sail unigol, yn hytrach na'r cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn ble y gall pawb fod yn bresennol.

**Seminarau Cyflogwyr**

Gellir trefnu'r rhain pan fo newid sylweddol wedi bod mewn deddfwriaeth. Er enghraifft, ym mis Hydref 2007, cynhaliwyd cyfarfod i Gyrff Cyflogi yn swyddfeydd Gwynedd, wedi'i arwain gan Terry Edwards o gymdeithas Cyflogwyr Llywodraeth Leol a rhoddodd ef gyflwyniad ar sut yr oedd y newidiadau yn y Cynllun Pensiwn o 1 Ebrill 2008, yn effeithio ar Gyflogwyr.

**Cronfa Ddata Cysylltiadau**

Cyflwynir diweddariadau rheolaidd ynghylch unrhyw newidiadau neu newidiadau arfaethedig yn y CPLIL i bob Corff Cyflogi trwy e-bost neu lythyr. Mae cronfa ddata Cysylltiadau'r Cyflogwr yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen yn unol â gwybodaeth a dderbynnir gan Gyflogwyr.

**Cytundebau Partneriaeth Cyflogwyr a Chytundebau Lefel Gwasanaeth**

Y nod yw darparu gwasanaeth o ansawdd i aelodau trwy roi arweiniad ar rwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol a thrwy osod targedau ar gyfer Cyflogwyr a'r Awdurdod Gweinyddu:-

- i ddarparu gwybodaeth gywir
- i weithredu ar yr wybodaeth honno, ac ymateb iddi, o fewn cyfnod penodol o amser

Cytunir ar unrhyw dargedau ar gyfer y Cytundebau Lefel Gwasanaeth, ymlaen llaw.

## Cyfathrebu gyda Chyflogwyr - parhad….

**Canllaw'r Cyflogwyr**

Mae'r Canllaw gweithdrefn ar gyfer Cyflogwyr wrthi'n cael ei gwblhau a bydd yn cael ei gylchredeg ar ffurf copi caled i bob Corff Cyflogi. Bwriedir iddo gael ei ddosbarthu yn ystod 2010/2011 a bydd yn cynorthwyo Cyflogwyr yn eu cyfrifoldebau o ran cynnal data cywir. Gellir darparu nifer cyfyngedig o gopïau ychwanegol. Rhoddir gwybod am ddiweddariadau trwy e-bost a thrwy eu gosod ar y wefan.

**Gwefan**

Lansiwyd gwefan newydd Gwynedd ym mis Mawrth 2009. Yn ogystal, bydd rhan sy'n darparu gwybodaeth benodol i Gyrff Cyflogi ar gael yn 2010/2011 a bydd yn cyd-fynd â chynhyrchu'r Canllaw Cyflogwyr - bydd hwn ymddangos ar y wefan yn ogystal.

Ar hyn o bryd, rhoddir copïau caled o'r dogfennau a ganlyn i gyflogwyr: -

- Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn
- Datganiad Strategaeth Cyllido
- Datganiad Polisi Llywodraethu
- Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi
- Datganiad Polisi Cyfathrebu
- Adroddiad Prisiad pob Tair Blynedd

Yn ogystal, bydd rhain ar gael ar y wefan o 2010 o dan y rhan 'Buddsoddiadau'.

## Cyfathrebu gyda chyrff eraill

**Cynrychiolwyr Aelodau**
Gall y rhain gynnwys unrhyw unigolyn neu grŵp, megis Cyfreithwyr neu Undebau Llafur, yn ceisio gwybodaeth ar ran aelod y Cynllun. Dim ond gyda chaniatâd yr aelod y rhoddir hyn, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Mae holl wybodaeth ysgrifenedig y Cynllun ar gael ar gais.

**Cyrff Allanol**
Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cymryd rhan yn: -

**Grŵp Swyddogion Pensiynau'r Amwythig**
Mae uwch swyddogion pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cyfarfod cynrychiolwyr o Gronfeydd Awdurdod Lleol eraill yn ardal y West Pennines pob chwarter er mwyn rhannu gwybodaeth, trafod cwestiynau ar ddeddfwriaeth a rheoliadau cyffredinol, ynghyd ag unrhyw faterion technegol neu weithdrefnol.

**Grŵp Cymru Gyfan**
Mae'r Grŵp yn cyfarfod yn ôl yr angen, ac yn ceisio ffurfioli ac uno'r dull a ddefnyddir i gyfathrebu o fewn Awdurdodau Llywodraeth Leol Cymru. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, maent wedi cyd-gynhyrchu:

- Datganiadau Buddion Blynyddol Unffurf i aelodau gweithredol a gohiriedig
- Canllaw byr i'r cynllun ar gyfer pob aelod
- Taflen wybodaeth pensiynau ar amrywiol bynciau a ellir ei dosbarthu i aelodau

Yn ogystal, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cyfathrebu â: -

**Actwari'r Cynllun** – o ran y lefelau Cyllido a'r Prisiad Pob Tair Blynedd, SAA17 a'r holl faterion Cyllido.

**Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi** – o ran ffigyrau ar gyfer contractio allan a materion treth i aelodau'r Cynllun.

**Darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (*CGY)*** – Mae swyddogion y Gronfa Bensiwn mewn cyswllt rheolaidd â'i ddarparwyr CGY o ran cronfeydd aelodau unigol y Cynllun.

**Pwyllgor Pensiynau** – o ran adrodd ar weinyddu, rheoliadau a materion buddsoddi er mwyn cynghori a ffurfio polisi.

**Rheolwyr y Gronfa** – o ran buddsoddiadau a pherfformiad y Gronfa.

**PPLIL**– Mae'r Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol (adain bensiynau'r Cyflogwyr Llywodraeth Leol) yn darparu cyngor technegol i Awdurdodau Gweinyddu Cronfeydd Pensiwn ac i gyflogwyr ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

## Cyfathrebu o fewn yr Uned Bensiynau

Mae cyfathrebu'n effeithiol yn rhan bwysig o weithrediadau dyddiol, ac mae polisi drws agored yn ei le.

**Diweddariadau i Staff**

E-bost: E-bost yw'r dull cyfathrebu a ffafrir ar gyfer negeseuon cyffredinol o fewn yr uned. Ble y bo'n angenrheidiol, bydd hyn yn cael ei ddilyn gan hyfforddiant unigol neu hyfforddiant tîm.

Y rhyngrwyd – Mae hwn ar gael i staff unrhyw bryd fel bod modd iddynt gael mynediad at wybodaeth CPLIL yn brydlon.

Hyfforddiant mewnol – Mae hyfforddiant cyffredinol a phenodol ar bensiynau ar faterion sy'n codi o ran newidiadau rheoleiddio neu weithdrefnol yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen, fel rhan o ymrwymiad yr Uned i welliant parhaus.

**Cyrsiau Allanol**

Mae cyflawni cymwysterau proffesiynol yn bwysig i wella gwybodaeth a hyder y tîm o ran eu cyfathrebu gyda budd-ddeiliaid. Felly, anogir pob aelod o staff, presennol a newydd, i astudio am gymwysterau pensiynau Llywodraeth Leol priodol o fewn yr *Institute of Payroll Professionals (IPP),* ynghyd â chymryd rhan yn y cyrsiau hyfforddiant sy'n cael eu cynnal gan CPLIL a Heywood.

**Cyfarfodydd Adain**

Mae pob aelod o'r Uned Bensiynau yn mynychu cyfarfodydd adain rheolaidd sy'n cael eu cynnal pob deufis, er mwyn trafod unrhyw ddatblygiadau mewn deddfwriaeth, ynghyd ag unrhyw newidiadau gweithredol neu weithdrefnol. Golyga hyn fod pob aelod o staff yn ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio ar yr Uned gyfan.

Trafodwyd y Cynllun Gweithredol, yn cynnwys y Dangosyddion Perfformiad Allweddol , yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod aelodau'r tîm yn ymwybodol o'u targedau ac yn eu bodloni.

**Monitro parhaus a gwerthuso**

Mae safonau'r gwasanaeth yn cael eu monitro'n rheolaidd, er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y Cynllun. Pob blwyddyn, mae pob aelod o staff yn derbyn gwerthusiad unigol o ran eu datblygiad personol. Os oes angen, gellir teilwra hyfforddiant mwy manwl ar faterion penodol fel ei fod yn siwtio aelodau'r Uned. Yn ddyddiol, anogir cyfathrebu rhwng aelodau staff a Rheolwyr yr adain ar unrhyw faterion sy'n codi. Mae system llif gwaith awtomataidd yn cael ei gweithredu er mwyn cynorthwyo'r broses monitro, ac er mwyn arwain swyddogion gyda thasgau unigol.

# Cyhoeddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd

### Ffynonellau gwybodaeth y cynllun

| **Dogfen Cyfathrebu** | **Pa bryd y'i cyhoeddwyd / A yw ar gael** |
|---|---|
| Canllaw byr y cynllun | Ar gael bob amser |
| Canllaw cynghorwyr | Ar gael bob amser |
| DVD yn amlinellu'r newidiadau i'r CPLIL yn 2008 | Ar gael bob amser |
| Gwefan | Ar gael bob amser |
| Taflen wybodaeth Absenoldeb Di-dâl gyda chaniatâd | Ar gael bob amser |
| Taflen wybodaeth ynghylch Ychwanegu at eich pensiwn | Ar gael bob amser |
| Taflen wybodaeth Newid eich trefniadau gwaith | Ar gael bob amser |
| Taflen wybodaeth Mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu | Ar gael bob amser |
| Taflen wybodaeth y Rheol 85 mlynedd | Ar gael bob amser |
| Taflen wybodaeth Cymudiad | Ar gael bob amser |
| Taflen Wybodaeth Pensiynau ac Ysgariad neu ddiddymiad Partneriaeth Sifil | Ar gael bob amser |
| Taflen wybodaeth Ymddeoliad Hyblyg | Ar gael bob amser |
| Taflen Wybodaeth Salwch | Ar gael bob amser |
| Taflen wybodaeth Trosglwyddo | Ar gael o 2010 |

# Cyhoeddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd

### Cyhoeddiadau

| Dogfen Cyfathrebu | Pa bryd y'i cyhoeddwyd / A yw ar gael |
|---|---|
| Gweithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol | Ar gael bob amser |
| Poster yn hyrwyddo'r CPLIL | Ar gael o fis Mehefin 2010 |
| Poster cynyddu eich buddion pensiwn | Ar gael o fis Mehefin 2010 |
| Newyddlenni | Yn ôl yr angen |
| Datganiadau buddion blynyddol a datganiadau buddion gohiriedig | Blynyddol |
| Pecyn Ymddeol gyda thaflen wybodaeth pensiynau | Ar gael o fis Ebrill 2010 |
| Canllaw'r Cyflogwr | Ar gael yn ystod 2010/2011 |
| Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol | Blynyddol |
| Adroddiad Prisiant | Pob tair blynedd |
| Polisi Cyfathrebu | Ar gael bob amser |
| Datganiad Strategaeth Cyllido | Ar gael bob amser |
| Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi | Ar gael bob amser |
| Datganiad Polisi Llywodraethu | Ar gael bob amser |
| Datganiad Cydymffurfio – Llywodraethu | Ar gael bob amser |

# CRONFA BENSIWN GWYNEDD

# DATGANIAD POLISI LLYWODRAETHU

# Fersiwn 30/10/08

## Datganiad Polisi Llywodraethu

Mae'r Datganiad yma yn gosod allan sut dirprwyir materion mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Gwynedd, ynghyd â'r amodau gorchwyl, fframwaith a threfn weithredol y dirprwyo hyn.

Cyngor Gwynedd ydi'r Awdurdod Weinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r gwahanol bwerau a dyletswyddau sy'n ymwneud a gweinyddu'r Gronfa i'r Pwyllgor Pensiynau.

## Pwyllgor Pensiynau

Mae gan y Pwyllgor 9 aelod, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd, 1 aelod o Gyngor Môn a 1 aelod o Gyngor Conwy, i gyd gyda hawl pleidleisio. Ar hyn o bryd, nid oes cynrychiolaeth o aelodau'r Gronfa (staff) ar y pwyllgor.

Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor ydi:

1. Pennu strategaeth buddsoddi asedau'r Gronfa Bensiwn;

2. Penodi a therfynu apwyntiad rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr y Gronfa Bensiwn, ac adolygu'r perfformiad o ran buddsoddi;

3. Sicrhau bod trefniadau diogel ac effeithlon mewn llaw ar gyfer prynu, gwerthu a gofalu am fuddsoddiadau'r Cyngor;

4. Gwneud rhai penderfyniadau yng nghyswllt gweinyddu pensiynau.

Fel pwyllgor cyfansoddiadol priodol o Gyngor Gwynedd, llywodraethir gweithrediad y materion a ddirprwyir i'r Pwyllgor gan gyfansoddiad Cyngor Gwynedd, ac yn arbennig felly, Rhannau 4 a 5 sydd yn llywodraethu rheolau'r dulliau a'r Codau a'r Protocolau sydd i'w dilyn, gan aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r swyddogion.

Yn ogystal, cyfrifoldeb y Pwyllgor Pensiynau yw sicrhau fod adroddiad blynyddol ar faterion Pensiynau yn cael ei baratoi a'i gyflwyno mewn cyfarfod blynyddol o gyflogwyr a chynrychiolwyr staff, ble y gall y naill neu'r llall fel ei gilydd, gwestiynu'r Pwyllgor, eu swyddogion, ymgynghorydd buddsoddi neu reolwyr cronfeydd ar faterion yn ymwneud â pherfformiad y Gronfa, gweinyddiaeth a/neu ar faterion pensiynau yn gyffredinol.

Er mwyn sicrhau adolygiad digonol o berfformiad y buddsoddiadau, mae ymgynghorydd buddsoddi'r pwyllgor a phob rheolwr Cronfa yn darparu adroddiad monitro chwarterol i'r Pwyllgor. Yn ogystal, fe gynhelir cyfarfodydd anffurfiol â'r ymgynghorydd buddsoddi a'r rheolwr buddsoddi fel y gellir herio perfformiad a datrys unrhyw achos sydd yn codi ei ben.

Mae gan unrhyw gyflogwr sydd ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Pensiynau gyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Pensiynau drwy gyfres o gyfarfodydd anffurfiol sy'n cael eu cynnal o bryd i'w gilydd gyda'r gwahanol gategorïau o gyflogwyr.

Rhoir ystyriaeth i unrhyw fater sydd angen ystyriaeth ffurfiol mewn cyfarfod priodol o'r Pwyllgor, fel bo dinasyddion yn medru ymarfer eu hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o bwyllgorau'r Cyngor.

## Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau

Mae erthygl 12 o gyfansoddiad y Cyngor yn amodi fod gan y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau gyfrifoldeb dros strategaeth gyllidol ac felly ei fod yn gyfrifol tros gynghori'r Pwyllgor Pensiynau ar strategaethau cyllid priodol ar gyfer y Gronfa Bensiwn, ac am sicrhau fod arweiniad arbenigol priodol yn cael ei ddarparu.

## Prif Swyddog Cyllid

Mae Erthygl 12 hefyd yn amodi bydd y Pennaeth Cyllid (fel Prif Swyddog Cyllid y Cyngor) yn adrodd i'r Cyngor ac i archwiliwr allanol y Cyngor os yw'n ystyried fod unrhyw gynnig, penderfyniad neu weithrediad yn mynd i achosi unrhyw wariant anghyfreithlon, neu yn debyg o achosi colled neu ddiffyg, neu os yw'r Cyngor yn mynd i mewn i gyfrif yn anghyfreithlon.

Dan yr erthygl yma hefyd, mae gan y Pennaeth Cyllid gyfrifoldeb dros weinyddu'r Gronfa Bensiwn a'i weithrediadau cyllidol yn briodol.

## Swyddog Monitro

Mae Erthygl 12 hefyd yn amodi fod y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol (fel Swyddog Monitro'r Cyngor) yn adrodd i'r Cyngor os ydyw yn cysidro fod unrhyw gynnig, penderfyniad neu esgeulustra yn mynd i achosi anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad yn mynd i achosi cam weinyddiaeth. Bydd adroddiad o'r fath yn achosi atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried.

# CRONFA BENSIWN GWYNEDD

# DATGANIAD CYDYMFFURFIAD Â'R DREFN LYWODRAETHOL

## Fersiwn 30/10/08

## Egwyddor A – Strwythur

| | |
|---|---|
| **a)** | **Mae rheolaeth dros weinyddu buddion â rheolaeth strategol asedau'r Gronfa yn disgyn ar y prif bwyllgor a sefydlwyd gan y cyngor penodedig.** |
| | Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma. |
| | |
| **b)** | **Bod cynrychiolwyr o gyflogwyr sy'n rhan o'r CPLIL, o'r cyrff a ganiateir ag aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig) yn aelodau ar unai'r prif neu'r ail bwyllgor, a sefydlwyd i ategu gwaith y prif bwyllgor.** |
| | Mae Cronfa Gwynedd yn rhannol gydymffurfio gyda'r egwyddor yma. Mae cynrychiolwyr o ddau gyflogwr sy'n rhan o'r CPLIL, yn aelodau ar y prif bwyllgor. Ar hyn o bryd, er mwyn ceisio cadw pwyllgor cymharol fychan i adolygu perfformiad y rheolwyr mewn modd effeithiol, does dim cynrychiolaeth o'r cyrff a ganiateir nag aelodau'r cynllun ar y pwyllgor. Gan fod yr addewid o bensiwn yn cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth ar gyfer aelodau'r cynllun, hyd yn hyn ni ystyrir bod gweithrediad y Pwyllgor yn gwrthdaro gyda'u buddiannau, felly nid ydym wedi cynnig cynrychiolaeth iddynt. Mae gan bob cyflogwr gyfle i ddylanwadu penderfyniadau drwy gyfres o gyfarfodydd cyflogwyr anffurfiol. |
| | |
| **c)** | **Ble mae ail bwyllgor neu banel wedi ei sefydlu, mae'r strwythur yn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y ddau lefel.** |
| | Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli, ond bydd y cyfarfodydd anffurfiol yn sicrhau cyfathrebu effeithiol. |
| | |
| **d)** | **Ble mae ail bwyllgor neu banel wedi ei sefydlu, bod o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor wedi ei glustnodi ar gyfer aelod o'r ail bwyllgor neu banel.** |
| | Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli. |

## Egwyddor B – Cynrychiolaeth

| | |
|---|---|
| a) | **Dylai pob rhanddeiliad allweddol gael cynnig y cyfle i gael eu cynrychioli ar strwythur y prif neu'r ail bwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys :-**<br>**i) awdurdodau cyflogi (gan gynnwys cyflogwyr di-gynllun, ee cyrff â ganiateir;**<br>**ii) aelodau'r cynllun (gan gynnwys aelodau gohiriedig â phensiynwyr y cynllun);**<br>**iii) lle'n berthnasol, sylwedyddion proffesiynol annibynnol; ac**<br>**iv) ymgynghorwyr arbenigol (ar sail ad-hoc).** |
| | Cydymffurfio'n rhannol. Mae gennym gynrychiolaeth o awdurdodau cyflogi CPLIL ar y prif bwyllgor, a hefyd mae gennym ymgynghorydd arbenigol annibynnol (ar sail ad-hoc). Fodd bynnag nid oes aelodaeth wedi cael ei roi i aelodau'r cynllun/cyrff ymrwymedig nac i sylwedyddion proffesiynol annibynnol. |
| b) | **Ble mae aelodau lleyg yn eistedd ar y prif neu'r ail bwyllgor, eu bod yn cael eu trin yn gyfartal yn nhermau cael gweld papurau, cael mynd i gyfarfodydd, cael hyfforddiant ac yn cael cyfle i gyfrannu'n llawn yn y broses penderfynu, gyda neu heb hawl pleidleisio.** |
| | Does dim aelodau lleyg yn eistedd ar y Pwyllgor (gweler Rhan A (b) uchod). |

## Egwyddor C – Dewis Aelodau Lleyg a'u Swyddogaeth

| | |
|---|---|
| a) | **Bod aelodau'r pwyllgor neu banel yn hollol ymwybodol o'r statws, rôl a'r swyddogaeth y mae disgwyl iddynt gyflawni ar unai'r prif neu ail bwyllgor.** |
| | Cydymffurfio'n llawn. Mae cyfrifoldebau'r aelodau, fel a'u nodir yn y Datganiad Polisi Llywodraethu, yn cael ei wneud yn glir iddynt. |
| b) | **Ar ddechrau unrhyw gyfarfod, gwahoddir aelodau'r pwyllgor i ddatgan unrhyw fuddiant cyllidol neu ariannol sy'n ymwneud â materion penodol ar y rhaglen.** |
| | Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma. |

## Egwyddor D – Pleidleisio

| | |
|---|---|
| **a)** | **Mae polisi awdurdodau gweinyddol unigol ar hawliau pleidleisio yn glir a thryloyw, gan gynnwys y cyfiawnhad dros beidio ag ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grwp sy'n cael ei gynrychioli ar brif bwyllgorau'r CPLlL.** |
| | Mae gan y Pwyllgor Pensiynau 9 aelod, i gyd gyda hawl pleidleisio, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd (gyda hawl pleidleisio) ag 1 cynrychiolydd yr un o ddau gyflogwr sy'n rhan o'r CPLlL. |

## Egwyddor E – Hyfforddiant/Amser i ffwrdd/Treuliau

| | |
|---|---|
| **a)** | **Mewn perthynas â'r ffordd y mae penderfyniadau statudol a pherthynol yn cael eu cymryd gan yr awdurdod gweinyddol, bod polisi clir ar hyfforddiant, amser i ffwrdd o'r gwaith ac ad-dalu treuliau ar gyfer aelodau sydd ynghlwm yn y broses penderfynu.** |
| | Cydymffurfio'n llawn – mae gan bob aelod yr un cyfle a'i gilydd i dderbyn cefnogaeth hyfforddi a thelir y treuliau priodol i bawb. |
| **b)** | **Ble mae polisi o'r fath yn bodoli, ei fod yn llawn berthnasol i holl aelodau'r pwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli ymgynghorol neu unrhyw ffurf arall o fforwm eilradd.** |
| | Mae'r polisi yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor. |
| **c)** | **Bod yr awdurdod gweinyddol yn ystyried mabwysiadu cynlluniau hyfforddi blynyddol i aelodau'r pwyllgor a chadw cofnod o bob hyfforddiant o'r fath y maent yn ei fynychu.** |
| | Mae Cyngor Gwynedd yn rhannol gydymffurfio gyda'r egwyddor yma gan ei fod yn cofnodi holl hyfforddiant y pwyllgor ac yn ystyried yr anghenion hynny o bryd i'w gilydd ond nid oes yna gynllun hyfforddi blynyddol. |

## Egwyddor F – Cyfarfodydd (Amlder/cworwm)

| | |
|---|---|
| a) | **Bod prif bwyllgor neu bwyllgorau'r awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf bob chwarter.** |
| | Cydymffurfio'n llawn. |
| | |
| b) | **Bod ail bwyllgor neu banel yr awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac wedi eu cydamseru gyda'r dyddiadau y mae'r prif bwyllgor yn cyfarfod.** |
| | Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli - ond mae'r cyfarfodydd cyflogwr anffurfiol yn gydamseredig gyda dyddiadau'r prif bwyllgor.. |
| | |
| c) | **Bod awdurdod gweinyddol sydd ddim yn cynnwys aelodau lleyg yn eu trefniadau llywodraethu ffurfiol, yn trefnu fforwm y tu allan i'r trefniadau yma er mwyn i fuddiannau'r prif randdeiliaid gael eu cynrychioli.** |
| | Pob mis Gorffennaf, bydd Cyfarfod Blynyddol o'r Gronfa Bensiwn yn cael ei gynnal. Mae cyflogwyr a chynrychiolwyr y gweithwyr yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod, a gallent gwestiynu'r Pwyllgor, swyddogion yr awdurdod gweinyddol, yr ymgynghorwyr buddsoddi neu reolwyr y Gronfa ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad y Gronfa, gweinyddiad y Gronfa â/neu faterion pensiwn yn gyffredinol. |
| | |

## Egwyddor G – Mynediad

| | |
|---|---|
| a) | **Yn amodol ar unrhyw reol yng nghyfansoddiad y cyngor, bod gan holl aelodau'r prif a'r ail bwyllgor neu banel, yr un mynediad at bapurau pwyllgor, dogfennau â chyngor sydd yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd o'r prif bwyllgor.** |
| | Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma. |
| | |

## Egwyddor H – Sgôp

| | |
|---|---|
| **a)** | **Bod awdurdodau gweinyddol wedi cymryd camau i ddod a materion eang y cynllun o fewn eu trefniadau llywodraethu.** |
| | Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried yr holl faterion sydd yn ymwneud â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. |

## Egwyddor I - Cyhoeddusrwydd

| | |
|---|---|
| **a)** | **Bod awdurdodau gweinyddol yn cyhoeddi manylion eu trefniadau llywodraethu mewn modd y gall rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y ffordd mae'r cynllun yn cael ei reoli, ddatgan eu diddordeb mewn bod yn rhan o'r trefniadau hynny.** |
| | Mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu ar gael yn adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn. |

# Cronfa Bensiwn Gwynedd
# Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB)

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 O dan y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009, mae gofyn i awdurdodau gweinyddol baratoi ac adolygu o bryd i'w gilydd, ddatganiad ysgrifenedig sy'n cofnodi eu penderfyniadau ynglŷn â pholisi buddsoddi'r Gronfa Bensiwn. Mae'r rheoliadau yma hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol nodi yn eu datganiad i ba raddau y maent yn cydymffurfio efo'r egwyddorion llywodraethu da a elwir yn Egwyddorion Myners. Bwriad y ddogfen yma yw bodloni anghenion y rheoliadau hyn.

1.2 Cafodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ("y cynllun") ei sefydlu yn ôl y ddeddf i ddarparu budd-daliadau marwolaeth ac ymddeoliad i'r holl weithwyr cymwys.

1.3 Mae'r Cyngor wedi dirprwyo rheolaeth buddsoddi'r cynllun i'r Pwyllgor Pensiynau ("y Pwyllgor), sy'n penderfynu ar y polisi buddsoddi mwyaf addas i gyfarfod a chyfrifoldebau'r cynllun ac mae'r cyfrifoldeb eithaf am y strategaeth buddsoddi yn gorwedd gyda hwy. Mae'r buddsoddiadau a'r perfformiad yn cael eu monitro yn gyson gan y pwyllgor ac fe'i cynghorir gan ymgynghorwyr proffesiynol.

1.4 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r egwyddorion buddsoddi sydd yn rheoli polisi buddsoddi'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo rheolaeth buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn i reolwyr buddsoddi proffesiynol ac fe gyfyngir eu gweithgareddau gan gytundebau rheolaeth buddsoddiadau manwl.

1.5 Wrth baratoi'r ddogfen yma mae'r Pwyllgor wedi cymryd cyngor proffesiynol oddi wrth ymgynghorwyr ac actwari y gronfa, Hymans Robertson ac wedi derbyn ac ystyried sylwadau ysgrifenedig gan reolwyr buddsoddi'r cynllun. Rhoddwyd ystyriaeth briodol i broffil aeddfedrwydd y Gronfa (yn nhermau cyfrannau ymrwymiadau yn deillio o bensiynwyr ac aelodau gweithredol) ynghyd â lefel y gweddill neu'r diffyg a ddatgelir.

## 2.0 Cyfrifoldebau Buddsoddi

2.1 Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb am:

- baratoi datganiad o egwyddorion buddsoddi (DEB);
- fonitro cydymffurfiad y rhai a restrir isod gyda'r datganiad ac adolygu ei gynnwys o bryd i'w gilydd,
- benodi rheolwyr buddsoddi ac unrhyw ymgynghorwyr allanol y teimlir eu bod yn angenrheidiol,
- gymeradwyo trefniadau ceidwadaeth a/neu benodi ceidwad,
- adolygu perfformiad y rheolwyr buddsoddi yn rheolaidd yn erbyn y meincnodau a sefydlwyd a bodloni eu hunain i fedrusrwydd y rheolwyr ac ansawdd eu systemau mewnol a rheolaeth, a
- sicrhau bod y buddsoddiadau wedi eu hamrywio yn ddigonol, ac nad ydynt wedi gôr grynodi i unrhyw un math o fuddsoddiad, a bod y Gronfa yn buddsoddi mewn math addas o fuddsoddiadau.

Rhoddwyd y cyfrifoldeb yma iddynt gan yr Awdurdod Gweinyddol yn unol â'i gynllun dirprwyo a atgynhyrchir yn **Atodiad A**.

2.2 Mae'r Rheolwyr Buddsoddi yn gyfrifol am :

- fuddsoddi asedau'r Gronfa Bensiwn gan gydymffurfio gyda deddfwriaeth gyfredol, y cyfyngiadau a osodir yn y ddogfen hon a'r cytundebau rheoli buddsoddiadau manwl.
- dosbarthu'r asedau yn dactegol o amgylch y meincnod strategol a osodir allan yn Rhan 4 isod,
- ddewis cyfranddaliadau o fewn dosbarthiadau ased,
- baratoi adroddiad chwarterol gan gynnwys adolygu perfformiad buddsoddi,
- fynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor pan y gofynnir iddynt,
- gadarnhau'n flynyddol bod eu gweithgareddau'n cydymffurfio gyda'r datganiad yn unol â darpariaethau cymal 9.1.
- bleidleisio cyfranddaliadau yn unol â'r polisi a gyhoeddwyd ganddynt.

2.3 Mae'r Ceidwaid yn gyfrifol am:

- eu cydymffurfiad eu hunain gyda'r ddeddfwriaeth gyfredol,
- ddarparu datganiadau misol i'r awdurdod gweinyddol o asedau'r cynllun ynghyd â manylion yr holl drafodion a wnaethpwyd yn ystod y mis,
- baratoi manylion mewn da bryd i Gwmni WM,
- gasglu incwm ac ad-daliadau treth.

2.4 Mae'r Ymgynghorydd Buddsoddi yn gyfrifol am:

- gynghori'r Pwyllgor ar eu strategaeth a'u polisi buddsoddi,
- gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor wrth ddewis a phenodi rheolwyr buddsoddi a cheidwaid,
- gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor yn eu monitro rheolaidd o berfformiad y rheolwyr buddsoddi, a
- cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor i baratoi ac adolygu'r ddogfen yma.

2.5 Mae'r Actiwari yn gyfrifol am:

- gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor i baratoi'r ddogfen yma, a
- darparu cyngor ar aeddfedrwydd y cynllun a'i lefel gyllido er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i bwyso a mesur amcanion tymor byr a thymor hir y Gronfa Bensiwn.

2.6 Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am:

- sicrhau cydymffurfiad gyda'r ddogfen hon a dod ag unrhyw wahaniaethau i sylw'r Pwyllgor,
- sicrhau bod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac yn cael ei diweddaru'n unol a'r rheoliadau, a
- baratoi adroddiad blynyddol fydd yn cynnwys ymysg pethau eraill, cyfeiriad at ganlyniadau buddsoddi.

2.7 Mae Clerc y Pwyllgor Pensiynau yn gyfrifol am:

- yrru adroddiadau a phapurau i aelodau'r Pwyllgor mewn da bryd fel eu bod yn cael digon o amser i'w darllen a'u deall cyn y cyfarfod,
- a gofyn i aelodau ddatgan os oes ganddynt fuddiant personol ar ddechrau pob cyfarfod.

## 3.0 Disgrifiad o Ymrwymiadau'r Cynllun

3.1 Mae'r Gronfa Bensiwn yn gynllun budd diffiniedig sydd yn darparu buddion sy'n seiliedig ar gyflog olaf yr aelodau ar eu hymddeoliad neu i'w dibynyddion ar farwolaeth cyn neu ar ôl ymddeol. Mae pensiwn pob aelod yn cael ei nodi yn nhermau fformiwla sy'n seiliedig ar gyflog a gwasanaeth, ac nid yw'n cael ei ddylanwadu gan yr enillion buddsoddi a geir ar asedau'r cynllun. Gosodir allan manylion llawn am fuddion y cynllun yn y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

3.2 Mae'n rhaid i bob aelod gweithredol o'r cynllun dalu cyfraniadau pensiwn sy'n seiliedig ar ganran penodol o'i tal pensiynadwy fel y diffinnir yn y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

3.3 Amcan ariannol y Gronfa yw ei chyllido, fel bod holl fuddion cronedig y Gronfa, mewn amodau marchnad gyffredin, yn cael eu gwarchod yn llawn gan werth asedau'r Gronfa (fel y cyfrifwyd yn y prisiant tair flynyddol).

3.4 Ar gyngor actiwari y cynllun fe benderfynir ar raddfa cyfraniadau'r cyflogwyr bob tair blynedd, ac maent yn cael eu monitro yn y cyfnod rhwng y prisiant. Mae'r tybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf yma a'r tybiaethau cyfatebol a ddefnyddiwyd ym mhrisiant y Gronfa, yn cael eu dangos yn **Atodiad B.** Adolygir y sefyllfa yma o leiaf ym mhob prisiant tair flynyddol. Bydd y Pwyllgor yn cael eu cynghori gan yr actiwari o unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r Gronfa yn ystod y cyfnod rhwng y prisiant.

## 4.0 Polisi Buddsoddi

4.1 Amcan polisi buddsoddi'r Gronfa Bensiwn yw sicrhau, mewn ffordd sydd yn gyson gyda mabwysiadu lefel resymol o risg, bod pob taliad statudol sy'n cael ei wneud o'r Gronfa yn cael ei wneud ar isafswm cost i'r trethdalwyr lleol.

4.2 Y polisi buddsoddi ydi i apwyntio rheolwyr buddsoddi arbenigol gyda meincnod perfformiad clir ac i osod y cyfrifoldeb eithaf ar y rheolwyr buddsoddi am berfformiad yn erbyn y meincnod. Bydd perfformiad y rheolwyr buddsoddi yn cael eu hasesu ar sail tair blynedd treiglol.

4.3 O ganlyniad i bolisi bwriadol i amrywio arddull buddsoddi ac asedau, yn ogystal ag i ledaenu risg, mae gan y Gronfa nifer o reolwr buddsoddi gyda chyfarwyddyd gwahanol. Dangosir y manylion yn **Atodiad C**.

4.4 Mae gan y Gronfa ei meincnod pwrpasol ei hun ac mae eu perfformiad yn cael ei fesur yn ei erbyn. Mae gan bob Rheolwr Buddsoddi meincnod unigol ei hun ar gyfer mesur eu perfformiad yn ei erbyn a'u targedau eu hunain. Dangosir manylion y meincnodau cyfredol yn **Atodiad C**.

4.5 Bydd y strategaeth buddsoddi yn cael ei hadolygu'n flynyddol, gyda phrif adolygiad yn cymryd lle ar ôl adolygiad tair flynyddol yr actiwari.

4.6 Bydd gweithgareddau cyfredol y rheolwyr unigol a'u trafodion yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor yn chwarterol.

4.7 Bydd perfformiad y rheolwyr buddsoddi yn cael ei fonitro'n chwarterol a'i adolygu'n flynyddol.

4.8 Mae'r Gronfa Bensiwn wedi penodi Northern Trust fel ceidwad ar gyfer asedau'r gronfa. Er hynny lle bo'r buddsoddiadau mewn cronfeydd cydgyfrannog mae'r rheolwyr buddsoddi yn penodi eu ceidwaid eu hunain.

## 5.0 Amcanion

5.1 Yr amcanion buddsoddi yw cael enillion ar asedau'r Gronfa fydd yn ddigonol dros y tymor hir, i gyfarfod yn gyson ag amcanion y Gronfa a osodir uchod.

5.2 I gyrraedd yr amcanion yma penderfynwyd ar y canlynol :

5.3 **Math o Fuddsoddiadau i'w dal**

5.3.1 Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod un neu fwy o reolwyr buddsoddi yn cael eu penodi, sy'n gymwys o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 i reoli asedau'r Gronfa.

5.3.2 Ar ôl derbyn y cyngor priodol, gall y Pwyllgor, roi cyfarwyddiadau pendant ar sut i ddosbarthu'r asedau yn strategol a byddant yn sicrhau priodoldeb yr asedau mewn perthynas â gofynion y Gronfa. Mae'r rheoliadau cyfredol yn caniatáu i'r cynllun fuddsoddi yn y dosbarthiadau ased canlynol:

- Cyfranddaliadau'r Deyrnas Unedig (DU);
- Llog sefydlog y DU;
- Mynegai cysylltiol y DU;
- Eiddo'r DU trwy gronfeydd cydgyfrannog;
- Cyfranddaliadau Tramor, y dosbarthiadau mwyaf ydi Gogledd America, Siapan, Ewrop, y Dwyrain Pell, Ardal y Cefnfor Tawel a Marchnadoedd eraill sy'n datblygu;
- Ecwiti Preifat;
- Bondiau byd-eang;
- Gwarantau heb eu dyfynnu trwy gronfeydd cydgyfrannog;
- Cyfranddaliadau Marchnadoedd sy'n datblygu drwy gronfeydd cydgyfrannog, oni awdurdodir yn bendant;
- Is-adeiladwaith trwy gronfeydd cydgyfrannog;
- Buddsoddiad uniongyrchol mewn cyfalaf ar gyfer datblygu - wedi ei gyfyngu i gost llyfr o £5 miliwn;
- Caniateir defnydd o "derivatives" ac offerynnau ariannol eraill o fewn cyfyngiadau sydd wedi eu cytuno rhag blaen ar gyfer dibenion penodol fel newid dyraniad asedau a "currency hedging";
- Caniateir tansgrifeniad os ydi'r stoc a dansgrifenir yn addas ar sail buddsoddi ac yn cydymffurfio gyda'r criteria buddsoddi sydd yn bodoli;
- Caniateir benthyca stoc ond mae'n ddibynnol ar gymeradwyaeth benodol.

5.3.3 Ni ellir prynu unrhyw offeryn na roddir caniatâd penodol iddo ym mharagraff 5.3.2 oni bai y cafwyd caniatâd ysgrifenedig y Pwyllgor drwy law'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

5.3.4 Bydd y rheolwyr buddsoddi yn cael disgresiwn llawn i ddewis stociau unigol a disgwylir iddynt gadw portffolio amrywiol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r rheolwyr buddsoddi gydymffurfio gyda'r rheoliadau cyfredol ar y cyfyngiadau ar fuddsoddiadau unigol a restrir yn Rhan 1 o'r Atodiad i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009.

Mae'r Pwyllgor wedi cymryd cyngor priodol gan ymgynghorydd y Gronfa, ac wedi penderfynu cynyddu'r cyfyngiad ar fuddsoddiadau mewn "unrhyw gontract yswiriant unigol". Mae'r cyfyngiad newydd yn 35%. Mae'r penderfyniad i gynyddu'r cyfyngiad wedi ei gymryd gan ei fod yn gadael i'r Gronfa fuddsoddi mwy mewn cronfeydd cydgyfrannol sydd yn buddsoddi mewn llawer mwy o fuddsoddiadau na phortffolio unigol gwahanedig. Bydd y cyfyngiad uchod yn weithredol hyd nes y bydd penderfyniad i'w ddiddymu yn cael ei gymryd gan y pwyllgor; ac fe fydd y penderfyniad yn cael ei adolygu cyn 31 Mawrth 2015. Mae'r penderfyniad yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau uchod.

Mae'r Pwyllgor wedi cymryd cyngor priodol gan ymgynghorydd y Gronfa, ac wedi penderfynu cynyddu'r cyfyngiad ar yr "holl gyfraniadau i bartneriaethau". Mae'r cyfyngiad newydd yn 15%. Mae'r penderfyniad i gynyddu'r cyfyngiad wedi ei gymryd gan ei fod y buddsoddiadau mewn cronfeydd is-adeiladwaith ar ben buddsoddiadau ecwiti preifat presennol yn cynyddu buddsoddiadau mewn partneriaethau i oddeutu 10% o'r Gronfa. Bydd y cyfyngiad uchod yn weithredol hyd nes y bydd penderfyniad i'w ddiddymu yn cael ei gymryd gan y pwyllgor; ac fe fydd y penderfyniad yn cael ei adolygu cyn 31 Mawrth 2015. Mae'r penderfyniad yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau uchod.

Mae'r Pwyllgor wedi cymryd cyngor priodol gan ymgynghorydd y Gronfa, ac wedi penderfynu cynyddu'r cyfyngiad ar yr "holl gyfraniadau i bartneriaeth unigol". Mae'r cyfyngiad newydd yn 5%. Mae'r penderfyniad i gynyddu'r cyfyngiad wedi ei gymryd gan ei fod yn caniatáu i'r Gronfa buddsoddi mewn cronfeydd mawr is-adeiladwaith byd-eang wedi eu strwythuro fel partneriaethau lle bo cyfyngiad 5% yn briodol. Bydd y cyfyngiad uchod yn weithredol hyd nes y bydd penderfyniad i'w ddiddymu yn cael ei gymryd gan y pwyllgor; ac fe fydd y penderfyniad yn cael ei adolygu cyn 31 Mawrth 2015. Mae'r penderfyniad yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau uchod.

Dangosir manylion llawn y cyfyngiadau a caniateir gan y rheoliadau a'r rheiny a mabwysiadwyd gan y Gronfa Bensiwn yn **Atodiad D**.

5.4 **Cydbwysedd rhwng gwahanol fath o Fuddsoddiadau**

5.4.1 Mae cytundeb mewn lle ar gyfer bob rheolwr buddsoddi sy'n gosod allan y meincnod perthnasol, y targed ar gyfer perfformiad, yr amrediad ar ddosbarthiad asedau lle bo hynny'n berthnasol ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau fel y penderfynwyd gan y Pwyllgor.

5.4.2 Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar feincnod sydd yn rhoi cydbwysedd effeithlon rhwng risg ac enillion, yn sgil proffil ymrwymiadau a lefel ariannu'r Gronfa.

5.5 **Risg**

5.5.1 Mae'n rhaid i'r Gronfa reoli (yn hytrach nag osgoi) risg ar y marchnadoedd buddsoddi er mwyn gallu cael ei gwobrwyo mewn ffurf enillion ariannol ar asedion. Fodd bynnag, mae'r Gronfa yn agored i nifer o risgiau sy'n achosi perygl i'r Gronfa gwrdd â'i hamcanion. Y prif risgiau (bygythiadau) sy'n effeithio'r Gronfa yw:

5.5.2 **Risgiau ariannu:**

- Cydweddu ariannol - Y risg y bydd asedau'r Gronfa yn methu tyfu yn unol â chostau datblygol cwrdd ag ymrwymiadau'r Gronfa; neu'r risg bod cynyddiadau annisgwyl mewn chwyddiant yn cynyddu'r taliadau pensiwn a budd-daliadau ac na fydd asedau'r Gronfa yn tyfu yn ddigon cyflym i gwrdd â'r gost ychwanegol.
- Demograffig yn newid – Y risg bod hirhoedledd yn gwella a bod ffactorau demograffig eraill yn newid gan gynyddu cost budd-daliadau'r Gronfa.
- Risg systemol - Y posibilrwydd o fethiant cysylltiol a chydamserol o nifer o ddosbarthiadau o asedau a/neu reolwyr buddsoddiadau, gyda'r posibilrwydd o gael ei ddwysau gan 'haint' ariannol, yn arwain at gynnydd yn y gost o gwrdd ag ymrwymiadau'r Gronfa.

Mae'r Pwyllgor yn mesur a rheoli cydweddu ariannol mewn dwy ffordd. Fel y nodir uchod, maent wedi gosod meincnod strategol ar gyfer dyrannu asedau ar gyfer y Gronfa. Mae'n asesu risg yn berthynol i'r meincnod hwnnw drwy fonitro dyraniad asedau ac enillion ar fuddsoddiadau'r Gronfa yn berthynol i'r meincnod. Mae hefyd yn asesu risg yn berthynol i'r ymrwymiadau drwy fonitro cyflenwad o enillion meincnod yn berthynol i'r ymrwymiadau.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu marwoldeb a thybiadau demograffig eraill a allai ddylanwadu ar gost y budd-daliadau yn rheolaidd. Caiff y tybiadau hyn eu hystyried yn ffurfiol yn ystod pob prisiad tair flynyddol.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio lleddfu risg systemol drwy gael portffolio amrywiol, ond nid yw'n bosib gwneud darpariaeth arbenigol ar gyfer pob canlyniad posibl a allai godi o dan y pennawd hwn.

5.5.3 **Risgiau i asedau:**

- Canolbwyntiad - Y risg y gallai dyraniad sylweddol i unrhyw un dosbarth ased penodol a'i danberfformiad yn berthynol i ddisgwyliadau arwain at broblemau i gwrdd ag amcanion ariannol.
- Anhylifdra - Y risg na allai'r Gronfa gwrdd â'i hymrwymiadau uniongyrchol oherwydd nad oes ganddi ddigon o asedau hylifol.
- Tanberfformiad rheolwr – Methiant gan reolwyr buddsoddi i gyrraedd y gyfradd enillion ar fuddsoddiadau a dybiwyd wrth osod eu gorchmynion.

Mae'r Pwyllgor yn rheoli risg asedau fel â ganlyn. Mae'n darparu cyfyngiadau ymarferol rhag i fuddsoddiadau'r Gronfa wyro yn sylweddol o'r dull bwriedig drwy osod iddo'i hun ganllawiau amrywieithu a trwy fuddsoddi mewn ystod o orchmynion buddsoddi, pob un gydag amcan penodol, meincnod perfformiad a phrases reoli sydd, pan mae'n cael ei gymryd gyda'i gilydd, yn cyfyngu risg o fewn ffiniau disgwyliedig y Pwyllgor. Drwy fuddsoddi ar draws ystod eang o asedau, yn cynnwys cyfranddaliadau a bondiau a ddyfynnir, mae'r Pwyllgor wedi cydnabod yr angen am rywfaint o fynediad i hylifedd yn y tymor byr. Drwy benodi nifer o reolwyr buddsoddi, mae'r Pwyllgor wedi ystyried y risg o danberfformiad gan unrhyw reolwr buddsoddi unigol. Fodd bynnag nid yw'n bosibl dileu'r bygythiad o danberfformiad heb gyfyngu ar y potensial o gael gorberfformiad.

5.5.4 **Risg gan ddarparwr arall**

- Risg trosglwyddo - Y risg o gael costau annisgwyl mewn perthynas â throsglwyddo asedau ymysg rheolwyr. Pan yn cario allan trosglwyddiadau sylweddol, mae'r Pwyllgor yn cymryd cyngor proffesiynol ac yn ystyried penodi rheolwyr trosglwyddiadau arbenigol.
- Risg ceidwad – Y risg o golli hawliad economaidd i asedau'r Gronfa, pan meant yn cael eu dal mewn ceidwad neu pan meant yn cael eu masnachu.
- Methiant credyd - Y posibilrwydd bod gwrthbarti yn methu a chwrdd â'i ymrwymiadau.

Mae'r Pwyllgor yn monitro a rheoli risgiau yn y meysydd hyn drwy broses o graffu rheolaidd o'i ddarparwyr ac archwiliad o'r gweithrediadau meant yn eu gwneud ar gyfer y Gronfa.

5.6 **Yr Enillion a ddisgwylir ar Fuddsoddiadau**

5.6.1 Disgwylir i'r meincnod strategol ddarparu enillion yn y tymor hir, sydd yn uwch na'r enillion ar fuddsoddiadau a ymhlygir yn y prisiant actiwaraidd. Diffinnir enillion buddsoddi fel cyfanswm y cyfraddau enillion (cyfuno twf cyfalaf ac incwm).

5.6.2 Mae mwyafrif o asedau'r Gronfa yn cael eu rheoli ar sail weithredol a disgwylir iddynt berfformio'n well na'i meincnod penodol dros y tymor hir

5.6.3 Felly, disgwylir i'r perfformiad buddsoddi a gyflawnir gan y Gronfa fod yn uwch na'r gyfradd enillion a dybiwyd gan yr actiwari ar gyfer ariannu'r ymrwymiadau ar sail gyson.

5.7 **Gwerthu Buddsoddiadau**

5.7.1 Mae mwyafrif y stociau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'r Gronfa wedi eu rhestru ar y marchnadoedd stoc mwyaf a gallant gael eu gwerthu yn sydyn pe bai angen.

5.7.2 Dim ond rhan fechan iawn, tua 10% o asedau'r Gronfa sydd ar hyn o bryd wedi eu buddsoddi mewn eiddo sy'n gymharol anhylif.

5.7.3 Ar hyn o bryd mae tua 5% o asedau'r Gronfa sydd wedi eu buddsoddiadau ecwiti preifat ac is-adeiladwaith sydd yn gymharol anhylif, ond disgwylir i hyn codi I 7.5% dros y tymor byr ac i 10% dros y tymor canolig.

**6.0 Cymryd i ystyriaeth faterion Cymdeithasol, Amgylcheddol a Moesegol**

6.1 Gyda golwg ar fuddsoddiadau cymdeithasol cyfrifol, mae'r Pwyllgor yn ystyriol o egwyddorion cyfreithiol sydd yn seiliedig ar benderfyniadau y llysoedd ac sy'n berthnasol i bob cynllun pensiwn. Yn benodol nid oes hawl gan awdurdod gweinyddol i roddi buddion yr aelodau islaw gofynion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol. Perfformiad ariannol y Gronfa gydag amrywiaeth priodol a bod yn ddarbodus, sydd bwysicaf.

6.2 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried i ba raddau y dylid cymryd ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol i ystyriaeth pan yn dewis, cadw ac wrth werthu buddsoddiadau. Maent hefyd yn cytuno bod y ffactorau yma'n gallu dylanwadu ar yr enillion a geir ar fuddsoddiadau.

6.3 Mae'r Pwyllgor wedi dangos ei ymrwymiad at y Cod Stiwardiaeth gafodd ei gyhoeddi gan y Financial Reporting Council yn 2010. Nod y Cod yw gwella ansawdd yr ymrwymiad rhwng buddsoddwyr sefydliadol a chwmnïau er mwyn cynorthwyo gwellhad mewn dychweliadau tymor hir i gyfranddalwyr a gweithrediad effeithiol cyfrifoldebau llywodraethu. Mae'r Cod yn gosod ymarfer da ar gyfer ymgysylltiad gyda chwmnïau a buddsoddir ynddynt.

6.4 Mae'r Gronfa yn aelod o'r Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) sydd yn bodoli er mwyn hyrwyddo diddordebau buddsoddi cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol ac i uchafu ei dylanwad fel cyfranddalwyr wrth hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol yn y cwmni y maent yn buddsoddi ynddynt. Mae'r LAPFF yn dod a nifer o gronfeydd pensiwn awdurdodau lleol at ei gilydd sydd yn rhoi cyfle i drafod materion buddsoddi a gweithrediad cyfranddalwyr. Mae gan y dylanwad a enillir trwy gydweithrediad y cronfeydd ar bryderon cyffredin potensial sylweddol mewn perthynas â chwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt. Gellir defnyddio'r dylanwad yma er mwyn mynd i'r afael a materion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol o fewn y cwmnïau a buddsoddir ynddynt.

6.5 Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i fwrdd y cwmnïau mae'r Gronfa yn buddsoddi ynddynt, roi ystyriaeth i faterion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol a drwy hynny gynyddu budd tymor hir y cyfranddalwyr. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i gyfarwyddwyr cwmni roi ystyriaeth i fudd tymor hir y cyfranddalwyr wrth reoli materion busnes y cwmni.

6.6 Mae'r rheolwyr buddsoddi wedi paratoi datganiadau o bolisi buddsoddi sy'n cymryd i ystyriaeth materion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol sy'n gyson gyda'r amcanion a amlinellir ym mharagraff 6.3 uchod. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r rheolwyr buddsoddi weithredu'n unol a'u polisïau penodol ar fuddsoddiadau cymdeithasol cyfrifol.

6.7 Mae'r Pwyllgor yn credu bod y safiad yma yn gyson gydag amcanion tymor hir y cynllun.

6.8 Yn flynyddol bydd y Pwyllgor yn bodloni eu hunain bod y rheolwyr buddsoddi yn dilyn y polisi yma.

## 7.0 Ymarfer hawliau gan gynnwys yr hawl pleidleisio sydd ynghlwm i rai buddsoddiadau

7.1 Mae'r Pwyllgor yn credu bod mabwysiadu ymarferiad da mewn rheolaeth gorfforedig yn gwella rheolaeth cwmnïau ac yn ychwanegu gwerth tymor hir i gyfranddalwyr.

7.2 Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i reolwyr buddsoddi gysylltu'n rheolaidd ar lefel uwch swyddogion gyda'r cwmnïau y mae asedau'r cynllun yn cael eu buddsoddi ynddynt, fel elfen bwysig o'r broses fuddsoddi ac i sicrhau rheolaeth gorfforedig da.

7.3 Mae rheolwyr buddsoddi wedi paratoi datganiadau ynglŷn â'u polisïau ar reolaeth gorfforedig ac mae'r Pwyllgor yn ystyried eu bod yn cytuno gyda'r gofynion a fynegir ym mharagraff 7.2. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r rheolwyr buddsoddi weithredu'n unol a'u polisïau penodol ar reolaeth gorfforedig.

7.4 Yn rheolaidd bydd gweithredoedd pleidleisio, ar sail eithriad, yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

## 8.0 Benthyca Stoc

8.1 Caniateir benthyca stoc ond mae'n ddibynnol ar gymeradwyaeth benodol. Mae'r polisi ar fenthyca stoc yn adlewyrchu natur y mandadau sydd wedi eu rhoi gan y Pwyllgor Pensiynau i'r rheolwyr buddsoddi, gan gynnwys mandadau cydgyfrannol a rhai ar wahân.

## 9.0 Cydymffurfiad

9.1 Bydd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarchodwyr yn cadarnhau yn flynyddol i'r Pwyllgor, bod eu gweithgareddau mewn perthynas â'r rhan o'r Gronfa y mae ganddynt reolaeth drosti, wedi cydymffurfio gyda'r cyfyngiadau buddsoddi sydd yn y ddogfen hon (cyn belled â bod y Rheolwr yn cael ei hysbysu o unrhyw newidiadau) ac yn benodol a osodir allan yn y cytundebau rheoli buddsoddiadau.

9.2 Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol am asesu'r risg a gymerir gan y cynllun ar lefel fyd-eang, h.y. gan dybio bod portffolios y rheolwyr unigol wedi cael eu cyfuno.

9.3 Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am fonitro perfformiad y cynllun ar lefel fyd-eang a fesul rheolwr.

9.4 Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am fonitro perfformiad ansoddol y rheolwyr a'r ceidwaid a gyflogir, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rheolwyr buddsoddi/ceidwaid addas i'r cynllun. Mae'r agweddau ansoddol yma yn cynnwys, ymhlith rhai eraill, newidiadau mewn perchnogaeth, newidiadau personél, gweinyddiaeth wael a.y.y.b.

9.5 Yn rheolaidd bydd y Pwyllgor yn ystyried a yw'r cynllun yn cyd-fynd â'r datganiad o egwyddorion buddsoddi yma.

9.6 Bydd y datganiad yn cael ei adolygu fel bo'r angen ond o leiaf yn llawn bob tair blynedd (mewn cysylltiad gyda'r partïon eraill i'r datganiad) a bydd datganiad diwygiedig yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi.

## 10.0 Cydymffurfiad gydag Egwyddorion Buddsoddi

10.1 Mewn ymateb i Adroddiad y Trysorlys "Updating the Myners Principles: A Response to Consultation" (mis Hydref 2008), mae'n ofynnol ar i awdurdodau gweinyddol CPLlL, baratoi, cyhoeddi a chynnal datganiad o gydymffurfiad gyda'r chwe egwyddor sy'n cael eu cynnwys yn nogfen CIPFA o'r enw, "Investment Decision Making and Disclosure in the Local Government Pension Scheme".

10.2 Mae’r egwyddorion hyn wedi cael eu mabwysiadu gan Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ac maent yn cymryd lle deg egwyddor Myners a gyhoeddwyd yn flaenorol.

10.3 Mae **Atodiad E** yn nodi i ba raddau y mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio gyda'r deg egwyddor yma ac os nad ydym yn cydymffurfio, y rhesymau pam.

**<u>ATODIAD A</u>**

**Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau a Swyddogion**

Gwneir y cynllun hwn dan reol 12(3) o reolau sefydlog y Cyngor a chymhwysir iddo'r rheolau sefydlog hynny fel bo'n briodol. Mae'r cynllun hwn yn ymwneud a dirprwyo awdurdod i bwyllgorau ac is-bwyllgorau canolog y cyngor ac i swyddogion.

Mae'r swyddogaethau canlynol wedi cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor Pensiynau:

- (a) Pennu'r strategaeth o ran buddsoddi arian a fo'n weddill ym meddiant y Gronfa Bensiwn a chronfeydd ymddiriedol eraill;
- (b) Penodi a therfynu penodi rheolwyr ac ymgynghorwyr cronfeydd arbenigol; adolygu'u perfformiad mewn perthynas â buddsoddiad;
- (c) Sicrhau bod trefniadau diogel ac effeithlon mewn llaw ar gyfer prynu, gwerthu a gofalu am fuddsoddiadau'r cyngor;
- (ch) Ystyried adroddiadau oddi wrth Drysorydd y Sir yng nghyswllt gweinyddu pensiynau, lle bo angen, a chymryd penderfyniadau yn ôl doethineb.

**Prif Dybiaethau yr Actiwari ar 31 Mawrth 2010**

| | % y flwyddyn | Cymharol i CPI % y flwyddyn |
|---|---|---|
| Chwyddiant CPI | 3.3 | - |
| Codiadau Cyflog (ddim yn cynnwys ychwanegiadau) | 5.3 | 2.0 |
| Enillion Buddsoddi | | |
| • cyfranddaliadau | 5.9 | 2.6 |
| • bondiau | 4.5 | 1.2 |

Mae'r prisiad actiwaraidd wedi cymryd gwerth marchnad asedau'r Gronfa fel ag yr oedd yng Nghyfrifon y Gronfa ar 31 Mawrth 2010. Mae hyn yn gyson gyda'r dull a ddefnyddir i roi gwerth ar ymrwymiadau drwy edrych ar gyflwr y farchnad spot ar ddyddiad y prisiad.

## Detholiad Ymrwymiadau

| Ymrwymiad | Cyfanswm Ymrwymiad £'m |
|---|---|
| Aelodau cyflogedig | 608 |
| Pensiynwyr gohiriedig | 123 |
| Pensiynwyr | 383 |
| Cyfanswm Ymrwymiadau | **1,114** |
| Gwerth Asedau'r Gronfa | **931** |
| Diffyg | **183** |
| **Cyfanswm y Gronfa (ar brisiant yr actiwari)** | **84%** |

Seiliedig ar brisiant y Gronfa ar 31 Mawrth 2010

## Detholiad Asedau

| Ffigyrau ar 31 Mawrth 2010 | Y Gronfa % |
|---|---|
| Cyfranddaliadau'r DU | 27.1 |
| Bondiau'r DU | 13.9 |
| Cyfranddaliadau Tramor | 44.8 |
| Ecwiti Preifat | 3.8 |
| Eiddo | 7.7 |
| Derivatives | 0.0 |
| Arian & Asedion Net | 2.7 |
| **Cyfanswm** | **100%** |

## Asedau a ddelir gan y rheolwyr (ar 31 Mawrth 2010)

| Rheolwr | Asedau | Goddefol/ Gweithredol |
|---|---|---|
| BlackRock | £174m* | Goddefol |
| Capital International Limited ("Capital") | £183m | Gweithredol |
| Fidelity International (Fidelity) | £177m | Gweithredol |
| Insight | £129m** | Gweithredol |
| Lothbury | £12m | Gweithredol |
| Legal and General Investment Management | £144m | Gweithredol |
| Partners Group | £35m | Gweithredol |
| UBS Global Asset Management (UK) Ltd ("UBS") | £62m | Gweithredol |

*Asedau o £304m llai y Trosglwyddiad sy'n "Pending" o £130m i Insight ar 6 Ebrill 2010.
**Asedau gan gynnwys y Trosglwyddiad sy'n "Pending" o BlackRock am £130m llai costau prynu.

**Trefniant Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol**

Mae’r dewisiadau ar gyfer cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) aelodau wedi eu gosod allan isod, ynghyd â manylion yr egwyddorion sy’n rheoli'r math o gyfrwng buddsoddiadau a gynigir. Gall aelodau ddewis symud rhwng gwahanol ddewisiadau CGY sydd ar gael iddynt o bryd i’w gilydd, yn ddibynnol ar delerau ac amodau bob cyfrwng. Ar ymddeoliad, bydd gwerth cronedig CGY aelodau yn cael ei ddefnyddio i brynu blwydd-dal ar y farchnad agored neu flynyddoedd ychwanegol.

| **Darparwr** | **Cyfrwng** |
|---|---|
| Clerical Medical | Gydag Elw, Cronfa a Reolwyd a Cronfa Cymdeithas Adeiladu |
| Equitable Life | Ar gau |
| Standard Life | Ar gau |

Nid yw Standard Life na Equitable Life yn cael eu cynnig fel dewis i weithwyr sydd yn dymuno cychwyn contractau CGY newydd.  Fodd bynnag, mae gweithwyr oedd yn talu CGY yn barod i Standard Life neu Equitable Life yn dal i gael gwneud hynny.

Amcan y Gronfa a reolir ydi i ddarparu enillion ar gyfraniadau’r aelodau sydd o leiaf yn cadw i fyny gyda chwyddiant. Mae’r Gronfa gymdeithas adeiladu yn cynnig llog ar raddfeydd cystadleuol.

Does dim dewis “lifestyle” penodol. Mae’n rhaid i gyfranwyr wneud penderfyniad eu hunain ar symud rhwng cronfeydd er mwyn diogelu eu henillion buddsoddi.

**ATODIAD C**

## Dyraniad Buddsoddi

O ganlyniad i bolisi bwriadol i amrywio arddull buddsoddi ac asedau, yn ogystal ag i ledaenu risg, mae gan y Gronfa saith rheolwr buddsoddi gyda chyfarwyddyd gwahanol. Maent fel a ganlyn:

| Rheolwr Buddsoddi | Cyfarwyddyd | Meincnod | Targed |
|---|---|---|---|
| BlackRock | Goddefol | FTSE All-Share a FTSE All-World Indices | Elw'r Mynegai |
| BlackRock | Gweithredol | IPD Balanced Property Unit Trust Index | Meincnod |
| Fidelity International (Fidelity) | Gweithredol | MSCI AC World Index | Meincnod +2-3% y.f. |
| Insight | Gweithredol | Arian (Libor) | Meincnod +2.0% y.f. |
| Lothbury | Gweithredol | IPD Balanced Property Unit Trust Index | Meincnod |
| Partners Group ("Partners") | Gweithredol | MSCI World | Benchmark + 5.0% y.f. * |
| Threadneedle | Gweithredol | IPD Balanced Property Unit Trust Index | Meincnod |
| UBS Global Asset Management (UK) Limited (UBS) | Gweithredol | IPD UK Pooled Property Fund Index | Meincnod +0.5% y.f. |
| Veritas Asset Management (Veritas) | Gweithredol | MSCI AC World Index | Meincnod +2.0% y.f. (gros o ffioedd) |

** Nid oes gan Partners darged perfformiad swyddogol. Targed ar gyfer pwrpas mynegol yn unig a welir uchod*

Mae gan y Gronfa ei meincnod pwrpasol ei hun ac mae eu perfformiad yn cael ei fesur yn ei erbyn. Mae gan bob Rheolwr Buddsoddi meincnod unigol ei hun ar gyfer mesur eu perfformiad yn ei erbyn a'u targedau eu hunain. Yn dilyn penderfyniadau buddsoddi yn ystod 2012 mae'r meincnod y Gronfa fel a ganlyn:

| | Black Rock % | Fidelity % | Veritas % | Insight % | Eiddo* % | Partners Group % | Cyfanswm % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfranddaliadau'r DU** | **56.0** | **8.2** | **8.2** | **-** | **-** | **-** | **19.5** |
| **Cyfranddaliadau Tramor** | **44.0** | **91.8** | **91.8** | **-** | **-** | **-** | **48.0** |
| Gogledd America | 7.4 | 50.5 | 50.5 | - | - | - | 21.4 |
| Ewrop ac eithrio'r DU | 14.1 | 15.4 | 15.4 | - | - | - | 10.1 |
| Siapan | 6.0 | 7.9 | 7.9 | - | - | - | 4.8 |
| Basn y Pasiffig | 9.0 | 4.8 | 4.8 | - | - | - | 4.5 |
| Marchnadoedd sy'n Datblygu | 7.5 | 13.2 | 13.2 | - | - | - | 7.2 |
| **Ecwiti Preifat** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **66.7** | **5.0** |
| **Cyfanswm Cyfranddaliadau** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **-** | **-** | **50.0** | **72.5** |
| Bondiau Byd-eang | - | - | - | 100.0 | - | - | 15.0 |
| **Cyfanswm Bondiau** | **-** | **-** | **-** | **100.0** | **-** | **-** | **15.0** |
| **Eiddo** | **-** | **-** | **-** | **-** | **100.0** | **-** | **10.0** |
| **Isadeiladwaith** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **33.3** | **2.5** |
| **Cyfanswm** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** |

** Mae Eiddo yn cynnwys buddsoddiadau eiddo BlackRock, Lothbury, Threadneedle a UBS*

**ATODIAD D**

**Cyfyngiadau Buddsoddi**

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 yn caniatáu i awdurdodau gweinyddol gosod cyfyngiadau hyd at rheiny a nodir yng ngholofn (B) isod. Nodir cyfyngiadau cyfredol Gwynedd yng Ngholofn (A) isod.

| | **Cyfyngiadau Cyfredol y Gronfa (A)** | **Rheoliadau'n Cynyddu'r Cyfyngiadau i (B)** |
|---|---|---|
| 1. Mewn unrhyw gontract is-danysgrifio unigol. | 1% | 5% |
| 2. Holl gyfraniadau i unrhyw bartneriaeth unigol. | 5% | 5% |
| 3. Holl gyfraniadau i bartneriaethau. | 15% | 15% |
| 4. Mae cyfanswm yr holl fenthyciadau ac unrhyw adneuon gydag awdurdod lleol, neu unrhyw gorff gyda'r hawl i godi praesept neu gais ar awdurdod lleol, neu gorff ble mae awdurdod lleol yn gorfod cyfrannu tuag at eu costau (o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnad 2000 [4]) parthed derbyn adneuon o ganlyniad i orchymyn wnaed o dan adran 38(1) o'r Ddeddf yna, a phob benthyciad. | 10% | 10% |
| 5. Holl fuddsoddiadau yng ngwarantau cwmnïau nas rhestrir | 10% | 15% |
| 6. Unrhyw un daliad (holding). | 10% | 10% |
| 7. Holl adneuon gydag unrhyw un banc, sefydliad neu unigolyn (ac eithrio'r Banc Cynilo Cenedlaethol). | 10% | 10% |
| 8. Holl gontractau is-danysgrifio unigol | 15% | 15% |
| 9. Holl fuddsoddiadau mewn unedau neu gyfranddaliadau eraill o'r buddsoddiad sy'n destun ymddiriedolaeth cynlluniau unedau ymddiriedolaethol, a reolir gan unrhyw gorff unigol. | 25% | 35% |
| 9a. Holl fuddsoddiadau mewn cwmnïau buddsoddi benagored ble mae'r cynlluniau buddsoddi cyfunol a sefydlir gan y cwmnïau yn cael eu rheoli gan unrhyw gorff unigol. | 25% | 35% |
| 9b. Holl fuddsoddiadau mewn unedau neu gyfranddaliadau eraill o'r buddsoddiad sy'n destun ymddiriedolaeth cynlluniau unedau ymddiriedolaethol a'r holl fuddsoddiadau mewn cwmnïau buddsoddi benagored ble mae'r cynlluniau buddsoddi cyfunol a sefydlir gan y cwmnïau yn cael eu rheoli gan unrhyw gorff unigol. | 25% | 35% |
| 10. Cyfanswm mewn unrhyw gontract yswiriant unigol. | 35% | 35% |
| 11. Holl warantau a drosglwyddir (neu a gytunir i'w trosglwyddo) gan yr awdurdod o dan drefniant benthyca stoc. | 25% | 35% |

**ATODIAD E**

**Datganiad sy'n nodi i ba raddau y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cydymffurfio gyda'r chwe egwyddor buddsoddi sy'n cael eu gosod allan yn nogfen Cipfa "Penderfyniadau Buddsoddi a Datgeliadau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – Arweiniad ar gyfer cymhwysiad efo egwyddorion Myners" - 2009.**

**Egwyddor 1: Gwneud Penderfyniadau Effeithiol**

**Dylai awdurdodau gweinyddol sicrhau bod:**

- **penderfyniadau yn cael eu cymryd gan bersonau neu gyfundrefnau gyda'r sgiliau, gwybodaeth, cyngor a'r adnoddau sydd eu hangen i'w gwneud yn effeithiol a monitro eu gweithrediad; a**
- **bod gan y personau neu gyfundrefnau hynny ddigon o arbenigedd i allu gwerthuso a herio'r cyngor maent yn ei dderbyn, a rheoli gwrthdaro buddiannau.**

Mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio i raddau helaeth gyda'r egwyddor yma. Fodd bynnag, gan Gyngor Gwynedd mae'r cyfrifoldeb am strwythur a chyfansoddiad y Pwyllgor Pensiynau ac mae'n cael ei adolygu ar sail cyfnodol pan fo materion strwythurol yn codi.

Mae gofyn i pob aelod o'r Pwyllgor Pensiynau fynychu cwrs tri diwrnod "Trustee Training Fundamentals", ac yn dilyn hwnnw maent yn derbyn tystysgrif hyfforddiant "LGPS Fundamentals". Yn ddelfrydol mae gofyn i aelodau newydd gwblhau'r cwrs cyn eistedd ar y Pwyllgor Pensiynau am y tro cyntaf. O bryd i'w gilydd mae aelodau hefyd yn cael eu hanfon ar gyrsiau adnewyddu.

Nid yw aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn cael eu talu - maent yn derbyn lwfansau fel aelodau eraill awdurdod lleol. Nid ydynt yn derbyn unrhyw lwfansau penodol mewn perthynas â'u dyletswyddau Pensiynau.

Nid oes cynllun busnes ffurfiol yn cael ei baratoi.

**Egwyddor 2: Amcanion Clir**

**Dylai amcan(ion) buddsoddi gael eu gosod allan ar gyfer y Gronfa gyfan sy'n cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau'r cynllun, yr effaith posibl ar drethdalwyr lleol, cryfder y cyfamod ar gyfer cyflogwyr sydd ddim yn awdurdod lleol, a'r agwedd tuag at risg gan yr awdurdod gweinyddol a chyflogwyr y cynllun, a dylai'r rhain gael eu cyfathrebu'n glir i ymgynghorwyr a rheolwyr buddsoddi.**

Mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio'n sylweddol gyda'r egwyddor yma.

Nid yw cytundebau ar gyfer ymgynghorwyr wedi bod yn destun i gystadleuaeth ar wahân. Pan gafodd y gwasanaeth ei dendro yn y lle cyntaf, nid oedd hyn yn berthnasol a hyd yma, nid oes rhesymau digonol i osod y gwasanaeth allan i gystadleuaeth. Nid oes proses ffurfiol yn bodoli i asesu perfformiad ymgynghorwyr.

Ar hyn o bryd nid oes gan y Pwyllgor Pensiynau strategaeth er mwyn sicrhau bod y costau a geir mewn cysylltiad â throsglwyddiadau yn cael eu rheoli'n gywir heb roi amcanion eraill y Gronfa mewn perygl.

**Egwyddor 3: Risg ac Ymrwymiadau**

**Wrth osod ac adolygu eu strategaeth buddsoddi, dylai'r awdurdodau gweinyddol gymryd i ystyriaeth ffurf a strwythur ymrwymiadau. Mae'r rhain yn cynnwys goblygiadau i drethdalwyr lleol, cryfder y cyfamod ar gyfer cyflogwyr sy'n cymryd rhan, y perygl iddynt fethu talu a risg hirhoedledd.**

Mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio'n sylweddol gyda'r egwyddor yma. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth llwyr, byddai angen gwneud mwy o waith ar gryfder y cyfamod ar gyfer cyflogwyr.

**Egwyddor 4: Asesu Perfformiad**

**Dylai trefniadau fod mewn lle ar gyfer mesuriad ffurfiol o berfformiad buddsoddiadau, rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr. Dylai'r awdurdodau gweinyddol hefyd wneud asesiad ffurfiol yn achlysurol o'u heffeithiolrwydd hwy fel corff gwneud penderfyniadau ac adrodd am hyn i aelodau'r cynllun.**

Mae cydymffurfiaeth rhannol gyda'r egwyddor hwn. Mae prosesau i fesur perfformiad buddsoddiadau a rheolwyr buddsoddi. Fodd bynnag, nid oes proses ffurfiol yn bodoli i asesu perfformiad ymgynghorwyr. Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw reswm i ystyried nad oedd y cyngor a dderbyniwyd mewn perthynas â dewis meincnodau a rheolwyr buddsoddi i fyny i'r lefel perfformiad disgwyliedig.

Nid oes proses ffurfiol yn bodoli i asesu perfformiad y Pwyllgor ei hun. Yn y pen draw, yn y gorffennol mae hyn wedi'i fesur yn nhermau perfformiad perthnasol y Gronfa mewn perthynas â Chronfeydd Pensiwn eraill ac atebolrwydd y Pwyllgor i gyflogwyr a chynrychiolwyr y gweithwyr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Yn y misoedd i ddod bydd CIPFA yn cyhoeddi eu fframwaith gwybodaeth a sgiliau, sydd yn gyfres o safonau y dylai'r Pwyllgor eu cyrraedd. Unwaith bydd hwn yn cael ei gyhoeddi bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r materion uchod.

**Egwyddor 5: Perchnogaeth Gyfrifol**

**Dylai awdurdodau gweinyddol:**

- **fabwysiadu, neu sicrhau bod eu rheolwyr buddsoddi yn mabwysiadu Datganiad o Egwyddorion Pwyllgor Cyfranddalwyr Sefydliadol (DoE PCS) ar gyfrifoldebau cyfranddalwyr ac asiantiaid;**
- **gynnwys datganiad o'u polisi o berchnogaeth gyfrifol yn y datganiad o egwyddorion buddsoddi; ac**
- **adrodd yn ôl yn achlysurol i aelodau'r cynllun ar weithrediad y fath gyfrifoldebau.**

Mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio'n rhannol gyda'r egwyddor yma.

Mae rhai o'n rheolwyr buddsoddi wedi mabwysiadu'r DoE PCS, tra bod eraill yn ei adolygu a rhai heb ei fabwysiadu. Cred ein rheolwr ecwiti preifat nad ydi'r DoE PCS yn berthnasol iddynt hwy. Cyn belled ag y mae nhw yn y cwestiwn tydi o ddim ond yn berthnasol i fuddsoddwyr sefydliadol sydd wedi eu lleoli yn y Deyrnas Unedig.

| **<u>Egwyddor 6: Tryloywder ac Adrodd</u>**<br><br>**Dylai awdurdodau gweinyddol:**<br>• **weithredu mewn ffordd tryloyw, gyfathrebu gyda chyfranogwr ar faterion sy'n gysylltiedig â'u rheolaeth o fuddsoddiadau; eu trefniadau a risgiau, yn cynnwys perfformiad yn erbyn amcanion a ddatganwyd;**<br>• **ddarparu cyfathrebiadau rheolaidd i aelodau'r cynllun mewn ffyrdd maent hwy yn ei ystyried yn fwyaf addas.** |
|---|
| Mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio'n sylweddol gyda'r egwyddor yma. Nid yw'r Pwyllgor yn edrych yn ffurfiol ar adroddiadau a gyhoeddwyd gan, nag ar bolisïau cyfathrebu cronfeydd pensiwn eraill. Nid yw'r Pwyllgor chwaith yn cymharu Adroddiad Blynyddol y Gronfa i'r rheoliadau yn ffurfiol. |
| |

## Cronfa Bensiwn Gwynedd
## Datganiad o Gydymffurfiad gyda'r Cod Stiwardiaeth

**Egwyddor 1 - Dylai buddsoddwyr sefydliadol datgan yn gyhoeddus eu polisi ar sut y byddan gyflawni eu cyfrifoldebau stiwardiaeth.**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cymryd ei chyfrifoldebau fel cyfranddaliwr o ddifri. Mae'n ceisio cadw at y Cod Stiwardiaeth ac yn annog ei rheolwyr buddsoddi apwyntiedig i'w gwneud hefyd. Gweler stiwardiaeth fel rhan o'r cyfrifoldebau perchnogaeth rhandaliadau ac felly rhan gyfannol o'r strategaeth buddsoddi.

Yn ymarferol mae'n bolisi'r gronfa i weithredu'r Cod trwy'r trefniadau gyda'i rheolwyr buddsoddi a thrwy aelodaeth o'r Local Authority Pension Fund Forum.

**Egwyddor 2 – Dylai buddsoddwyr sefydliadol meddu ar bolisi cadarn ar gyfer rheoli gwrthdaro diddordebau mewn perthynas i stiwardiaeth a'r dylai'r polisi hwn yn cael ei datgan yn gyhoeddus.**

Mae'r gronfa yn annog ei rheolwyr buddsoddi i feddu ar bolisïau sydd yn cyfarch gwrthdari ddiddordeb dichonol. Trafodir y rheiny cyn penodi rheolwr ac adolygir fel rhan o'r broses safonol monitro rheolwyr.

Mewn perthynas i wrthdaro diddordebau o fewn y Gronfa, mae aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn gorfod datgan diddordebau cyn cyfarfodydd Pwyllgor.

**Egwyddor 3 - Dylai buddsoddwyr sefydliadol monitro eu cwmnïau buddsoddi.**

Datganolir cyfrifoldeb rheoli ein buddsoddiadau o ddydd i ddydd i'r rheolwyr buddsoddi apwyntiedig ac mae'r Gronfa yn disgwyl iddynt fonitro cwmnïau, ymyrryd pan yn briodol, ac adrodd yn ôl yn gyson ar y gweithgareddau. Derbynnir adroddiadau ar bleidleisio ac ymrwymiad yn chwarterol.

Yn ogystal mae'r Gronfa yn derbyn 'rhybuddion' gan y Local Authority Pension Fund Forum, sydd yn amlygu materion llywodraethu corfforaethol pryderus ac maent yn cael ystyried priodol.

**Egwyddor 4 - Dylai buddsoddwyr sefydliadol sefydlu arweiniad clir ar bryd a sut y bydden uwchraddio eu gweithgareddau fel modd amddiffyn a gwella gwerth cyfranddalwyr.**

Fel amlygwyd uchod, mae cyfrifoldeb ar gyfer rhyngweithiad dydd i ddydd gyda chwmnïau yn cael ei dirprwyo i reolwyr asedau'r Gronfa, gan gynnwys uwchraddio'r ymrwymiad fel bo angen. Disgwylir iddynt ddatgan eu canllawiau yn eu datganiad cydymffurfio gyda'r Cod Stiwardiaeth eu hunain.

Er hynny, ar adegau, gallai'r Gronfa cymryd rhan mewn uwchraddio materion, yn bennaf trwy weithrediadau ymgysylltu gan y Local Authority Pension Fund Forum.

**Egwyddor 5 – Dylai buddsoddwyr sefydliadol bod yn fodlon i weithredu ar y cyd gyda buddsoddwyr eraill pan yn briodol.**

Mae'r Gronfa yn ceisio cydweithio gyda chyfranddalwyr sefydliadol er mwyn uchafu'i dylanwad ar gwmnïau unigol. Mae'r Gronfa yn ceisio gwneud hyn trwy aelodaeth y Local Authority

Pension Fund Forum, sydd yn ymgysylltu gyda chwmnïau ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ar ran ei aelodau.

**Egwyddor 6 - Dylai buddsoddwyr sefydliadol meddu ar bolisi clir ar gyfer pleidleisio a datgelu gweithgareddau pleidleisio.**

Mewn perthynas i bleidleisio cyfranddalwyr, mae'r Gronfa yn ceisio defnyddio pleidleisiau yn gysylltiedig â'i daliadau ecwiti DU ac i bleidleisio mewn marchnadoedd tramor pan yn ymarferol.

Mae cyfrifoldeb dros ddefnyddio hawliau pleidleisio wedi cael ei datganoli i'r rheolwyr ased apwyntiedig y gronfa ac mae hyn yn cynnwys ystyriaeth esboniadau'r cwmni ynglŷn â chydymffurfio a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Derbynnir adroddiadau cyson gan reolwyr yr asedau ar sut mae pleidleisiau wedi cael eu defnyddio a gellir trafod materion dadleuol mewn cyfarfodydd y panel.

Nid yw'r Gronfa yn datgelu unrhyw ddata pleidleisio ar hyn o bryd.

**Egwyddor 7 – Dylai buddsoddwyr sefydliadol adrodd yn gyson ar eu gweithgareddau stiwardiaeth a phleidleisio.**

Mae'r Gronfa yn adrodd yn flynyddol ar weithgareddau stiwardiaeth mewn adran benodol ar "Buddsoddiad Cyfrifol" yn ei adroddiad blynyddol.

# CRONFA BENSIWN GWYNEDD
# DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO

## 1.0 Cyflwyniad

Dyma Ddatganiad Strategaeth Cyllido (FSS) Cronfa Bensiwn Gwynedd (“y Gronfa”), sy’n cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd, (“yr Awdurdod Gweinyddol”).

Mae wedi’i baratoi gan yr Awdurdod Gweinyddol mewn cydweithrediad ag actiwari’r Gronfa, Hymans Robertson LLP, ac wedi ymgynghoriad gyda chyflogwyr ac ymgynghorydd buddsoddi'r Gronfa, ac mae’n weithredol o 31 Mawrth 2011**.**

### 1.1 Fframwaith Rheoleiddiol

Mae buddiannau cronedig yr aelodau wedi'u gwarantu gan statud. Mae cyfraniadau’r aelodau yn sefydlog yn y Rheoliadau ar lefel sy’n gwarchod rhan o’r gost o grynhoi buddiannau yn unig. Mae cyflogwyr yn talu gweddill y gost o gyflwyno’r buddiannau i aelodau. Mae’r FSS yn canolbwyntio ar y cyflymdra y mae’r ymrwymiadau hyn yn cael eu cyllido a, gyhyd ag sy’n ymarferol, y mesurau i sicrhau bod cyflogwyr neu’r cyflogwyr cydgyfrannog yn talu am eu hymrwymiadau eu hunain.

Mae’r FSS yn ffurfio rhan o fframwaith sy’n cynnwys:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) 1997 (gyda rheoliadau 76A a 77 yn benodol berthnasol);
- y Dystysgrif Cyfraddau ac Amrywiadau, sy’n amgaeëdig ag adroddiad prisiant tair blynyddol actiwari’r Gronfa;
- ffactorau actiwaraidd ar gyfer prisio cost ymddeoliadau cynnar a chost prynu gwasanaeth ychwanegol; â’r
- Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Dyma’r fframwaith y mae actiwari’r Gronfa yn cynnal prisiannau tair blynyddol oddi mewn iddo, i osod cyfraniadau’r cyflogwyr, darparu argymhellion i’r Awdurdod Gweinyddol pan fo angen penderfyniadau cyllido eraill, megis pan fo cyflogwyr yn ymuno â’r Gronfa neu’n ei gadael. Mae’r FSS yn berthnasol i’r holl gyflogwyr sy’n rhan o’r Gronfa.

### 1.2 Adolygiadau o FSS

Mae’r FSS yn cael ei adolygu’n fanwl o leiaf bob tair blynedd cyn i’r prisiadau tair blynyddol gael eu cynnal, gyda’r disgwyl i’r adolygiad llawn nesaf gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2014. Yn amlach, mae Atodiad A yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau i’r cyflogwyr.

Mae’r FSS yn grynodeb o agwedd y Gronfa at gyllido ymrwymiadau. Nid yw’n ddatganiad cynhwysfawr o bolisi ar yr holl faterion. Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â Mrs Caroline Roberts i ddechrau, ar carolineroberts@gwynedd.gov.uk neu 01286 679128.

# 2. Pwrpas

### 2.1 Pwrpas yr FSS

Mae Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM), (bellach yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (CLG)) wedi datgan mai pwrpas yr FSS yw:

- **“sefydlu** strategaeth cronfa-benodol glir a thryloyw **fydd yn adnabod y ffordd orau o gyrraedd ymrwymiadau pensiwn cyflogwyr wrth fynd ymlaen;**
- **cefnogi’r fframwaith rheoleiddiol i gynnal** cyfraddau cyfraniad cyflogwyr sydd mor gyson â phosibl**; a**
- **chymryd** golwg tymor hirach pwyllog **o gyllido’r ymrwymiadau hynny.”**

Mae’r amcanion hyn yn ddymunol yn unigol, ond gallant fod yn anghyson efo'i gilydd.

Mae’r datganiad hwn yn nodi sut mae’r Awdurdod Gweinyddol wedi cydbwyso amcanion anghyson fforddiadwyedd y cyfraniadau, tryloywder y prosesau, sefydlogrwydd cyfraniadau’r cyflogwyr, a phwyll yn y sail gyllido.

### 2.2 Pwrpas y Gronfa

Mae’r Gronfa yn gerbyd i gyflwyno buddiannau’r cynllun. Mae’r Gronfa:

- yn derbyn cyfraniadau, taliadau trosglwyddo ac incwm buddsoddi;
- yn talu buddiannau'r cynllun, gwerthoedd trosglwyddo a chostau gweinyddol.

Un o amcanion cynllun a gyllidir yw lleihau amrywiant costau pensiwn i gyflogwyr dros amser o’i gymharu â dewis arall nad yw’n cael ei gyllido (talu-wrth-fynd).

Mae swyddogaeth a chyfrifoldebau’r prif bartïon sydd ynghlwm â rheolaeth y cynllun pensiwn wedi’u crynhoi yn Atodiad B.

### 2.3 Amcanion y Polisi Cyllido

Mae amcanion polisi cyllido’r Gronfa yn cynnwys y canlynol:

- sicrhau diddyledrwydd hir dymor y Gronfa [a rhan o’r Gronfa sydd i’w phriodoli i gyflogwyr unigol];
- sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu’r holl fuddiannau pan ddaw'n amser i'w talu;
- peidio â rhwystro strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn ddiangen, fel y gall yr Awdurdod Gweinyddol geisio gwneud y gorau o’r enillion ar fuddsoddiadau (a thrwy hynny leihau cost y buddiannau) am lefel briodol o risg;
- helpu cyflogwyr i adnabod a rheoli ymrwymiadau pensiwn wrth iddynt gronni;

- lleihau’r raddfa o newid byr dymor yn lefel cyfraniadau pob cyflogwr ble mae’r Awdurdod Gweinyddol yn ystyried ei bod hi’n rhesymol gwneud hynny;
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau’r risg i gyflogwyr eraill ac yn y pen draw i Drethdalwyr y Cyngor, o gyflogwr yn diffygdalu ar ei ymrwymiadau pensiwn; â
- chyfeirio at wahanol nodweddion y gwahanol gyflogwyr neu grwpiau o gyflogwyr i’r graddau bod hyn yn ymarferol ac yn gost-effeithiol.

# 3. Materion Diddyledrwydd a Tharged Lefelau Cyllido

## 3.1 Tarddiad Cyfraniadau Cyflogwyr

Fel arfer mae cyfraniadau cyflogwyr wedi'u ffurfio o ddwy elfen:

a) amcan gost o fuddiannau'r dyfodol yn cael eu cronni, a gyfeirir ato *fel "cyfradd gwasanaeth y dyfodol"*; ynghyd ag

b) addasiad i safle cyllido (neu "diddyledrwydd") y buddiannau cronedig o'i gymharu â tharged diddyledrwydd y Gronfa, sef *"addasiad gwasanaeth y gorffennol"*. Os oes gwarged efallai y ceir lleihad i'r cyfraniadau; os oes diffyg yna bydd ychwanegiad i'r cyfraniadau, gyda'r gwarged neu'r diffyg yn cael ei rannu dros gyfnod priodol.

Yn ôl y rheoliadau, mae gofyn i actiwari'r Gronfa adrodd y Gyfradd Cyfraniad Cyffredin, i'r holl gyflogwyr ar y cyd ym mhob prisiant tair blynyddol. Mae'n cyfuno eitemau (a) a (b) ac mae'n cael ei fynegi fel canran o'r tâl. Er dibenion cyfrifo'r Gyfradd Cyfraniad Cyffredin, mae'r gwarged neu'r diffyg o dan (b) ar hyn o bryd yn cael eu rhannu dros gyfnod o 20 mlynedd sef yr uchafswm cyfnod adennill diffyg i gyflogwyr mwyaf y Gronfa.

Yn ogystal, mae gofyn i actiwari'r Gronfa addasu'r Gyfradd Cyfraniad Cyffredin ar gyfer amgylchiadau a bennir yn "hynod" i gyflogwr unigol. Mewn gwirionedd y gyfradd cyfraniad wedi ei addasu sydd yn rhaid i'r cyflogwyr ei dalu. Trafodir y mathau o ffactorau hynod a ystyrir yn Adran 3.5.

I bob pwrpas, mae'r Gyfradd Cyfraniad Cyffredin yn swm damcaniaethol. Mae cyfraddau gwasanaeth y dyfodol wedi'u cyfrifo ar gyfer pob cyflogwr yn unigol ynghyd ag addasiadau gwasanaeth y gorffennol yn unol â chyfnodau rhannu a chamau sy'n benodol i'r cyflogwyr.

Mae'n bosibl y cytunir i rai cyflogwyr gyfuno cyfraniadau, gweler Adran 3.7.4.
Mae Atodiad A, yn cynnwys dadansoddiad o gyfraniadau pob cyflogwr yn dilyn prisiant 2010 ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011/12, 2012/13 a 2013/14. Mae'n cynnwys cysoni cyfradd pob cyflogwr gyda'r Gyfradd Cyfraniad Cyffredin. Mae hefyd yn adnabod pa gyfraniadau cyflogwyr sydd wedi'u cyfuno ag eraill.

Rhaid i unrhyw gostau ymddeoliadau cynnar nad ydynt yn ymwneud â salwch gael eu talu'n llawn ar adeg penderfyniad y cyflogwr yn ychwanegol i'r cyfraniadau a ddisgrifir uchod (neu drwy randaliadau yn fuan wedi'r penderfyniad).

Mae cyfraniadau'r cyflogwyr yn cael eu mynegi fel isafswm, gyda'r cyflogwyr yn medru talu cyfraniadau rheolaidd ar gyfradd uwch. Dylai cyflogwyr drafod gyda'r Awdurdod Gweinyddol cyn gwneud taliadau cyfalaf unigol.

## 3.2 Diddyledrwydd a Tharged Lefelau Cyllido

Mae gofyn i actiwari'r Gronfa adrodd ar "ddiddyledrwydd" yr holl Gronfa o leiaf bob tair blynedd.

Diffinnir "diddyledrwydd" i gyflogwyr parhaus i fod y gymhareb o werth marchnad yr asedau i'r gwerth a roddir ar fuddiannau cronedig ar sail gyllido barhaus actiwari'r Gronfa. Adnabyddir y swm hwn fel lefel gyllido.

Y sail gyllido barhaus yw'r hyn a ddefnyddir ar gyfer pob prisiant tair blynyddol ac mae actiwari'r Gronfa yn cytuno ar y tybiaethau ariannol a demograffig i'w defnyddio ar gyfer pob prisiant o'r fath, gyda'r awdurdod gweinyddol.

Mae'r Gronfa yn gweithredu'r un targed lefel gyllido ar gyfer yr holl gyflogwyr parhaus o 100% o'i hymrwymiadau cronedig a brisir ar y sail barhaus. Dylech gyfeirio at baragraff 3.8 ar gyfer triniaeth cyflogwyr sy'n gadael.

## 3.3 Sail Cyllido Barhaus

Bwriedir i'r tybiaethau demograffig fod yn amcangyfrifon gorau ar gyfer profiad y Gronfa yn y dyfodol. Fel aelod o "Club Vita" y tybiaethau ar gyfer hirhoedledd sydd wedi eu mabwysiadu yn y prisiant yma yw set unigryw o "VitaCurves" sydd wedi eu teilwra yn benodol i weddu proffil aelodaeth y Gronfa. Mae consensws ymysg actiwariaid y bydd disgwyliad oes yn parhau i wella yn y dyfodol. Fodd bynnag does dim consensws pendant ynglyn â pha mor gyflym y bydd y gwelliant hyn yn digwydd (nac am faint y bydd yn parhau). Mae'r profesiwn actiwaraidd o'r farn y dylai'r lwfans ar gyfer gwelliannau mewn hirhoedledd fod ar ddisgresiwn pob cronfa bensiwn unigol, yn ddibynnol ar gyngor gan eu hactiwari.

Gall cyfraniadau gynyddu yn y dyfodol os bydd disgwyliad oes yn uwch na'r tybiaethau. Mae'r dull â ddefnyddir yn cael ei gysidro yn rhesymol o gofio natur hir dymor y Gronfa a'r lefel sicrwydd honedig sydd yn tanategu buddion aelodau. Mae'r tybiaethau demograffig yn amrywio yn ôl math o aelod ac felly yn adlewyrchiad o wahanol broffiliau aelodau'r cyflogwyr.

Y dybiaeth ariannol allweddol yw'r enillion a ragwelir ar fuddsoddiadau'r Gronfa. Mae'r dybiaeth enillion ar fuddsoddiadau yn cymryd yn ganiataol bydd yr enillion a ragwelir o ecwiti yn fwy na'r hyn geir ar fondiau. Nid oes, fodd bynnag, gwarant y bydd ecwiti yn perfformio'n well na bondiau. Mae'r risg yn fwy pan fo'n cael ei fesur dros gyfnodau byr megis y tair blynedd rhwng prisiannau actiwaraidd ffurfiol, pryd y gall yr enillion gwirioneddol a'r enillion tybiedig wyro llawer iawn.
Mae hi felly fel arfer yn briodol i gyfyngu'r gyfradd o newid i gyfraniadau cyflogwyr ar ddyddiadau prisiant tair blynyddol.

O gofio natur hir dymor iawn yr ymrwymiadau, cymerir golwg hir dymor o enillion arfaethedig o ecwiti. I bwrpas prisiad tair blynyddol 31 Mawrth 2010, a gosod cyfraddau cyfraniad sy'n effeithiol o 1 Ebrill 2011, mae actiwari'r Gronfa yn tybio bod yr enillion o fuddsoddiadau yn y dyfodol a enillir gan y Gronfa yn yr hir dymor yn mynd i fod 1.4% yn uwch na'r enillion a ddisgwylir o fuddsoddi mewn bondiau mynegai cysylltiol y llywodraeth ar ddyddiad y prisiad. Yn y cyd-destun yma, mae'r hir dymor yn golygu 20-30 mlynedd neu fwy. Ym marn actiwari'r Gronfa, ar sail strategaeth buddsoddi cyfredol y Gronfa, mae tybiaeth o orberfformiad ased o 1.4% y flwyddyn yn dderbyniol i bwrpas y prisiad.

Mae’r un tybiaethau ariannol wedi’u mabwysiadu ar gyfer yr holl gyflogwyr parhaus. Mae gan yr holl gyflogwyr yr un dyraniad ased.

## 3.4 Cyfraddau Cyfraniad Gwasanaeth y Dyfodol

Mae elfen gwasanaeth y dyfodol o gyfradd cyfraniad cyflogwyr wedi’i cyfrifo ar sail y prisiant parhaus, gyda’r nod o sicrhau fod yna asedion digonol wedi’u casglu i ddiwallu taliadau buddiannau’r dyfodol yn nhermau gwasanaeth y dyfodol. Mae’r agwedd a ddefnyddir i gyfrifo cyfradd cyfraniad gwasanaeth y dyfodol pob cyflogwr yn dibynnu ar p’un a yw dechreuwyr newydd yn cael eu derbyn ai peidio. Dylai cyflogwyr nodi mai Cyrff a Ganiateir yn unig sydd â’r pŵer i beidio â derbyn yn uniongyrchol yr holl staff newydd cymwys i’r Gronfa, yn ddibynnol ar delerau eu Cytundebau Derbyn a’u contractau cyflogaeth.

### *3.4.1 Cyflogwyr sy’n derbyn dechreuwyr newydd*

Bydd cyfradd gwasanaeth y dyfodol y cyflogwr yn seiliedig ar gost (yn fwy na chyfraniadau’r aelodau) y buddiannau y mae gweithwyr sy’n aelodau yn eu hennill drwy eu gwasanaeth bob blwyddyn. Yn dechnegol bydd y cyfraddau hyn yn deillio o ddefnyddio’r Dull Uned Arfaethedig o brisio gyda chyfnod rheoli o flwyddyn.

Os yw profiad y dyfodol yn unol â’r tybiaethau, ac mae proffil aelodaeth y cyflogwr yn parhau’n sefydlog, dylai’r gyfradd hon fod yn sefydlog yn fras dros amser. Pe byddai aelodaeth y gweithwyr yn aeddfedu (e.e. oherwydd llai o recriwtio) byddai’r gyfradd yn cynyddu.

Mae'r Dull Uned Arfaethedig yn cael ei ddisgrifio yn adroddiad yr Actiwari ar y prisiant.

### *3.4.2 Cyflogwyr nad ydynt yn derbyn dechreuwyr newydd*

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Gorff a Ganiateir wedi cau’r cynllun i ddechreuwyr newydd. Fodd bynnag, pe byddai Corff a Ganiateir yn cau’r cynllun i ddechreuwyr newydd disgwylir y byddai hyn yn arwain i oed cyfartalog gweithwyr sy'n aelodau gynyddu dros amser, ac o ganlyniad, gyda phopeth arall yn aros yr un peth, disgwylir y byddai’r gyfradd gwasanaeth yn y dyfodol yn cynyddu wrth i’r aelodaeth heneiddio.

Mewn achosion o'r fath byddai'r dull cyllido Oed a Gyrhaeddir yn cael ei fabwysiadu. Byddai hyn yn cyfyngu’r graddau o gynnydd mewn cyfraniadau yn y dyfodol drwy dalu cyfraddau uwch ar y dechrau.

Bydd cyfraddau gwasanaeth y dyfodol yn cynnwys costau gweinyddiaeth i’r graddau eu bod yn cael eu talu gan y Gronfa ac yn cynnwys lwfans ar gyfer buddiannau sy’n daladwy wedi marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd salwch.

## 3.5 Addasiadau i Gyflogwyr Unigol

Mae addasiadau i gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr unigol yn cael eu gosod drwy gyfrifo cyfraddau cyfraniadau gwasanaeth y dyfodol sy'n benodol i gyflogwyr a chyfrifo lefel gyllido'r cyflogwr.

I gyflogwyr unigol, mae effaith gyfunol yr addasiadau a osodir gan actiwari'r Gronfa yn ymwneud â:

- chyfraniadau'r gorffennol o'i gymharu â chost croniad buddiannau;
- gwahanol broffiliau ymrwymiadau'r cyflogwyr (e.e. cymysgedd o aelodau yn ôl oed, rhyw, gweithwyr llaw/ddim â llaw);
- effaith unrhyw wahaniaeth yn sail y prisiant ar y gwerth a roddir ar ymrwymiadau'r cyflogwr;
- unrhyw gyfnodau gwasgaru diffyg/gwarged neu gamau cyfraniadau gwahanol;
- y gwahaniaeth rhwng cynnydd gwirioneddol a thybiedig mewn tâl pensiynadwy;
- y gwahaniaeth rhwng cynnydd gwirioneddol a thybiedig i daliadau pensiwn a phensiynau sy'n cael eu gohirio;
- y gwahaniaeth rhwng ymddeoliadau gwirioneddol a thybiedig ar sail salwch o statws gweithredol;
- y gwahaniaeth rhwng symiau gwirioneddol a thybiedig o bensiwn yn dod i ben wedi marwolaeth;
- costau ychwanegol o unrhyw ymddeoliadau nad ydynt yn ymwneud â salwch o'i gymharu ag unrhyw daliadau ychwanegol a wneir;

dros y cyfnod rhwng pob prisiant tair blynyddol.

Mae'r enillion gwirioneddol a geir ar y Gronfa rhwng pob prisiant yn cael eu gosod yn gyfatebol ar draws yr holl gyflogwyr. Mae trawsnewid ymrwymiadau rhwng cyflogwyr o fewn y Gronfa yn digwydd yn awtomatig o fewn y broses hon, gyda swm sy'n gyfwerth yn fras â'r arian wrth gefn sydd ei angen ar y sail barhaus yn cael ei gyfnewid rhwng y ddau gyflogwr.

Nid yw actiwari'r Gronfa yn ystyried rhai digwyddiadau penodol cymharol fychan sydd wedi digwydd yn y cyfnod ers y prisiant ffurfiol diwethaf, yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- amseriad gwirioneddol cyfraniadau cyflogwyr o fewn unrhyw flwyddyn ariannol;
- effaith fwy neu lai o ymadawiadau nac a dybiwyd;
- effaith taliad cynnar o unrhyw bensiynau sy'n cael eu gohirio ar sail anallu.

Mae'r effeithiau hyn yn cael eu hysgubo o fewn eitem amrywiol yn y dadansoddiad o warged, sydd wedi'i rannu rhwng y cyflogwyr yn gymesur â'u hymrwymiadau.

### 3.6 Cyfrifiadau Rhannu Asedau i Gyflogwyr Unigol

Mae gofyn i actiwari'r Gronfa rannu asedau'r holl Gronfa rhwng y cyflogwyr ym mhob prisiant tair blynyddol gan ddefnyddio'r ffigyrau incwm a gwariant a ddarperir ar gyfer llif arian penodol i bob cyflogwr. Mae'r broses hon yn addasu ar gyfer trosglwyddo ymrwymiadau rhwng cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa, ond mae'n gwneud nifer o dybiaethau syml. Mae'r rhaniad yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio techneg actiwaraidd a enwir yn "dadansoddiad o warged". Mae'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn golygu y bydd peth gwahaniaeth yn annatod rhwng y cyfrannau asedau a gyfrifir ar gyfer cyflogwyr unigol a'r rheini a fyddai wedi eu cyfrifo pe byddai ganddynt Gronfa unigol iddynt hwy eu hunain. Gellir gwirio rhaniad yr asedau ond nid i safon archwiliad.

Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn adnabod y cyfyngiadau yn y broses, ond o ystyried y gost weinyddol ychwanegol o adeiladu diogelwch newydd, ystyria bod agwedd actiwari'r Gronfa yn cyfeirio at y risg o groes-gymhorthdalu cyflogwyr i raddau derbyniol.

### 3.7 Sefydlogrwydd Cyfraniadau Cyflogwyr

#### *3.7.1 Cyfnodau Adfer Diffygion*

Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn cyfarwyddo'r actiwari i fabwysiadu cyfnodau adfer diffygion penodol i'r holl gyflogwyr wrth gyfrifo eu cyfraniadau.

Mae'r Awdurdod Gweinyddol fel arfer yn targedu adferiad unrhyw ddiffyg dros gyfnod sy'n cymryd i ystyriaeth statws risg y cyflogwyr ac i effaith llai goblygiadau eang i adnoddau. Mae'r prif egwyddorion fel a ganlyn:

| Math o Gyflogwr | Uchafswm y Cyfnod ar Gyfer Adfer Diffygion |
|---|---|
| Cyrff statudol gyda phwerau codi trethi. | *cyfnod nad yw'n fwy na 20 mlynedd.* |
| Cyrff Cymunedol a Ganiateir gyda gwarantau cyllido. | *cyfnod nad yw'n fwy na 20 mlynedd.* |
| Colegau Addysg Bellach sy'n Gyrff ar yr Atodlen nid Cyrff a Ganiateir. | *cyfnod nad yw'n fwy na 15 mlynedd* |
| Cyrff Gwerth Gorau a Ganiateir. | *y cyfnod o ddechrau'r cyfraniadau diwygiedig hyd ddiwedd contract y cyflogwr.* |
| Cyrff Cymunedol a Ganiateir sydd ar gau i ddechreuwyr newydd e.e. Cwmnïau Bws, y mae eu cytundebau derbyn yn parhau wedi i'r aelod gweithredol olaf ymddeol. | *cyfnod sy'n gyfwerth ag oes gwaith disgwyliedig yn y dyfodol yr aelodau sy'n parhau yn y cynllun gan ganiatáu am adawyr disgwyliedig, yn amodol ar ddim llai na 9 mlynedd.* |
| Holl fathau eraill o gyflogwr | *cyfnod sy'n gyfwerth ag oes gwaith disgwyliedig yn y dyfodol yr aelodau sy'n parhau yn y cynllun* |

Defnyddir yr uchafswm cyfnod hwn wrth gyfrifo isafswm cyfraniad pob cyflogwr. Gall cyflogwyr ddewis talu cyfraniadau rheolaidd uwch na'r isafswm cyfraddau hyn.

Mae'r cyfnod adfer diffygion yn cychwyn ar ddechrau'r gyfradd cyfraniad diwygiedig (1 Ebrill 2011 ar gyfer prisiad 2010). Byddai'r Awdurdod Gweinyddol fel arfer yn disgwyl i'r un cyfnod gael ei ddefnyddio mewn prisiannau tair blynyddol dilynol, ond byddant yn cadw'r hawl i gynnig cyfnodau gwasgaru gwahanol, er enghraifft i wella sefydlogrwydd cyfraniadau.

***3.7.2 Cyflwyno Cynnydd mewn Cyfraniadau yn Raddol***

Nid yw Cyrff Gwerth Gorau a Ganiateir yn gymwys i gyflwyno cynnydd mewn cyfraniadau yn raddol. Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn disgwyl i gyflogwyr sydd gyda chynnydd o 0.5% neu lai yn eu cyfraniadau ym mhrisiad 2010, symud i'r gyfradd newydd yn syth. Oherwydd bod codiadau o fwy na 3% mewn rhai achosion mae opsiwn i rannu'r codiad dros gyfnod o 6 mlynedd gyda lleiafswm codiad o 0.5% y flwyddyn, tan cyrraedd y codiad llawn, yn ddibynnol ar fodlonrwydd yr Awdurdod Gweinyddol o safbwynt gwarchodaeth y Gronfa.

Bydd cyrff gyda'r hawl i godi trethi yn derbyn uchafswm codiad o 0.5% bob blwyddyn. Os yw'r gyfradd cyfraniadau yn disgyn yn y dyfodol bydd y cyrff yma hefyd yn derbyn lleihad hyd at 0.5% y flwyddyn.

***3.7.3 Effaith Dewis Gwasgaru'n Hirach neu Gyflwyno'n Raddol***

Tybir y bydd cyflogwyr sydd â chaniatâd ac sy'n dewis defnyddio cyfnod adfer diffygion hirach neu yn cyflwyno newidiadau i gyfraniadau yn raddol, yn colli mwy o'u henillion buddsoddi ar y diffyg drwy ddewis gohirio'r ad-daliad. O ganlyniad, bydd gohirio talu cyfraniadau yn arwain at gyfraniadau uwch yn yr hir dymor.

Ffordd bynnag mae unrhyw addasiad yn cael ei fynegi i wahanol gyflogwyr, yr egwyddor drechol yw y bydd gwerth gostyngedig addasiad y cyfraniad a fabwysiadir ar gyfer pob cyflogwr yn gyfwerth â diffyg y cyflogwr.

***3.7.4 Cyfraniadau Cydrannol***

***3.7.4.1 Cyflogwyr Llai***

Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn caniatáu i gyflogwyr llai [o fathau tebyg] i gydrannu eu cyfraniadau fel ffordd o rannu profiad ac unioni effeithiau digwyddiadau costus ond cymharol brin megis ymddeoliadau oherwydd salwch neu farwolaethau mewn gwasanaeth. Ni chaniateir i Gyrff Cymunedol a Ganiateir, y pennir gan yr Awdurdod Gweinyddol eu bod wedi cau i ddechreuwyr newydd, gymryd rhan mewn cydrannu. Mae Cyrff Gwerth Gorau a Ganiateir hefyd yn anghymwys i gydrannu.

Gofynnwyd i gyflogwyr sy'n gymwys ar gyfer cydrannu ym mhrisiant 2010 i roi eu caniatâd ysgrifenedig i gymryd rhan yn y cydrannu.

Fel ym mhrisiant 2010, gweithredwyd cydrannau ar wahân ar gyfer Cynghorau Tref ac ar gyfer Cyrff a Ganiateir llai.

***3.7.4.2 Cydrannau Cyfrannu Eraill***

Mae ysgolion hefyd wedi'u cydrannu gyda'u Cyngor cyllido.
Mae'r cyflogwyr hynny sydd wedi'u cydrannu wedi'u hadnabod yn Atodiad A.

### 3.8 Cyrff a Ganiateir yn peidio

Tybir bod Cytundebau Derbyn ar gyfer contractwyr Gwerth Gorau yn darfod ar ddiwedd y contract.

Yn gyffredinol tybir bod Cytundebau Derbyn ar gyfer cyflogwyr eraill yn ben-agored ac yn parhau hyd nes i'r pensiynwr olaf farw. Gall cyfraniadau, a fynegir fel taliadau cyfalaf, barhau i gael eu codi wedi i'r holl weithwyr ymddeol. Fodd bynnag, gellir terfynu'r Cytundebau Derbyn hyn ar unrhyw adeg.

Os yw cytundeb derbyn Corff a Ganiateir yn cael ei derfynu, mae'r Awdurdod Gweinyddol yn cyfarwyddo actiwari'r Gronfa i wneud prisiant arbennig i bennu a oes yna unrhyw ddiffyg.

Bydd y tybiaethau a fabwysiadir i roi gwerth ar ymrwymiadau'r cyflogwr sy'n gadael ar gyfer y prisiant hwn yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Er enghraifft:

(a) Ar gyfer Cyrff Gwerth Gorau a Ganiateir, y tybiaethau fyddai'r rheini a ddefnyddir am brisiant parhaus i fod yn gyson gyda'r rheini a ddefnyddir i gyfrifo trosglwyddiadau cychwynnol asedau i fynd gydag ymrwymiadau'r aelod gweithredol a drosglwyddwyd.

(b) Ar gyfer Cyrff a Ganiateir nad ydynt yn Werth Gorau, sy'n dewis terfynu eu cyfranogiad yn wirfoddol, rhaid i'r Awdurdod Gweinyddol geisio amddiffyn buddion cyflogwyr parhaus eraill a bydd gofyn i'r actiwari fabwysiadu tybiaethau prisiant a fydd, i raddau sy'n rhesymol ymarferol, yn amddiffyn y cyflogwyr eraill rhag y tebygolrwydd i unrhyw golled materol godi yn y dyfodol. Gallai hyn arwain at yr angen am daliadau sylweddol.

(c) Ar gyfer Cyrff a Ganiateir gyda gwarantwyr, mae'n bosibl y gellir trosglwyddo unrhyw ddiffyg i'r gwarantwr ac mewn achos o'r fath mae'n bosibl yn syml i drosglwyddo aelodau ac asedau'r Cyrff a Ganiateir blaenorol i'r gwarantwr, heb orfod crisialu unrhyw ddiffyg.

O dan (a) a (b), byddai unrhyw ddiffyg ariannol yn cael ei godi fel taliad cyfalaf ar y Corff a Ganiateir sy'n gadael.

### 3.9 Costau Ymddeoliadau Cynnar

#### 3.9.1 *Ymddeoliadau nad ydynt yn ymwneud â salwch*

Nid yw sail gyllido'r actiwari yn cymryd ymddeoliad cynamserol i ystyriaeth ac eithrio ar sail salwch. Mae gofyn i gyflogwyr dalu cyfraniadau ychwanegol pan fo gweithiwr yn ymddeol cyn cyrraedd yr oed y mae'r prisiant yn tybio y bydd y buddiannau yn daladwy.

Tybir bod buddiannau aelodau ar oed ymddeol yn daladwy o'r oedran cynharaf y gallai'r gweithiwr ymddeol heb achosi gostyngiad i'w fuddiannau a heb orfod cael caniatâd ei gyflogwr i ymddeol.

Mae costau ychwanegol ymddeoliad cynamserol wedi'u cyfrifo drwy gyfeirio at yr oedrannau hyn.

# 4. Cysylltiadau â Strategaeth Fuddsoddi

Mae cyllido a strategaeth fuddsoddi yn annatod yn gysylltiedig. Mae'r strategaeth fuddsoddi wedi'i gosod gan yr awdurdod gweinyddol, wedi ymgynghoriad â'r cyflogwyr ac wedi derbyn cyngor ar fuddsoddi.

## 4.1 Strategaeth Fuddsoddi

Mae'r strategaeth fuddsoddi sy'n cael ei dilyn ar hyn o bryd wedi'i disgrifio yn Natganiad o Egwyddorion Buddsoddi'r Gronfa.
Mae'r strategaeth fuddsoddi wedi'i gosod am y tymor hir, ond mae'n cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd, fel arfer bob tair blynedd, i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn briodol i broffil ymrwymiadau'r Gronfa. Mae'r Awdurdod Gweinyddol wedi mabwysiadu meincnod sy'n gosod y gyfran o asedau i'w buddsoddi mewn dosbarthiadau asedau allweddol megis ecwiti, bondiau ac eiddo. Ar 31 Mawrth 2007, roedd dosbarthiad asedau'r Gronfa fel a ganlyn:

| **Dosbarthiad Ased** | **%** |
|---|---|
| Ecwiti | 75.70 |
| Eiddo | 7.65 |
| Bondiau Dychweliad Absoliwt | 13.92 |
| Arian Parod | 2.73 |
| **CYFANSWM** | **100.0** |

Y strategaeth fuddsoddi gyda'r risg lleiaf – ond nid o anghenraid yr un mwyaf cost-effeithiol yn yr hir dymor – fyddai buddsoddi 100% mewn bondiau'r llywodraeth sy'n gysylltiedig â mynegai.
Mae meincnod y Gronfa yn cynnwys daliad sylweddol mewn ecwiti wrth ddilyn enillion uwch yn yr hir dymor nac o fondiau llog sefydlog. Mae strategaeth yr Awdurdod Gweinyddol yn cydnabod ymrwymiadau cymharol anaeddfed y Gronfa a natur ddiogel cyfamodau mwyafrif o gyflogwyr.

Mae'r un strategaeth fuddsoddi yn cael ei dilyn ar hyn o bryd ar gyfer yr holl gyflogwyr. Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod Gweinyddol y cyfleuster i weithredu gwahanol strategaethau buddsoddi ar gyfer gwahanol gyflogwyr.

## 4.2 Cysondeb gyda Sail Gyllido

Mae'r polisi cyllido presennol, i bwrpas gosod gwerth ar yr ymrwymiadau ym mhrisiad cyllido tair blynyddol 2010 a gosod cyfradd y cyfraniadau sy'n effeithiol o'r 1 Ebrill 2011, yn tybio bod yr enillion o fuddsoddiadau yn y dyfodol a enillir gan y Gronfa yn yr hir dymor yn mynd i fod 1.4% yn uwch na'r enillion a ddisgwylir o fuddsoddi mewn bondiau mynegai cysylltiol y llywodraeth ar ddyddiad y prisiad. Yn y cyd-destun yma, mae'r hir dymor yn golygu 20-30 mlynedd neu fwy.

Ar sail dyraniad ased y Gronfa ar 31 Mawrth 2010, mae hyn gyfwerth â derbyn gorberfformiad o 1.8% y flwyddyn drwy fuddsoddi mewn ecwiti yn hytrach na bondiau

llog sefydlog, gorberfformiad o 0.9% y flwyddyn o eiddo ac ychydig neu ddim gorberfformiad o asedau eraill sydd ddim yn ecwiti.

Ym marn actiwari'r Gronfa, mae'r polisi cyllido cyfredol yn gyson gyda strategaeth buddsoddi cyfredol y Gronfa, mae tybiaeth o orberfformiad ased yn dderbyniol i bwrpas y prisiad ac yn gyson gyda'r angen i gymryd "barn hir dymor pwyllog" o gyllido'r ymrwymiadau (gweler paragraff 3.1).

Fodd bynnag, yn y tymor byr – megis yr asesiadau bob tair blynedd mewn prisiannau ffurfiol – mae sgôp ar gyfer anwadalrwydd sylweddol ac mae yna gyfle materol y byddai'r enillion o asedau yn brin o'r targed hwn, yn y tymor byr a'r tymor canolig hyd yn oed. Bydd y mesurau sefydlogrwydd a ddisgrifir yn Adran 3 yn lleihau, ond nid yn cael gwared ar yr effaith ar gyfraniadau cyflogwyr. Nid oes gan y Gronfa arian wrth gefn i'w gwarchod rhag anwadalrwydd buddsoddiadau ecwiti.

**4.3 Cydbwysedd rhwng risg a gwobrwyo**

Cyn gweithredu ei strategaeth fuddsoddi cyfredol, fe ystyriodd yr Awdurdod Gweinyddol y cydbwysedd rhwng risg a gwobrwyo drwy newid lefel buddsoddiad mewn dosbarthiadau ased sydd â photensial o enillion uwch, ond mwy anwadal, fel ecwiti. Hysbyswyd y broses hon gan y defnydd o dechnegau Atebolrwydd-Ased i fodelu'r amrediad o lefelau diddyledrwydd potensial y dyfodol a chyfraddau cyfraniadau.

**4.4 Monitro'r Sefyllfa Cyllido Rhwng Prisiannau**

Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn monitro perfformiad buddsoddi o'i gymharu â'r cynnydd mewn ymrwymiadau drwy ddulliau mesur enillion buddsoddi o'i gymharu â'r enillion ar bortffolio risg lleiaf o fondiau cysylltiedig â mynegai.

# 5. Risg a Rheolaeth Allweddol

### 5.1 Mathau o Risg

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddol raglen rheoli risg gweithredol ar waith. Mae'r mesuriadau sydd gan yr Awdurdod Gweinyddol ar waith i reoli risg allweddol wedi'u crynhoi isod o dan y penawdau canlynol:

- ariannol;
- demograffig;
- rheoleiddiol; a
- llywodraethol.

### 5.2 Risg Ariannol

| Rhif | Risg | Crynodeb o Ddulliau Rheoli |
|---|---|---|
| F1 | Asedion y Gronfa yn methu â chyflwyno enillion yn unol ag enillion rhagweledig sy'n danategol i'r prisiant o ymrwymiadau dros yr hir dymor. | *Rhagdybio enillion hir dymor ar sail gymharol bwyllog yn unig er mwyn lleihau'r risg o dan-berfformio.*<br>*Dadansoddi cynnydd mewn prisiannau tair blynyddol i'r holl gyflogwyr.* |
| F2 | Strategaeth fuddsoddi hir dymor amhriodol. | *Gosod meincnod sy'n benodol i'r Gronfa, a hysbysir gan fodelu Atebolrwydd-Ased o ymrwymiadau.*<br>*Ystyried mesur perfformiad a gosod targedau'r rheolwyr o'i gymharu â tharged seiliedig ar fondiau, enillion absoliwt neu Bortffolio Meincnod Atebolrwydd a ddim o'i gymharu â mynegai.* |
| F3 | Gostyngiad mewn enillion di-risg ar fondiau'r Llywodraeth, yn arwain at gynnydd yn y gwerth a roddir ar ymrwymiadau. | *Peth buddsoddiad mewn bondiau yn helpu i leddfu'r risg hwn.* |
| F4 | Rheolwr buddsoddi gweithredol yn tan-berfformio o'i gymharu â'r meincnod. | *Monitro buddsoddiad tymor byr (chwarterol) drwy ddadansoddi perfformiad y farchnad a'r rheolwyr gweithredol o'i gymharu â'u meincnod.*<br>*Mae hwn yn awr yn cael ei atodi gyda dadansoddiad o adenillion absoliwt yn erbyn y rheini sy'n tanategu'r prisiad.*<br>*Mae hyn yn rhoi rhybudd cynnar o gynnydd mewn cyfraniadau sydd ar eu ffordd. Yn y tymor byr, lleihawyd anwadalrwydd gan fesuriadau sefydlogrwydd ar gyfraniadau. Fodd bynnag, os yw tan-berfformiad yn parhau dros gyfnodau o dros 5 mlynedd byddai cyfraniadau yn cynyddu'n fwy.* |

| Rhif | Risg | Crynodeb o Ddulliau Rheoli |
|---|---|---|
| F5 | Chwyddiant tâl a phrisiau yn sylweddol fwy na'r hyn a ragwelwyd. | *Mae ffocws y broses prisiant actiwaraidd ar enillion gwirioneddol asedau, prisiau net a chynnydd tâl.*<br>*Mae peth buddsoddiad mewn bondiau hefyd yn helpu i leddfu'r risg hwn.*<br>*Mae cyflogwyr yn talu am eu dyfarniadau cyflog eu hunain.* |
| F6 | Effaith cynnydd posibl mewn cyfradd cyfraniadau cyflogwyr ar gyflwyniad gwasanaeth ac ar gyrff a ganiateir/gyrff ar yr atodlen. | *Lleddfu'r effaith drwy wasgaru diffygion a chyflwyno cynnydd mewn cyfraniadau yn raddol.* |

**5.3 Risg Demograffig**

| Rhif | Risg | Crynodeb o Ddulliau Rheoli |
|---|---|---|
| D1 | Pensiynwyr yn byw'n hirach. | *Gosod rhagdybiaethau marwolaeth gyda pheth ystyriaeth i gynnydd mewn disgwyliad oes yn y dyfodol.*<br>*Yn y Prisiad diweddaraf ar 31 Mawrth 2010, darparwyd dadansoddiad o hirhoedledd cyfredol penodol ar gyfer Gwynedd gan "Club Vita". Yn ychwanegol mae'r Actiwari wedi gwneud lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r lwfans a wnaed ym mhrisiad Mawrth 2010 yn uwch na'r hyn wnaed yn y prisiad olaf yn ol yn 2007. Bydd yr Actiwari yn parhau i fonitro tystiolaeth o welliannau o Club Vita a ffynonellau eraill ac yn ein cynghori yn y prisiad nesaf (2013) faint mwy o lwfans fydd ei angen ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.* |
| D2 | Patrymau ymddeoliadau cynnar yn dirywio. | *Codir cost cyfalaf ychwanegol o ymddeoliadau nad ydynt yn ymwneud â salwch, ar gyflogwyr yn dilyn pob penderfyniad unigol.* |

**5.4 Rheoleiddiol**

| Rhif | Risg | Crynodeb o Ddulliau Rheoli |
|---|---|---|
| R1 | Newidiadau i reoliadau, e.e. pecyn buddiannau mwy ffafriol, dechreuwyr newydd potensial i'r cynllun, e.e. gweithwyr rhan amser. | *Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn effro i'r potensial o greu ymrwymiadau ychwanegol ac anawsterau gweinyddol i gyflogwyr a'i hun.* |

| | | |
|---|---|---|
| R2 | Newidiadau i ofynion pensiwn gwladol a/neu rheolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) e.e. effaith cael gwared ar derfyn enillion i ddechreuwyr ôl-1989 o fis Ebrill 2006, cynllun newydd 2008 a dileu'r Rheol 85. | |

**5.5 Llywodraethol**

| **Rhif** | **Risg** | **Crynodeb o Ddulliau Rheoli** |
|---|---|---|
| G1 | 1) Awdurdod Gweinyddol ddim yn ymwybodol o newidiadau strwythurol yn aelodaeth cyflogwr (e.e. gostyngiad mawr mewn aelodau sy'n weithwyr, nifer fawr o ymddeoliadau).<br>2) Awdurdod Gweinyddol ddim yn cael gwybod am gyflogwr yn cau i ddechreuwyr newydd. | *Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn monitro symudiadau aelodaeth yn flynyddol.*<br>*Mae'n bosibl y rhoddir cyfarwyddiadau i'r Actiwari i ystyried adolygu'r dystysgrif Cyfraddau ac Amrywiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr (o dan Reoliad 78) rhwng prisiannau tair blynyddol.*<br>*Mynegir cyfraniadau diffyg fel symiau ariannol gweler Atodiad A.* |
| G2 | Awdurdod Gweinyddol yn methu â chomisiynu Actiwari'r Gronfa i wneud prisiant terfynol ar gyfer Corff a Ganiateir sy'n gadael ac yn colli'r cyfle i alw'r ddyled yn ôl. | *Yn ogystal â'r Awdurdod Gweinyddol yn monitro symudiadau aelodaeth yn flynyddol, byddai'n gofyn i gyflogwyr gyda chontractwyr Gwerth Gorau roi gwybod iddo am newidiadau yn y dyfodol.*<br>*Byddai hefyd yn gweithredu system ddyddiadur i roi gwybod iddo am derfyniad buan Cytundebau Derbyn Gwerth Gorau.* |
| G3 | Cyflogwr yn peidio â bodoli gyda chyllido neu fond annigonol. | *Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn credu y byddai fel arfer yn rhy hwyr i gyfeirio at y sefyllfa pe byddai'n cael ei adael tan yr amser gadael. Mae'r risg yn cael ei leddfu gan:*<br>• *Geisio gwarant cyllido gan gyflogwr arall o'r cynllun, neu gorff allanol, ble bo hynny'n bosibl.*<br>• *Roi gwybod i'r cyflogwr arfaethedig am ei ymrwymiadau a'i annog i gymryd cyngor actiwaraidd annibynnol.*<br>• *Gwirio cyflogwyr arfaethedig cyn derbyn*<br>• *Gosod cyfyngiad isaf o 20 o weithwyr ar gyfer cyflogwyr arfaethedig.*<br>• *Bydd yr Awdurdod Gweinyddol, ble y caniateir o dan y rheoliadau, yn ystyried gofyn am fond i warchod y cynllun rhag y gost ychwanegol o ymddeoliadau cynnar neu ddiswyddiadau pe byddai'r cyflogwr yn methu.* |

## Atodiad A – Cyfraniadau Cyflogwyr, Cyfnodau Gwasgaru a Chyflwyno'n Raddol

Yn dilyn prisiant 2010, mae'r isafswm cyfraniadau cyflogwr a ddangosir yn y dystysgrif Cyfraddau ac Amrywiadau sydd ynghlwm ag adroddiad prisiant 2010 yn seiliedig ar y cyfnodau adfer diffyg a'r cyfnodau cyflwyno'r raddol a ddangosir yn y tabl isod. Mae'r tabl hefyd yn dangos yr amrywiadau unigol o dan Rheoliad 77(6) i gyfraniadau pob cyflogwr o'r 'Gyfradd Cyfraniad Cyffredin'.

| COD | Enw'r Cyflogwr neu'r Pwl | Uchafswm Cyfnod Adennill Diffyg Arfaethiedig (mewn blynyddoedd) | Cyfnod Gwasgaru (mewn blynyddoedd) | Cyfraddau Cyfraniadau am y flwyddyn sy'n gorffen | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 31.03.12 | 31.03.13 | 31.03.14 | 31.03.15 | 31.03.16 | 31.03.17 |
| 100 | Gwynedd | 20 | S | 21.4% | 21.9% | 22.4% | | | |
| 200 | Ynys Môn | 20 | S | 21.5% | 22.0% | 22.5% | | | |
| Pool | Pwl Conwy | | | | | | | | |
| 300 | - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 20 | S | 20.6% | 21.1% | 21.6% | | | |
| 55 | - *Ysgol Emrys ap Iwan* | 20 | S | 20.6% | 21.1% | 21.6% | | | |
| 56 | - *Ysgol Uwchradd Eirias* | 20 | S | 20.6% | 21.1% | 21.6% | | | |
| 57 | - *Ysgol Bryn Elian* | 20 | S | 20.6% | 21.1% | 21.6% | | | |
| 58 | - *Ysgol Pen y Bryn* | 20 | S | 20.6% | 21.1% | 21.6% | | | |
| 7 | Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 20 | S | 18.4% | 18.9% | 19.3% | | | |
| 35 | Coleg Menai | GOG | 5 | 19.6% | 20.1% | 20.6% | 21.1% | 21.4% | |
| 37 | Careers Wales North West | GOG | 6 | 17.9% | 18.4% | 18.9% | 19.4% | 19.9% | 20.4% |
| 38 | Cwmni Cynnal | GOG | 0 | 29.1% | 29.1% | 29.1% | | | |
| 43 | Parc Cenedlaethol Eryri | 20 | S | 20.7% | 21.2% | 21.7% | | | |
| 44 | Coleg Llandrillo | GOG | 4 | 17.7% | 18.2% | 18.7% | 19.0% | | |
| 63 | Mantell Gwynedd | GOG | 0 | 22.0% | 22.0% | 22.0% | | | |
| 75 | Eden Food Services | GOG | 0 | 5.1% | 5.1% | 5.1% | | | |
| 76 | Cartrefi Conwy | GOG | 6 | 16.0% | 16.5% | 17.0% | 17.5% | 18.0% | 18.2% |
| Pwl | Cyrff Eraill ar yr Atodlen | | | | | | | | |
| 13 | - C.T. Caernarfon | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 14 | - C.T. Porthaethwy | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 16 | - C.D. Bangor | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 17 | - C.T. Llangefni | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 22 | - C.T. Biwmares | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 27 | - C.T Caergybi | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 28 | - C.T Llandudno | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 66 | - C.T. Tywyn | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 68 | - C.C Llanllyfni | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 70 | - C.T. Towyn a Bae Kinmel | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 72 | - C.T. Abergele | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 73 | - C.T Bae Colwyn. | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |
| 74 | - C.T. Blaenau Ffestiniog | 20 | 0 | 21.2% | 21.2% | 21.2% | | | |

| | | Uchafswm Cyfnod Adennill Diffyg Arfaethiedig | Cyfnod Gwasgaru | Cyfraddau Cyfraniadau am y flwyddyn sy'n gorffen | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **COD** | **Enw'r Cyflogwr neu'r Pwl** | **(mewn blynyddoedd)** | **(mewn blynyddoedd)** | **31.03.12** | **31.03.13** | **31.03.14** | **31.03.15** | **31.03.16** | **31.03.17** |
| Pwl | Cyrff Eraill a Ganiateir | | | | | | | | |
| 8 | - Coleg Harlech | GOG | 6 | 20.1% | 20.8% | 21.5% | 22.1% | 22.7% | 23.3% |
| 11 | - Cymdeithas Gog Cymru i'r Deillion | GOG | 6 | 20.1% | 20.8% | 21.5% | 22.1% | 22.7% | 23.3% |
| 25 | - Cyd-Bwyllgor Claddu Caergybi | GOG | 6 | 20.1% | 20.8% | 21.5% | 22.1% | 22.7% | 23.3% |
| 41 | - Cwmni'r Fran Wen | GOG | 6 | 20.1% | 20.8% | 21.5% | 22.1% | 22.7% | 23.3% |
| 61 | - Gwasanaeth Gwirfoddol Conwy | GOG | 6 | 20.1% | 20.8% | 21.5% | 22.1% | 22.7% | 23.3% |
| 62 | - Medrwn Môn | GOG | 6 | 20.1% | 20.8% | 21.5% | 22.1% | 22.7% | 23.3% |
| 64 | - Canolfan Cynghori Ynys Môn | GOG | 6 | 20.1% | 20.8% | 21.5% | 22.1% | 22.7% | 23.3% |
| 67 | - Menter Môn | GOG | 6 | 20.1% | 20.8% | 21.5% | 22.1% | 22.7% | 23.3% |
| 69 | - Canolfan Cynghori Conwy | GOG | 6 | 20.1% | 20.8% | 21.5% | 22.1% | 22.7% | 23.3% |
| 71 | - CAIS | GOG | 6 | 20.1% | 20.8% | 21.5% | 22.1% | 22.7% | 23.3% |

*GOG = Gweddill Oes Gwaith
*S = Corff statudol sydd yn codi trethi – cyfyngir codiad neu leihad i 0.5% y flwyddyn

## Atodiad B – Cyfrifoldebau Partïon Allweddol

***Dylai'r Awdurdod Gweinyddol:-***

- gasglu cyfraniadau'r cyflogwyr a'r gweithwyr;
- fuddsoddi arian dros ben yn unol â'r rheoliadau;
- sicrhau bod arian parod ar gael i ddiwallu'r ymrwymiadau pan fyddant angen eu talu;
- rheoli'r broses prisiant mewn ymgynghoriad ag actiwari'r Gronfa;
- baratoi a chynnal FSS a SoIP, wedi ymgynghoriad gyda phartïon sydd â diddordeb ble mae'n addas; a
- monitro holl agweddau perfformiad a chyllido'r Gronfa a diwygio'r FSS/SoIP.

***Dylai'r Cyflogwr Unigol:-***

- dynnu cyfraniadau o dâl y gweithwyr yn gywir;
- dalu'r holl gyfraniadau, yn cynnwys eu cyfraniadau eu hunain fel a bennir gan yr actiwari, ar amser ac erbyn y dyddiad y maent angen eu talu;
- ddefnyddio disgresiwn o fewn y fframwaith rheoliadol;
- wneud cyfraniadau ychwanegol yn unol â threfniadau a gytunir arnynt yn nhermau, er enghraifft, ychwanegiad buddiannau'r cynllun, straen ymddeoliad cynnar; a
- roi gwybod i'r awdurdodau gweinyddol yn fuan am yr holl newidiadau i'r aelodaeth, neu, fel a gynigir, sy'n effeithio ar gyllido yn y dyfodol.

***Dylai actiwari'r Gronfa:-***

- baratoi prisiannau yn cynnwys gosod cyfraddau cyfraniad y cyflogwr ar ôl cytuno ar dybiaethau gyda'r Awdurdod Gweinyddol a chadw'r FSS mewn cof; a
- pharatoi cyngor a chyfrifiadau mewn perthynas â'r throsgwlyddiadau crynswth a materion unigol sy'n ymwneud â buddiannau.